# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND



# Cronfa Loteri Fawr
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 34(3) a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006.

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion Yr Alban ar 11 Gorffennaf 2013

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

I'w argraffu ar 11 Gorffennaf 2013 yn unol â gorchymyn T ŷ'r Cyffredin.

HC 447 LLUNDAIN: Y LLYFRFA £30.00

SG/2013/116

**© Cronfa Loteri Fawr (2013)**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfau Brenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu ar unrhyw gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Gronfa Loteri Fawr a nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid ceisio caniatâd gan y deiliad hawlfraint priodol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Loteri Fawr, 1 Plough Place, Llundain EC4A 1DE.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o www.cronfaloterifawr.org.uk

ISBN: 9780102985733

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Cyfyngedig ar ran Rheoleiddiwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2571051 07/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr a ailgylchwyd.


# Cronfa Loteri Fawr
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012/13

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad a chrynodeb gan y Cadeirydd | 6 |
| Adran un | Ein perfformiad gweithredol | 9 |
| Adran dau | Ein rhaglenni grantiau | 22 |
| Adran tri | Effaith ein gwaith | 54 |
| Adran pedwar | Ein perfformiad ariannol | 56 |
| Adran pump | Ein llywodraethu, gan gynnwys:<br>Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon<br>Aelodaeth o'r Bwrdd, pwyllgorau gwlad a'r Uwch Dîm Rheoli<br>Cofrestr o fuddiannau aelodau<br>Y datganiad llywodraethu<br>Adroddiad tâl cydnabyddiaeth | 66 |
| Adran chwech | Ein datganiadau ariannol, gan gynnwys:<br>Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol<br>Cyfrifon Blynyddol<br>Memorandwm o gyfrifon – cyfrifon segur | 90 |
| Adran saith | Ein cefndir statudol | 124 |

# FFEITHIAU ALLWEDDOL

**£778miliwn**




**12,000**

o ddyfarniadau wedi'u gwneud




o ariannu i'r sector gwirfoddol a chymunedol




o dyfarniadau'n £10,000 neu'n llai




o'n hincwm gan y Loteri wedi'i wario ar ein costau

# Cyflwyniad a chrynodeb

**Gan y Cadeirydd**

Y Gronfa Loteri Fawr yw'r dosbarthwr Loteri mwyaf, gan ddarparu ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein cenhadaeth o ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein perfformiad a'n cyflawniadau yn 2012/13.

Mae'r proffil o angen yn y DU yn newid trwy'r amser, wedi'i gynnal gan ddirwasgiad gwaethaf yr oesoedd diweddar a lefelau caledi cynyddol ar draws y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r heriau a wynebir gan y bobl fwyaf anghenus yn hynod o anodd i fynd i'r afael â nhw ac yn aml y mudiadau sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh) yw'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i gyrraedd y bobl a'r cymunedau yr ydym eisiau i'n hariannu eu cefnogi.

Yn 2012/13 dyfarnwyd dros 92 y cant o'n hariannu i'r SGCh. Mae galw cynyddol am wasanaethau, effaith cwtogi ar ariannu yn y sector cyhoeddus a gostyngiad mewn rhoddion unigol wedi cyfrannu at gystadleuaeth gynyddol am ein hariannu.

Gwnaethom dderbyn dwywaith y nifer y ceisiadau yr oedd modd i ni eu hariannu; fodd bynnag roedd hyn yn erbyn cefndir o werthiannau tocynnau Loteri cryf ac roeddem yn gallu gwneud bron 13,000,000 o ddyfarniadau gwerth cyfanswm o fwy na £778 miliwn i brosiectau, mudiadau a phartneriaethau yn gweithio ym meysydd iechyd, addysg, yr amgylchedd a dibenion elusennol.



**ACT NOW, Llundain – £464,000 ar gyfer prosiect theatr i helpu pobl ddigartref i newid eu bywydau er gwell**

Rydym yn ariannu mentrau sy'n cryfhau gallu sefydliadol ac yn galluogi mudiadau i weithredu ar sail fwy cynaliadwy, megis ein hariannu ar gyfer buddsoddiad cymdeithasol sy'n cefnogi mudiadau SGCh i wella'u capasiti, hygyrchu ffynonellau ariannu eraill a thyfu eu gwasanaethau.



Parhawn i chwilio am ffyrdd o fwyafu effaith ein hariannu a dylanwadu ar gynllun y gwasanaethau a ddarperir i'r rhai mwyaf anghenus.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi buddsoddi mewn nifer o ymyraethau strategol i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ystyfnig, megis A Better Start yn Lloegr sy'n anelu at helpu babanod a phlant bregus a'r rhaglen Impact of Alcohol yng Ngogledd Iwerddon, sy'n anelu at wella bywydau pobl yr effeithir arnynt o ganlyniad i rywun agos yn camddefnyddio alcohol.

Yn ogystal â buddsoddi mewn ymyraethau strategol mawr, parhawn i gefnogi prosiectau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i gymunedau ar draws y DU.

Yn 2012/13 roedd 88 y cant o'n dyfarniadau'n £10,000 neu lai, gan ariannu pob math o brosiect bach lleol o welliannau i leoliadau cymunedol i erddi cymunedol sy'n annog pobl i dyfu eu llysiau eu hunain. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn lleoedd y mae ariannu wedi methu â'u cyrraedd yn flaenorol trwy'r rhaglen Big Local yn Lloegr, Lleisiau Lleol yng Nghymru ac Our Place yn yr Alban, sy'n annog pobl leol i ymwneud â'u cymdogaethau.

> **Roedd 88 y cant o'n dyfarniadau'n £10,000 neu lai, gan ariannu pob math o brosiectau lleol bach**

Gwnaethom geisio sicrhau hefyd bod gan ein harian yr effaith fwyaf trwy gyrraedd cynulleidfa ehangach gydag ystod o weithgareddau. Arddangosodd rhaglen Tynnu'r Loteri Genedlaethol ar BBC1 nifer o brosiectau a ariannwyd, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl ar draws pob rhan o gymdeithas. Gwnaethom weithio mewn partneriaeth hefyd gyda nifer o fudiadau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth a all ddod yn sgil arian Loteri, megis ein partneriaeth gyda Channel 4 ar The Secret Millions.

Blwyddyn i ddathlu oedd 2012/13. Gwnaethom gefnogi cymunedau i ddod ynghyd trwy Ginio Mawr y Jiwbilî, a gwelodd wyth a hanner miliwn o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ar draws y DU fel rhan o Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines.

Dangosodd y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd i'r genedl y gwahaniaeth y gall arian Loteri ei wneud, trwy helpu ein hathletwyr gorau i gyrraedd brig y bwrdd medalau. Yn dilyn llwyddiant y Gemau Olympaidd, cyhoeddwyd Ymddiriedolaeth Ysbryd 2012 i sicrhau etifeddiaeth barhaus ar gyfer y Gemau.

Gan ddefnyddio ein harbenigedd gwnaethom gydweithio ag eraill i gryfhau ein cenhadaeth, trwy gyflwyno ariannu ochr yn ochr â, neu ar ran, mudiadau eraill, gan ein helpu i gyrraedd hyd yn oed yn fwy o bobl a chymunedau.




**Pride Media, Manceinion – £204,062 i roi hyfforddiant TG i bobl dros 50 oed**

Er enghraifft, gwnaethom weithio gyda Llywodraeth Yr Alban i gydariannu'r Communities and Families Fund, gan helpu i roi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant.

Hoffwn ddiolch i'n staff a'r rhai rydym yn cydweithio â nhw am eu hymrwymiad parhaus, yn enwedig wrth i ni weithio tuag at leihau ein costau gweithredu ac aildrefnu ein staff i gefnogi'r targed costau heriol hwn.


Cyhoeddodd ein Prif Weithredwr, Peter Wanless, yn gynnar yn 2013 y byddai'n gadael.

O dan ei arweinyddiaeth rydym wedi cynyddu ein ffocws ar sicrhau bod yr arian rydym yn ei wario'n gwneud gwahaniaeth parhaus i fywydau'r bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus. Rydym yn flin iawn i'w weld e'n symud ymlaen.

Er gwaetha'r amgylchiadau heriol sy'n wynebu'r wlad, rwy'n parhau i gael fy nghalonogi gan waith cynifer o bobl ar draws y DU i wneud gwahaniaeth i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd, Cronfa Loteri Fawr

# Adran Un
## Ein perfformiad gweithredol



Carchar EM a STI y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr – £3,147,466 i weithio gyda chyn-garcharorion i atal aildroseddu

### Ynglŷn â'r adroddiad blynyddol hwn

Yn 2009 cyhoeddwyd y Farn fawr – ein fframwaith strategol hyd at 2015 a amlinellodd yr egwyddorion a fydd yn sail i'n hymagwedd at ariannu yn y DU. Bob blwyddyn cyhoeddwn gynllun corfforaethol sy'n pennu cyllideb, amcanion a thargedau penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gellir lawrlwytho'r cynllun corfforaethol o'n gwefan. Yr adroddiad blynyddol hwn yw ein adroddiad yn ôl ar ein cyflawniadau yn erbyn yr ymrwymiadau hynny.

Adnabu Cynllun Corfforaethol 2012/13 dri amcan corfforaethol i lunio ein blaenoriaethau a phennwyd deg dangosydd perfformiad allweddol i fesur llwyddiant. Mae ein perfformiad yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro yn erbyn ein targedau a gyhoeddwyd, ac adroddir amdano i'r Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.

### Y tri amcan corfforaethol yw:

**Effeithlonrwydd** – Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon.

**Canolbwyntio ar gwsmeriaid** – Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod yn darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Effeithiolrwydd** – Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.

Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddwyd cyfarwyddiadau polisi newydd i ni sy'n cwmpasu ein gwariant yn Lloegr, Ynys Manaw a DU gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gyfarwyddiadau polisi diwygiedig ar gyfer ein gwariant yng Nghymru.

Gellir lawrlwytho'r cynllun corfforaethol o'n gwefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

# Ein perfformiad gweithredol yn erbyn ein hamcanion corfforaethol

Dyma grynodeb byr o sut rydym wedi perfformio yn erbyn y tri amcan .

## Amcan corfforaethol un:
**Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon**

| | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|---|
| 1 | Mae'r SGCh yn derbyn o leiaf 80 y cant o'n hariannu. | Yn ystod 2012/13 dyfarnwyd 92.1 y cant o'n hariannu i'r SGCh yn erbyn y targed o 80 y cant. |
| 2 | Mae mwy nag 80 y cant o'r cyfanswm grant cytunedig ar gyfer 2012/13 wedi'i ymrwymo. | Yn ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2012/13 gwnaethom ymrwymo i ddyfarnu cyllideb grant gwerth cyfanswm o £770.0 miliwn. Gwerth gwirioneddol y dyfarniadau a wnaed yn ystod 2012/13 oedd £778.7 miliwn (3.1 y cant yn fwy na'r gyllideb wreiddiol). |
| 3 | Mae'r cyfanswm costau gweithredu (craidd a rheng flaen) yn llai na 7.1 y cant o incwm y Loteri. | Yn 2012/13, roedd ein costau gweithredu’n 6.2 y cant o incwm y Loteri (costau craidd o 4.8 y cant ).<br>Roedd y cyfanswm costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn yn £48.1 miliwn; gostyngiad o £0.9 miliwn o'i gymharu â 2011/12. |
| 4 | Mae'r costau gweithredu craidd yn llai na 5.2 y cant o incwm y Loteri. | |
| 5 | Mae gan y portffolio ariannu gost weithredu o lai na 5 y cant o'r gyllideb grantiau. | Mae costau gweithredu cynlluniedig ein rhaglenni'n seiliedig ar amcangyfrifon sy'n deillio o'n profiad o redeg rhaglenni cyffelyb. Ar gyfer 2012/13 roedd gan y portffolio ariannu gostau weithredu gynlluniedig o 3.4 y cant o'r gyllideb grantiau. |
| 6 | Erbyn diwedd y flwyddyn bydd y grantiau a delir i'r holl brosiectau rydym yn eu hariannu o fewn 20 y cant o'r cyfanswm taliadau rydym yn ei ragamcanu. | Gwnaed gwerth £677.3 miliwn o daliadau grantiau yn 2012/13; 7.8 y cant uwchben y rhagamcaniad gwreiddiol. |

## Amcan corfforaethol dau:

**Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod wedi darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.**

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| 1 Mae mwy na 77 y cant o gwsmeriaid yn hapus gyda'n gwasanaeth.<br><br>2 Dywed mwy na 36 y cant o gwsmeriaid eu bod yn derbyn gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog.<br><br>3 Mae mwy na 58 y cant o gwsmeriaid yn ystyried bod gwasanaeth y Gronfa Loteri Fawr yn well nag arianwyr eraill. | Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 cysylltwyd â mwy na 74,000 o bobl ledled y DU a ymholodd am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Darparwyd ymateb i bron 5,000 o gynigion amlinellol, aseswyd bron 25,000 o geisiadau llawn a darparwyd cefnogaeth i fwy na 29,500 o ddeiliaid grantiau presennol.<br><br>Eleni cwblhaodd Ipsos MORI fwy na 7,000 o gyfweliadau ar-lein gyda chwsmeriaid ar ein cyfer, gan gynnwys gydag: ymgeiswyr aflwyddiannus; ymgeiswyr llwyddiannus; y sawl sy'n aros am benderfyniad; ac ymholwyr cyn-ymgeisio. Ar sail y canlyniadau gallwn adrodd bod 81.4 y cant o'n cwsmeriaid yn fodlon a bod 38.5 y cant o'r rhain wedi graddio ein gwasanaeth yn ardderchog. Dyma welliant ar berfformiad y llynedd (76.7 y cant a 36.5 y cant yn ôl eu trefn). Adroddodd y canlyniadau hefyd fod mwy na 61.4 y cant o gwsmeriaid yn ystyried bod ein gwasanaeth yn well nag arianwyr eraill.<br><br>Pennir targedau mewnol ar gyfer ansawdd y gwasanaeth hefyd. Ymdriniwyd â 91.4 y cant o'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd yn unol â'r amserlenni a gyhoeddir yn yr arweiniad ymgeisio.<br><br>Yn ogystal â boddhad cyffredinol, rydym hefyd yn mesur boddhad o ran: agwedd staff; proffesiynoldeb ansawdd y gwasanaeth; amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth. |
| 4 Mae canran yr AS sy'n tybio bod y Gronfa Loteri Fawr yn effeithiol o leiaf 10 pwynt canrannol yn uwch nag unrhyw fudiadau eraill sy'n cael eu mesur yn yr un arolwg. | Adroddodd canlyniadau'r arolwg AS diweddaraf yn 2012/13 mai'r Gronfa Loteri Fawr sydd â'r perfformiad gorau o'r holl fudiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg. Atebodd 74 y cant o AS ein bod yn fudiad effeithiol; 15 pwynt canrannol uwchben y cymharydd agosaf. |




**Taste Tideswell, Swydd Derby – £432,334 i adeiladu ar draddodiad y pentref o gynhyrchu bwyd lleol o'r radd flaenaf**

---

5 **Mae mwy na 75 y cant o'r holl sylw yn y cyfryngau cenedlaethol yn ffafriol.**

Yn 2012/13 rhoddwyd sylw cenedlaethol cynyddol i fentrau'r Gronfa, gan arwain at 88 y cant o sylw ffafriol ar draws y cyfryngau cenedlaethol (86.5 y cant yn 2011/12).

Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd ymgyrch deledu'r Loteri Genedlaethol yn adlewyrchu rhaglen Arwyr yn Ôl 2 y Gronfa Loteri Fawr a'r cyn-filwr a ariannwyd, Jack Jennings.

---

6 **Bydd canlyniadau ein Harolwg SGCh yn cael eu defnyddio i bennu gwerth gwaelodlin y gellir pennu targedau'r dyfodol yn ei erbyn.**

Mae canlyniadau cynnar ein harolwg DU gyfan cyntaf o Fudd-ddeiliaid SGCh allweddol yn nodi y teimla 74 y cant o ymatebwyr ein bod yn effeithiol. Yn fwy penodol, teimla 73 y cant fod y Gronfa'n gorff gwneud grantiau effeithiol; cred 83 y cant y gallwn ddylanwadu ar eu sector i gyflawni newidiadau cadarnhaol; ac mae 80 y cant yn hoffi'r ffordd y mae'r Gronfa'n canolbwyntio ar gefnogi'r bobl fwyaf anghenus. Pan ofynnwyd iddynt ddewis un gair i ddisgrifio'r Gronfa, yr ansoddeiriau a ddewiswyd amlaf oedd: credadwy, cefnogol, profiadol, hygyrch, perthnasol, strategol a dibynadwy.

## Amcan corfforaethol tri:
**Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.**

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|---|
| 1 | Mae 90 y cant o raglenni grant yn cyflawni eu gradd effeithiolrwydd gytunedig. | Rydym yn gwerthuso ein rhaglenni i bennu eu heffeithiolrwydd, ac mae adrannau a ganlyn yr adroddiad hwn yn bwrw golwg manwl ar yr amcan corfforaethol allweddol hwn. Mae Adran dau yn rhoi manylion yr ariannu a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ac mae Adran tri yn adrodd ar effaith ein gwaith.<br><br>Adolygir rhaglenni yn erbyn y meini prawf a ganlyn:<br>• pa mor dda y cafodd y rhaglen ei rheoli<br>• tystiolaeth o wneud effaith, a<br>• thystiolaeth o ddysgu a rennir sydd o fudd i'r Gronfa Loteri Fawr a'r cymunedau a ariannwn.<br><br>Asesir pob dimensiwn yn erbyn graddfa pum pwynt i gyfrifo'r radd gyffredinol. Mae adolygydd cymheiriaid annibynnol yn ofynnol ar gyfer yr holl adolygiadau rhaglenni.<br><br>Eleni adolygwyd 44 rhaglen, a barnwyd bod 43 ohonynt (97.9 y cant) yn 'effeithiol'. Er gwaetha'r ffaith yr ystyrir nad oedd un raglen wedi cyflawni mesurau llwyddiant digonol i raddio eu hunain yn effeithiol, mae wedi adnabod camau gweithredu cadarn er newid, a rhagfynegir o hyd y bydd canlyniadau'r rhaglen yn cael eu cyflwyno. |

### Ychwanegedd
Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau a'u harferion ychwanegedd. Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig o'n hariannu. Defnyddiwn y diffiniad a ganlyn:

"Mae arian gan y Loteri'n wahanol i arian gan y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n disodli gwariant y Trysorlys, lle bo'n briodol mae'n ategu polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni eraill."

Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2012/13 yn cydweddu â'r diffiniad hwn o ychwanegedd.

Yn ogystal â'r diffiniad hwn rydym hefyd yn cymryd y ddarpariaeth a ganlyn ar ychwanegedd a amlinellir yn ein cyfarwyddiadau polisi i ystyriaeth :

"YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn wahanol iddynt."

# Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n polisïau a'n diwylliant. Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd yn darparu cefnogaeth ac anogaeth gref i wneud ein hegwyddorion cydraddoldeb yn rhan annatod o'n harferion a'r prosiectau a ariannwn.

## Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

Mae ein Strategaeth Gydraddoldeb 2010-13 yn amlinellu ein blaenoriaethau fel ariannwr ac fel cyflogwr a sut y bwriadwn eu cyflawni. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar wella ein gwybodaeth am y cymunedau sy'n hygyrchu ein hariannu ac yn ymgorffori arferion cydraddoldeb mewn prosiectau a ariennir. I gefnogi hyn rydym wedi datblygu gofynion monitro ac adnoddau cysylltiedig newydd ar gyfer ein cwsmeriaid. Rydym hefyd wedi gwneud ymdrech i sicrhau cymaint â phosib bod gofynion hygyrchedd ein cwsmeriaid yn cael eu hymgorffori yn nyluniad y systemau newydd.

## Cydraddoldeb yn ein hariannu

Mae monitro cydraddoldeb wedi cael ei gyflwyno i'r rhan fwyaf o'n rhaglenni grantiau. Gofynnir i ymgeiswyr a fydd eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig, oedran, rhyw, crefydd neu gred, anabledd neu dueddfryd rhywiol penodol ac, yng Ngogledd Iwerddon yn unig, cefndir cymunedol. Rydym yn cywain yr wybodaeth hon gan ein bod am wybod pwy sy'n elwa o'r prosiectau a ariannwn er mwyn i ni ddarganfod p'un a oes angen i ni roi mwy o gefnogaeth i rai ymgeiswyr, targedu ein hariannu neu newid sut rydym yn rhedeg ein rhaglenni.

I gael ei ystyried ar gyfer ariannu, dylai prosiect fod yn seiliedig ar dystiolaeth glir o angen; weithiau bydd hyn yn gwarantu ymyrraeth a dargedir sy'n canolbwyntio ar grŵp buddiolwyr neu sefyllfa benodol; mewn llawer o achosion, fodd bynnag, bydd yr angen yn torri ar draws ystod o bobl, ac mi fydd yn bwysig i brosiectau fod mor hygyrch a chynhwysol â phosib. Adlewyrchir hyn yn ein hystadegau ariannu, sy'n amlygu'r ffaith bod y mwyafrif helaeth o geisiadau a dderbyniwyd a'r dyfarniadau a wnaed yn ymwneud â phrosiectau sy'n anelu at greu buddion ar gyfer ystod helaeth o bobl.

Ar gyfer yr adroddiad hwn dadansoddwyd yr wybodaeth o 20,606 o geisiadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013. Eithriwyd grantiau a ddiddymwyd ac a drosglwyddwyd a'r rhai nad oedd ganddynt fuddiolwyr uniongyrchol. Roedd yr holl geisiadau hyn wedi derbyn penderfyniad ariannu yn ystod y flwyddyn. Gwnaed 12,189 o ddyfarniadau (gwerth cyfanswm o £725 miliwn) o'r gronfa geisiadau hon. Rhoddir y canlyniadau ar dudalennau 15 a 16.

Nodwn fod cyfradd lwyddiant y ceisiadau ar gyfer prosiect sydd o fudd pennaf i bobl o gymunedau Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du o'r DU yn parhau'n is na'r gyfradd ar gyfer prosiectau nad ydynt o fudd pennaf i unrhyw ethnigrwydd penodol. Rydym wedi'n hymrwymo i ymchwilio i'r rhesymau dros y canfyddiad hwn.

Mae'r amrywiad yn y cyfraddau llwyddiant ymgeisio ymysg prosiectau sydd o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol hefyd yn haeddu ymchwil bellach (er y cydnabyddwn y cyfraddau isel dan sylw).

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio [1] | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano [2] | | Swm a ddyfarnwyd (£000) a % o'r swm a ddyfarnwyd [3] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig penodol. Gallant ddewis hyd at dri chategori ac felly mae'r atebion hyn yn cynnwys cyfrif dwbl a thriphlyg.) | | | | | | | | |
| Gwyn DU | 2,122 | 10% | 1,210 | 57% | £89,360 | 8% | £53,298 | 9% |
| Gwyn arall | 660 | 3% | 382 | 58% | £26,850 | 2% | £13,893 | 2% |
| Grwpiau ethnig cymysg/lluosog | 969 | 5% | 490 | 51% | £28,758 | 3% | £16,982 | 3% |
| Asiaidd/Asiaidd DU | 1,025 | 5% | 544 | 53% | £57,102 | 5% | £29,970 | 5% |
| Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du o'r DU | 1,183 | 6% | 529 | 45% | £52,053 | 5% | £27,837 | 5% |
| Grŵp ethnig arall | 394 | 3% | 190 | 48% | £16,378 | 2% | £6,384 | 1% |
| Dim ethnigrwydd penodol | 16,428 | 81% | 10,003 | 61% | 827,860 | 75% | £468,092 | 76% |
| **Oedran** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp oedran ac felly gall yr atebion hyn gynnwys cyfrif lluosog.) | | | | | | | | |
| 0-24 | 8,932 | 43% | 5,265 | 59% | £557,041 | 46% | £302,562 | 44% |
| 25-64 | 4,194 | 20% | 2,451 | 58% | £404,086 | 33% | £218,368 | 32% |
| 65+ | 2,283 | 11% | 1,488 | 65% | £250,288 | 21% | £152,345 | 22% |
| Dim oedran penodol | 9,119 | 44% | 5,273 | 58% | £474,247 | 39% | £237,478 | 34% |
| **Rhyw** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o ryw benodol.) | | | | | | | | |
| Benyw | 1,206 | 6% | 696 | 58% | £77,048 | 7% | £40,730 | 7% |
| Gwryw | 397 | 2% | 213 | 54% | £16,270 | 2% | £9,797 | 2% |
| Dim rhyw benodol | 18,826 | 92% | 11,160 | 59% | £987,367 | 91% | £529,950 | 91% |

[1] Dangosir y gyfradd ymgeisio fel canran o'r ceisiadau a gyflenwodd y data

[2] Dangosir y swm y gofynnwyd amdano fel canran o'r ceisiadau a gyflenwodd y data

[3] Dangosir y swm a ddyfarnwyd fel canran o'r cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd i'r ceisiadau hynny a gyflenwodd y data

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio [1] | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd llwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano (£000) a % o'r swm y gofynnwyd amdano [2] | | Swm a ddyfarnwyd (£000) a % o'r swm a ddyfarnwyd [3] | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefndir cymunedol** (Gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio i raglenni sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon nodi i ba gymuned mae'r rhai sy'n elwa o'u prosiect yn perthyn iddi'n bennaf.) | | | | | | | | |
| Catholig yn bennaf | 319 | 21% | 180 | 56% | £13,775 | 13% | £5,363 | 9% |
| Protestannaidd yn bennaf | 484 | 32% | 269 | 56% | £14,578 | 14% | £5,647 | 10% |
| Y ddwy | 669 | 44% | 368 | 55% | £71,136 | 68% | £43,598 | 75% |
| Nid y naill na'r llall | 61 | 4% | 31 | 51% | £4,098 | 4% | £2,260 | 4% |
| **Crefydd neu gred** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol. Gallant ddewis mwy nag un crefydd neu gred ac felly gall yr atebion hyn gynnwys cyfrif lluosog.) | | | | | | | | |
| Dim crefydd | 5 | <1% | 3 | 60% | £1,458 | <1% | £1,293 | <1% |
| Cristnogaeth | 353 | 2% | 187 | 53% | £10,398 | <1% | £5,180 | <1% |
| Bwdhaeth | 4 | <1% | 1 | 25% | £222 | <1% | £9 | <1% |
| Hindŵaeth | 11 | <1% | 4 | 36% | £132 | <1% | £31 | <1% |
| Iddewiaeth | 123 | <1% | 57 | 46% | £2,434 | <1% | £805 | <1% |
| Moslemiaeth | 128 | <1% | 54 | 42% | £6,680 | <1% | £2,981 | <1% |
| Sikhiaeth | 8 | <1% | 3 | 38% | £408 | <1% | £29 | <1% |
| Crefydd arall | 24 | <1% | 10 | 42% | £1,175 | <1% | £72 | <1% |
| Dim crefydd benodol | 19,768 | 96% | 11,748 | 59% | £1,051,854 | 94% | £564,926 | 96% |
| **Anabledd** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl anabl.) | | | | | | | | |
| Anabl | 2,472 | 12% | 1,627 | 66% | £155,448 | 14% | £77,678 | 13% |
| Heb fod yn anabl | 17,508 | 88% | 10,163 | 58% | £934,582 | 86% | £515,271 | 87% |
| **Tueddfryd rhywiol** (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i lesbiaid, dynion hoyw neu bobl ddeurywiol.) | | | | | | | | |
| Lesbiaid/dynion hoyw/deurywiol | 136 | <1% | 84 | 62% | £8,388 | <1% | £3,957 | <1% |
| Heb fod yn berthnasol i lesbiaid/dynion hoyw/deurywiol | 19,656 | 99% | 11,586 | 59% | £1,042,008 | 99% | £555,240 | 99% |

[1] Dangosir y gyfradd ymgeisio fel canran o'r ceisiadau a gyflenwodd y data

[2] Dangosir y swm y gofynnwyd amdano fel canran o'r ceisiadau a gyflenwodd y data

[3] Dangosir y swm a ddyfarnwyd fel canran o'r cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd i'r ceisiadau hynny a gyflenwodd y data

## Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn aelod o raglen Eiriolwyr Amrywiaeth yr elusen Stonewall, sy'n rhan o'n hymrwymiad i gefnogi staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryw (LGBT). Yn 2012 fe'n graddiwyd yn 240 allan o 363 ac ar ddechrau 2013 gwnaethom gynyddu ein gradd 16 lle i 224 allan o 376 o fudiadau.

Dengys ystadegau gweithlu eleni y cafwyd cynnydd bach yng nghanran y staff ag anableddau i 4 y cant o 3 y cant ar ddiwedd y llynedd. Yn yr un modd mae cynnydd yn y ganran o fenywod mewn swyddi uwch a chynnydd bach yng nghanran y cyflogeion sy'n BME.

| Statws Anabledd | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Staff ag anableddau | 4.1% | 4% | 13% |
| Staff heb anableddau | 96% | 96% | 87% |

| Rhyw | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Benyw | 63% | 52% | 44% |
| Gwryw | 37% | 48% | 56% |

| Grŵp Ethnig | Cronfa Loteri Fawr | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| Asiaidd | 6.1% | 3.0% |
| Du | 3.0% | 1.4% |
| Tsieineaidd | 0.4% | 0.3% |
| Cymysg | 0.9% | 1.5% |
| Arall | 0.3% | 0.4% |
| Gwyn arall | 4.7% | 3.4% |
| **Cyfanswm Du a lleiafrifoedd ethnig (BME)** | **15.4%** | **10%** |
| Gwyn DU | 82.3% | 90% |
| Dim gwybodaeth | 1.9% | |
| Ddim eisiau datgan | 0.4% | |



Mae'r Gronfa wedi dyfarnu dros £4 miliwn i gefnogi prosiectau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys y ganolfan gweithgareddau awyr agored yma

## Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Gan fod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n holl waith parhawn i gyflwyno gofynion y dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Cyflwynwyd ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2012. Darparodd yr adroddiad ddiweddariad ar ein gwaith cydraddoldeb yng Nghronfa Loteri Fawr Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012.

Mae pumed adolygiad blynyddol Cynllun Gweithredu Anabledd 2007 - 2012 wedi'i gwblhau ac mae'r Gronfa wedi cyflawni'r holl amcanion a bennwyd.

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2012 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein Diweddariad Cydraddoldeb, a oedd yn cynnwys data ar anghydraddoldebau ac anfantais allweddol, ynghyd â dadansoddiad o'n data ariannu. Mae'r adborth a dderbyniwyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio sut rydym yn cyflwyno ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Parhawn i weithio ar ein dynodiad gyda Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Cyhoeddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg newydd ym mis Medi 2009. Mae'n amlinellu sut byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn y broses o ddyfarnu grantiau.

Mae gweithrediad y cynllun yn cael ei fonitro a'i drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r cynllun i gael ei adolygu yn 2013 yn unol â Mesur y Gymraeg newydd.

Yn ystod 2012 fe ymatebom i ymgynghoriad y Comisiynydd ar Safonau'r Gymraeg arfaethedig, a diweddarwyd ein harweiniad mewnol ar gefnogi prosiectau Cymraeg.

# Ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni a hyrwyddo datblygu cynaliadwy, o fewn ein mudiad ac o ganlyniad i effaith ein penderfyniadau ariannu.



**Derbyniodd Wastesavers, Casnewydd a Thorfaen, grant o £160,000 – un o lawer a ddyfarnwyd gan y Gronfa i hyrwyddo cynaladwyedd**

## Cynaladwyedd mewnol

Rydym am wella ein hôl troed carbon a pherfformiad amgylcheddol cyffredinol yn ogystal â chwrdd â'r targedau uchelgeisiol sy'n ofynnol fel rhan o fenter "Greening Government" y Llywodraeth.

I wneud y newidiadau hyn rydym wedi bod yn datblygu ein hymagwedd at gynaladwyedd mewnol. Rydym wedi comisiynu ymchwil i'n perfformiad amgylcheddol ein hunain ac adnabod nifer o fesurau i'w datblygu yn ystod 2013/14.

Rydym wedi ailsefydlu ein rhwydwaith o staff sy'n 'eiriolwyr gwyrdd' ar draws ein hystâd, y maent yn ymwneud â datblygu cynlluniau lleol ar gyfer pob swyddfa a fydd yn ein helpu i gymryd camau ymarferol i leihau'r defnydd o adnoddau, a chefnogi staff i wneud newidiadau ymddygiadol cadarnhaol yn y gwaith ac adref.

Rydym eisoes wedi rhoi newidiadau i'n swyddfeydd ar waith, sydd wedi lleihau'r defnydd o ynni. Rydym hefyd wedi parhau i geisio lleihau teithio ar fusnes.

Yn 2013 byddwn yn gwella ein cynaladwyedd amgylcheddol trwy:

- ddatblygu polisi ynni a chynllun gweithredu
- newid cyfarpar i gynyddu effeithlonrwydd
- gosod mesuryddion, pan fo'n briodol
- monitro ein defnydd o ynni i adnabod pa welliannau y gellir eu gwneud.

## Gwneud grantiau'n gynaliadwy


Rydym wedi'n hymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac i sicrhau fod y prosiectau a ariannwn yn gwenud yr un peth.  Yn ein deunyddiau ymgeisio rydym yn egluro sut y disgwyliwn i sefydliadau ystyried datblygiad cynaliadwy ac rydym wedi darparu adnodd gwe i'w cefnogi i gynnwys hyn yn eu prosiectau.


Rydym yn ymchwilio i ymagweddau at wneud grantiau mewn ffordd gynaliadwy ac yn edrych ar ffyrdd o ymgorffori hyn ar draws ein holl raglenni. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o fuddsoddiadau penodol sy'n ymdrin â materion amgylcheddol a chynaladwyedd.


| Allyriadau nwy tŷ gwydr | | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($tCO_2E$) | Cyfanswm crynswth ar gyfer Cwmpasau | 1,927 | 1,866 |
| | Cyfanswm net ar gyfer Cwmpasau 1 & 2 (llai gostyngiadau h.y. tariff gwyrdd) | 1,927 | 1,866 |
| | Allyriadau crynswth ar gyfer Cwmpas 3 (teithio Busnes) | 357 | 351 |
| | Allyriadau Cwmpas 3 eraill a fesurwyd | 0 | 0 |
| Defnydd ynni cysylltiedig (kWh) | Trydan: Anadnewyddadwy | 2,862,739 | 2,830,692 |
| | Trydan: Adnewyddadwy | 0 | 0 |
| | Nwy | 2,363,278 | 2,119,292 |
| | LPG | 0 | 0 |
| | Arall | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£'000 oedd) | Gwariant ar ynni | £510 | £567 |
| | Gwariant ar drwydded CRC (2010 ymlaen) | £0 | £0 |
| | Incwm CRC a daliadau ailgylchu | £0 | £0 |
| | Gwariant ar osod yn erbyn achrededig | £0 | £0 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | £1,174 | £1,033 |

| Gwastraff | | | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (t) | Cyfanswm gwastraff | | 132 | 120 |
| | Gwastraff peryglus | Cyfanswm | 0 | 0 |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | 47 | 26 |
| | | Ailddefnyddio/ailgylchu | 84 | 95 |
| | | Llosgi /ynni o wastraff | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£'000oedd) | Cyfanswm cost gwaredu | | 50 | 52 |
| | Gwastraff peryglus – Cyfanswm cost gwaredu | | 0 | 0 |
| | Gwastraff nad yw'n berglus – Cyfanswm Tirlenwi cost gwaredu | | 18 | 11 |
| | | Ailddefnyddio/ailgylchu | 32 | 41 |
| | | Llosgi /ynni o wastraff | 0 | 0 |

| Defnydd o adnoddau meidraidd/dŵr | | | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol ($m^3$) | Defnydd o Ddŵr | Cyflenwyd | 6,079 | 7,416 |
| Dangosyddion Ariannol (£'000oedd) | Costau Cyflenwi Dŵr | | £35 | £40 |




'Daw 'allyriadau Cwmpas 1' o gynhyrchu nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol, er enghraifft trwy losgi nwyon mewn boeleri, ac 'allyriadau Cwmpas 2' yw'r rhai sy'n rhan o ynni a brynir, megis trydan. Ar hyn o bryd ni allwn wahanu'r rhai gan fod sut gymaint yn cael ei brynu'n anuniongyrchol trwy ein landlordiaid, ond rydym yn gweithio i wella gwybodaeth yn y dyfodol.

Rydym bellach yn gweld effaith blwyddyn lawn gostwng lle mewn swyddfeydd a wnaed y llynedd ar ein defnydd o ynni, gyda gostyngiad pellach mewn lefelau allyriadau.

Gostyngodd 'allyriadau Cwmpas 3' o deithio busnes ychydig bach yn ystod y flwyddyn. Mae ein hallyriadau eisoes yn isel ond byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o'u gostwng ymhellach. Gostyngodd costau'n gymesur â hynny hefyd.

Mae'r tabl ar dudalen 20 yn dangos y gwastraff a gynhyrchwyd, a gostyngodd y ganran rydym yn ei chladdu mewn safleoedd tirlenwi yn ystod y flwyddyn.

Mae'n anodd i gasglu gwybodaeth gywir am y defnydd o ddŵr a chredwn fod y cynnydd a adroddir yn adlewyrchu'r anhawster hwn yn hytrach na chynnydd go iawn. Rydym yn gweithio gyda'n landlordiaid i wella'r wybodaeth sydd ar gael i ni. Mae ein Heiriolwyr Gwyrdd yn gweithio i annog gostyngiad yn y defnydd o ddŵr.

Lle nad oes gwybodaeth ar gael oherwydd amseru adroddiadau taliadau gwasanaeth gan rai landlordiaid rydym wedi defnyddio ffigurau o 2011/12 er mwyn creu darlun llawn o'n cynaladwyedd.

# Adran dau
## Ein rhaglenni grant



Yn ystod 2012/13 rydym wedi parhau i wneud dyfarniadau newydd a rheoli dyfarniadau a wnaed yn flaenorol.

### Maint y gweithgarwch

Mae'r tablau isod yn crynhoi niferoedd y ceisiadau llawn, dyfarniadau a wnaed a grantiau sy'n cael eu rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol ar raglenni a reolir gan y Gronfa Loteri Fawr. Nid yw hyn yn cynnwys ceisiadau i'n partneriaid dyfarnu a'n partneriaid cyflwyno dan gontract, a dyfarniadau a wnaed ganddynt.

**Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod 2012/13**

Nid yw rhai o'r ceisiadau hyn wedi'u cyflwyno i bwyllgor penderfyniadau eto.

| | Nifer o geisiadau | Swm y gofynnwyd amdano (£) |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 20,639 | £1,285,223,108 |
| Ariannwyd ar y cyd | 215 | £9,647,946 |
| Ariannu nad yw'n ymwneud â'r Loteri | 2,038 | £472,245,136 |
| Cyfanswm | 22,892 | £1,767,116,190 |

Gyda llawer o'n rhaglenni rydym yn defnyddio cam cynnig amlinellol i roi adborth cyflym sy'n nodi p'un a yw cais yn werth ei ddatblygu neu beidio, a sut y gellir ei ddatblygu.

Yn 2012/13 derbyniwyd bron 4,516 o gynigion cynnig amlinellol yn gofyn am £1.075 biliwn. O'r rhai y cwblhawyd asesiad cychwynnol arnynt, llwyddodd 47.5 y cant i gyrraedd cam dau.

**Dyfarniadau newydd yn ystod 2012/13**

Mae'r ffigurau hyn yn eithrio amrywiadau. Mae rhai o'r dyfarniadau hyn yn ymwneud â cheisiadau a dderbyniwyd mewn blynyddoedd cynharach.

Mae'r ffigurau'n cynnwys cynigion i ymgeiswyr nad yw'r contract wedi'i lofnodi eto, y cyfeirir atynt fel ymrwymiadau meddal yn nodyn 17 y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn mae dyfarniadau wedi'u gwneud ar raglenni penodol sy'n amodol ar y derbynnydd yn cyflawni rhwymedigaethau penodol. Yn yr achosion hyn mae cynigion mewn egwyddor a grantiau datblygu wedi'u gwneud, gyda swm llawn y grant yn amodol ar dderbyn cynllun prosiect a chytundeb partneriaeth gan y derbynnydd.

| | Nifer o Ddyfarniadau | Swm a Ddyfarnwyd (£) |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr (gan gynnwys prosiectau a ariennir ar y cyd) | 12,276 | £751,329,934 |
| Rhaglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri | 646 | £71,805,589 |
| Cyfanswm | 12,922 | £823,135,523 |


**Mae Jack Jennings yn un o'r 606 o gyn-filwyr a gofalwyr i dderbyn ariannu o dan Arwyr yn Ôl 2 eleni.**


Mae'r tabl isod yn dangos grantiau sy'n cael eu rheoli yn ystod 2012/13. Dyfarnwyd y grantiau hyn gan y Gronfa Loteri Fawr. Maent erbyn hyn yng ngham cyflwyno'r prosiectau ac yn derbyn taliadau grant.

**Grantiau sy'n cael eu rheoli ar 31 Mawrth 2013**

| | Nifer o ddyfarniadau | Taliadau i dderbynyddion grantiau |
|---|---|---|
| Rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr | 22,113 | £1,119,354,839 |
| Rhaglenni heb gael eu hariannu gan y Loteri | 779 | £30,169,065 |
| Cyfanswm | 22,892 | 1,149,523,094 |

## Ymrwymiad SGCh

Rydym wedi gwneud addewid i ymrwymo o leiaf 80 y cant o'n hariannu'n uniongyrchol i'r sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh). Eleni aeth 92 y cant o'r arian a ymrwymwyd i'r SGCh. Ariannodd yr 8 y cant sy'n weddill nifer o bartneriaethau cymunedol ehangach, gan greu buddion ar gyfer y SGCh a'r bobl a'r cymdogaethau y mae'n eu gwasanaethu.




Sector gwirfoddol a chymunedol

Arall (gan gynnwys cyn-filwyr)

Ysgolion (gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau ar ôl ysgol)

Llywodraeth leol gan gynnwys cynghorau plwyf a chymuned

Dyfarniadau newydd a wnaed yn 2012/13 (ac eithrio amrywiadau i ddyfarniadau presennol a dyfarniadau a wnaed gan ein partneriaid dyfarnu).



**Mae'r Gronfa'n rhedeg nifer o raglenni ar ran arianwyr eraill, gan gynnwys Cronfa Cymunedau'r Arfordir**

## Ffynonellau ariannu

Daw'r rhan fwyaf o'r ariannu a ddosbarthwn o werthu tocynnau'r Loteri Genedlaethol.

Yn ogystal ag arian Loteri, rhedwn raglenni nad ydynt wedi'u hariannu gan y Loteri, gan ddefnyddio pwerau a roddwyd i ni gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Mae'r pwerau hyn yn rhoi'r cwmpas i ni weithio gydag eraill a dosbarthu ariannu ar ran, neu ochr yn ochr â, mudiadau eraill. Mae manylion y rhaglenni ariannu hyn ar gael yn Adran dau.

Mae unrhyw arian a ryddheir gan y Gronfa Reclaim yn trosglwyddo i'r Gronfa Loteri Fawr i gael ei ddosbarthu. Derbyniodd y Gronfa Reclaim gymeradwyaeth gan FSA ym mis Mawrth 2011 a dechreuodd drosglwyddo arian i'r Gronfa Loteri Fawr.

Dosbarthwn yr arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a'r cyfarwyddiadau a roddir i ni gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Yn Lloegr fe'n cyfarwyddwyd i drosglwyddo'r holl arian i Big Society Capital, sydd wedi cael ei sefydlu fel cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol annibynnol. Yn 2012/13 trosglwyddwyd £41,360,000 i Big Society Trust.

Yng Ngogledd Iwerddon mae'r Adran Cyllid a Phersonél yn arwain ar bennu blaenoriaethau ar gyfer arian Cyfrifon Segur.

Yng Nghymru a'r Alban fe'n cyfarwyddir i gyflwyno'r ariannu yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y gweinyddiaethau datganoledig. Mae manylion y rhaglenni ariannu hyn ar gael ar dudalennau 38 a 50.

# Rhaglenni DU gyfan



Mae portffolio ariannu DU y Gronfa'n rhoi cyfle i ni fuddsoddi ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n rhoi cyfle i ni gynyddu lefel yr effaith sydd gennym ar lefel y DU, gan ddylanwadu ar bolisi. Mae'n ein helpu ni i gyflwyno'n well yn erbyn ein fframwaith strategol ac, yn ei dro, helpu'r bobl fwyaf anghenus i weld gwelliannau yn eu bywydau.

Ym mhob un o wledydd y DU, rydym yn cyflwyno arian sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion gwirioneddol a adnabyddir gan ein pwyllgorau gwlad datganoledig.

Mae gan Bwyllgor Ariannu'r DU, gyda'i ddyraniad ariannu a chylch gorchwyl ei hun, rôl sy'n unigryw ac yn gweddu i waith y pedwar pwyllgor gwlad.

Mae nifer o egwyddorion allweddol sy'n sail i bortffolio ariannu'r DU:

- Mae'n adeiladu ar arfer gorau'r pedair gwlad, gyda ffocws ar efelychu ac arloesedd.
- Mae'n cefnogi ymchwil a dysgu o gwmpas y buddsoddiadau a wnawn er mwyn i ni ddangos effaith a dylanwadu ar bolisi mewn perthynas â dylunio a chyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae ganddo ffocws hir dymor a strategol ar yr anghenion mwyaf aciwt, hirbarhaol a datblygol, ac yn annog ac yn cefnogi cymunedau, gan weithio'n aml gyda mudiadau cymunedol i ragweld a lliniaru'r anghenion a'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu.
- Mae'n ceisio creu ymdeimlad o berchnogaeth ymysg cyhoedd y prosiectau a ariannwn ac, yn ei dro, mwyafu effaith ein hariannu.

| Rhaglen ariannu | Nifer o ddyfarniadau | Gwerth y dyfarniadau | Ariannwr |
|---|---|---|---|
| Arwyr yn Ôl 2 | 222 | £449,250 | Cronfa Loteri Fawr |
| Cymunedau Rhyngwladol | 22 | £192,782 | Cronfa Loteri Fawr |
| Cymunedau Rhyngwladol Cam 2 | 31 | £14,222,680 | Cronfa Loteri Fawr |
| Secret Millions | 4 | £7,708,898 | Cronfa Loteri Fawr |
| Llinyn Dysgu - Inspiring Impact | 1 | £280,000 | Cronfa Loteri Fawr |
| Llinyn Dysgu - Alliance for Useful Information | 1 | £100,000 | Cronfa Loteri Fawr |
| Cymanfa Heddwch | 1 | £250,000 | Cronfa Loteri Fawr |
| Somewhereto | 1 | £7,000,000 | Cronfa Loteri Fawr |
| Ysbryd 2012 - Bydd Barod i Newid | 1 | £2,499,955 | Cronfa Loteri Fawr |
| Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 39 | £10,964,915 | Trysorlys EM |
| **Cyfanswm** | **323** | **£43,668,480** | |

Mae mwy o wybodaeth ar y Portffolio a'r rhaglenni ariannu DU ar gael o www.cronfaloterifawr.org.uk/welsh/uk-wide



**The Search Project, Newcastle upon Tyne – £340,395 ar gyfer gweithgareddau i bobl dros 50 oed**

Nid yw ein hariannu DU yn ymyrryd mewn meysydd y mae'n well i'w hariannu ar lefel gwlad.  Weithiau mae ymyrraeth yn angenrheidiol neu'n ddymunol ar lefel  y DU, er enghraifft pan fydd partner strategol yn gweithio ar draws y DU neu os ydym yn ariannu mudiadau anllywodraethol sy'n gweithio tramor. Ar adegau eraill mae'n ein galluogi i ymdrin â'r materion mwyaf ystyfnig ar y cyd gyda phartneriaid arbenigol sy'n gweithredu ar draws y DU, gan greu effaith y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gyflawni trwy ein portffolios gwlad.

Weithiau byddwn yn cynnwys y cyhoedd yng ngweithgareddau, dyluniad a phenderfyniadau ein hariannu.

Mae portffolio'r DU yn cynnwys tri maes ariannu cyffredinol: efelychu ac arloesedd, sy'n anelu at fynd i'r afael â materion y mae eu gwreiddiau'n ddwfn neu ymchwilio i fodelau ariannu newydd; partneriaethau a chynnwys y cyhoedd, sy'n cwmpasu ein rhaglenni ag elfen wyneb cyhoeddus, megis pleidleisio cyhoeddus;  a'r rhaglen ryngwladol, sy'n darparu ariannu i fudiadau'r DU yn cyflwyno prosiectau tramor.

Yn 2013 byddwn yn canolbwyntio ar: helpu cymunedau ac unigolion i ymdrin â'r materion a ddaw i'r amlwg gyda phoblogaeth sy'n heneiddio; pobl ifanc a'r amgylchedd;  a buddsoddi mewn ymchwil a dysgu i gefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol a materion sy'n effeithio ar y sector.

# Edrych yn ôl ar y portffolio ariannu DU yn 2012/13

Trwy gydol 2012/13 rydym wedi parhau i redeg rhaglenni ar draws y DU a wnaeth wahaniaeth i gymunedau ac unigolion.

## Uchafbwyntiau portffolio ariannu'r DU

Wrth lansio cais am farn yn 2011, gofynnodd Channel 4 a'r Gronfa Loteri Fawr i bobl sut y byddent yn gwario gwerth £10 miliwn o arian Loteri. Helpodd y canlyniadau i ni adnabod pum elusen a oedd wedi dyfeisio prosiectau cyffrous ac arloesol. Arweiniodd hynny at The Secret Millions. Yn cael ei darlledu ar Channel 4 dros bum wythnos, dilynodd pob pennod berson enwog yn gweithio gydag elusen i roi cynnig ar syniad uchelgeisiol i ddelio â phroblem gymdeithasol fawr. Yn y cefndir roeddem yn asesu'r prosiect ac yn helpu i wireddu'r syniadau hyn gydag arian Loteri.

Un o'r prosiectau i gael ei ariannu yw'r Foyer Federation, sy'n treialu siop swyddi 'wib', a ddylunnir ac a redir gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc. Derbyniodd Foyer Federation £2 filiwn trwy The Secret Millions i sefydlu eu prosiect yn Llundain, De Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae'r **Cinio Mawr** yn rhoi cyfle i gymunedau ar draws y DU ddod ynghyd i gwrdd â'u cymdogion. Yn 2012 roedd y Cinio Mawr yn rhan o raglen ddigwyddiadau Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines, gyda phobl o bob cwr o'r DU yn cymryd rhan yng Nghinio Mawr y Jiwbilî. Wedi'i redeg gan brosiect Eden, gwelodd Cinio Mawr y Jiwbilî 8.5 miliwn o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau, o bartis stryd i blannu gardd gymunedol.



**Yn 2012 rhannodd nifer ysgubol o bobl, 8.5 miliwn, Cinio Mawr gyda'i gilydd gan ddathlu undod, bod yn gymdogion da a Jiwbilî'r Frenhines**

Yn dilyn llwyddiant athletwyr Prydain yng Ngemau Olympaidd 2012, gwnaethom gyhoeddi Ymddiriedolaeth Olympaidd sydd â'r nod o sicrhau etifeddiaeth hirbarhaol yn sgil gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Bydd **Ymddiriedolaeth Ysbryd 2012** yn derbyn £30-40 miliwn o'r ariannu a dderbyniwn yn sgil gwerthu'r Pentref Olympaidd.



Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwirfoddoli, yn annog cymunedau i adeiladu ar y gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd, yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r problemau y mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu ac yn cefnogi'r ymgysylltu hwn er mwyn adeiladu etifeddiaeth hir dymor trwy ddenu ariannu o ffynonellau eraill.

Mae **Cronfa Cymunedau'r Arfordir** yn annog datblygiad economaidd cymunedau arfordirol y DU trwy ddarparu ariannu er mwyn iddynt greu twf a swyddi economaidd cynaliadwy. Rydym yn cyflwyno'r ariannu ar ran y llywodraeth gydag arian a'i gynhyrchwyd o asedau morol Ystâd y Goron. Ariannwyd 39 o brosiectau yn 2012/13.

> **Mae'r Cinio Mawr yn rhoi cyfle i gymunedau ar draws y DU ddod ynghyd i gwrdd â'u cymdogion**



## Effaith portffolio ariannu'r DU

Yn ogystal â lansio mentrau newydd yn 2012/13 parhaodd portffolio ariannu'r DU i wneud dyfarniadau trwy raglenni yr oeddent eisoes ar waith.

Yn 2008 dyfarnwyd £50 miliwn i **Connect 2**, a reolir gan yr elusen feicio Sustrans trwy ein rhaglen Living Landmarks ar ôl llwyddo i ennill pleidlais gyhoeddus. Mae'r prosiect yn cysylltu cymunedau ar draws y DU i rwydwaith beicio cenedlaethol. Pum mlynedd wedyn, mae'r buddsoddiad hwn wedi creu dros 80 o rwydweithiau cerdded a beicio, gan drawsnewid teithio bob dydd ar gyfer miliynau o bobl. Mae wedi darparu mynediad ar gyfer cannoedd ar filoedd o bob i deithio i gyrchfannau bob dydd, megis cyrraedd yr ysgol. Mae Sustrans yn cyfrifo bod mwy na 1,800 o swyddi wedi cael eu creu o ganlyniad i'r prosiect hwn.

Mae'r rhaglen **Dyfodol Gwell**, a lansiwyd ym mis Mawrth 2011, yn darparu hyd at £26 miliwn i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n byw mewn teuluoedd ag anghenion lluosog a chymhleth. Mae 26 o brosiectau wedi'u hariannu ar draws y DU. Ym mis Chwefror 2013, paratôdd Ecorys adroddiad gwerthuso interim cyntaf y rhaglen, a ddaeth i'r casgliad y ceir tystiolaeth ddatblygol o gyflawniadau mewn perthynas â gwell canlyniadau ar gyfer plant, megis gwelliannau mewn cyfathrebu teuluol, presenoldeb ysgol ac ymddygiad.



Mae Sustrans yn defnyddio grant mwyaf erioed y Gronfa (£50 miliwn) i greu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio

**Mae gan y rhaglen Ryngwladol gyllideb o £80 miliwn i gefnogi pobl mewn rhai o leoedd tlotaf y byd.**

Mae gan y rhaglen **Ryngwladol** gyllideb o £80 miliwn i gefnogi pobl mewn rhai o leoedd tlotaf y byd. Dengys tystiolaeth o'r gwerthusiad diweddaraf o'n hariannu Rhyngwladol fod y rhaglen yn gwneud gwahaniaeth sylweddol trwy ei buddsoddiadau. Er enghraifft, amcangyfrifir bod 47,500 o unigolion/aelwydydd wedi gwella'u bywoliaethau o ganlyniad i 26 o brosiectau wedi'u cwblhau ac mae tua 30,000 o unigolion/aelwydydd wedi elwa o ddeg prosiect a wellodd fynediad i ddŵr a glanweithdra diogel neu ddefnydd mwy cynaliadwy o dir. Rydym wedi bod wrthi'n cynnal adolygiad o'r rhaglen Ryngwladol i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol i'r amgylchedd datblygu rhyngwladol.

Trwy **Pentref SOS**, mae grantiau gwerth rhwng £10,000 a £50,000 wedi'u dyfarnu i helpu cymunedau gwledig o lai na 3,000 o bobl i ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiectau mentrus a fydd yn diwallu angen lleol neu'n gwella gwasanaethau ar gyfer pobl leol.

Derbyniodd pentref Cloughmills £29,000 i'w helpu i sefydlu micro-fragdy cyntaf Gogledd Iwerddon a rhedeg gweithgareddau traddodiadol megis gwehyddu a thorri pren. Mae'r pentref yn gobeithio bod yn atyniad i dwristiaid er mwyn i bobl ddod o bedwar ban y byd i brofi traddodiadau a diwylliant yr ardal.

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn gweithio'n strategol ag eraill pan fydd modd i ni gefnogi nodau mentrau sy'n gweddu i'n cenhadaeth, trwy bartneriaethau'n hytrach nag ariannu. Mae **Go ON UK** yn dod â'r Gronfa Loteri Fawr ynghyd gydag Age UK, y BBC, E.ON, Grŵp Bancio Lloyds, Swyddfa'r Post a TalkTalk yn y bartneriaeth Go ON UK i ddod â buddion y rhyngrwyd i bob unigolyn a phob mudiad ym mhob cymuned ar draws y DU.

Ym mis Rhagfyr 2012 cyhoeddodd Go ON UK adroddiad a ddatgelodd fod tua 16 miliwn o bobl yn y DU nad oes ganddynt y sgiliau ar-lein sylfaenol i fanteisio'n llawn ar y rhyngrwyd. Byddwn yn gweithio gyda Go ON UK trwy gydol 2013 i helpu i newid hyn.

# Portffolio Lloegr



Mae ein portffolio yn Lloegr wedi datblygu naratif clir, gan amlinellu ein hymateb i newidiadau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol yn Lloegr.

Y sylfaen i'n hariannu yn Lloegr yw ethos People Powered Change, sy'n anelu at helpu pobl i benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion eu hunain, trwy roi mwy o ddewisiadau a chyfleoedd i bobl, ynghyd â'r hyder i ymateb i'r problemau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau.

Nod ein hariannu yw bod mwy o bobl, yn enwedig y rhai mwyaf anghenus, yn **byw bywydau llawn**, mewn **lleoedd llewyrchus**, fel rhan o **gymunedau llwyddiannus**.

Mae portffolio Lloegr yn anelu at gyflwyno gwir effaith trwy gyflwyno rhaglenni a mentrau sy'n dod o dan dri phrif faes: ymateb i alw, ymyraethau strategol a buddsoddiadau hyblyg.

- Mae'r mentrau sy'n **ymateb i alw**, Arian i Bawb a Reaching Communities, yn parhau i wneud dyfarniadau, gan gefnogi pobl a chymunedau i adnabod y materion sydd o bwys iddynt
- Mae ein cynnig ymateb i alw wedi'i ategu gan ddatblygu a chyflwyno **ymyraethau strategol** hir dymor er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n niweidio pobl, cymdeithas a'r economi
- Mae **buddsoddiadau hyblyg** yn ein galluogi i gyflwyno ymyraethau wedi'u targedu trwy ystod o ymagweddau gan gynnwys ymddiriedolaethau (megis yr Ymddiriedolaeth Big Local) a modelau buddsoddi cymdeithasol.





**Hipswell Habitat, Richmond, Swydd Efrog – £198,968 ar gyfer ardal chwarae naturiol i blant**

Ar draws pob un o'r tair prif ymagwedd hon, rydym yn defnyddio ein gwybodaeth a'n rhwydweithiau i dargedu ein hadnoddau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf: ymchwilio i sut y gallwn gydweithio'n gynyddol ag arianwyr eraill, gan ymgysylltu'n gynyddol â'r sector preifat, a chefnogi datblygu buddsoddiad cymdeithasol.

Mae Pwyllgor Lloegr yn adolygu tystiolaeth allweddol o dueddiadau angen bob blwyddyn ac wedi blaenoriaethu nifer cyfyngedig o themâu strategol pan fydd cyfle i'n hariannu gael effaith sylweddol a mesuradwy ar angen, polisïau ac arfer.

Y pedair ymyrraeth strategol a gyhoeddwyd yn 2012/13 yw: helpu babanod a phlant ifanc iawn o'r ardaloedd mwyaf bregus; cynorthwyo'r bobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad swyddi; helpu oedolion sydd ag anghenion cymhleth; a phobl hŷn sy'n unig neu mewn perygl o unigedd.

Wrth ddatblygu ein buddsoddiadau rydym wedi gweithio gyda mudiadau ac unigolion sydd â gwybodaeth a phrofiad yn y meysydd hyn. Yn ystod datblygiad ein buddsoddiad pobl hŷn gwnaethom weithio gyda grŵp o bobl hŷn a oedd yn gallu cyfrannu eu gwybodaeth a'u profiad i helpu i ffurfio ein buddsoddiadau.

Rydym eisiau mwyafu gwerth ein hariannu trwy ein cronfa Building Capabilities hefyd. Mae'r ariannu hwn yn anelu at gynyddu sgiliau a hyder a datblygu ffactorau eraill sy'n galluogi pobl, cymunedau neu fudiadau i gymryd camau sy'n diwallu anghenion.

Rydym yn parhau i weithio gyda chymunedau ar draws Lloegr i sicrhau bod ein hariannu'n cefnogi'r bobl fwyaf anghenus. Yn 2013 byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn buddsoddiadau strategol a hyblyg a'r rhai sy'n ymateb i alw.

## Ariannu o bortffolio Lloegr

| Rhaglen/Thema | Nifer o ddyfarniadau | Gwerth y dyfarniadau | Ariannwr |
|---|---|---|---|
| **Ymateb i alw** | | | |
| Arian i Bawb Lloegr | 6,698 | £55,270,477 | Cronfa Loteri Fawr |
| Reaching Communities | 648 | £156,777,694 | Cronfa Loteri Fawr |
| Reaching Communities Buildings | 56 | £10,363,568 | Cronfa Loteri Fawr |
| **Cyfanswm** | **7,402** | **£222,411,739** | |
| **Ymyraethau strategol** | | | |
| Anghenion Lluosog a Chymhleth * | 24 | £92,291,832 | Cronfa Loteri Fawr |
| Talent Match * | 42 | £101,688,254 | Cronfa Loteri Fawr |
| Communities Living Sustainably | 12 | £11,567,207 | Cronfa Loteri Fawr |
| Improving Financial Confidence | | | |
| Y Gronfa Silver Dreams | 37 | £31,662,614 | Cronfa Loteri Fawr |
| Parks for People | 37 | £6,023,582 | Cronfa Loteri Fawr |
| | 22 | £6,772,309 | Cronfa Loteri Fawr |
| **Cyfanswm** | **174** | **£250,005,798** | |
| **Buddsoddiadau hyblyg** | | | |
| Next Steps | 9 | £2,422,857 | Cronfa Loteri Fawr |
| Dyfarniadau Unigol | 5 | £16,554,240 | Cronfa Loteri Fawr |
| Building Capabilities | 1 | £4,817,828 | |
| **Cyfanswm** | **15** | **£23,794,925** | |
| **Ariannu trydydd parti** | | | |
| Advice Services Fund | 5 | £288,248 | Swyddfa'r Cabinet |
| Social Incubator Fund | 4 | £4,902,208 | Swyddfa'r Cabinet |
| **Cyfanswm** | **9** | **£5,190,456** | |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **7,600** | **£501,402,918** | |

* Mae'r dyfarniadau ar gyfer y rhaglenni hyn yn gynigion mewn egwyddor sy'n amodol ar y derbynnydd yn cyflawni rhwymedigaethau penodol. Mae grantiau datblygu wedi'u dyfarnu i gynorthwyo'r broses hon.

D.S Nid yw Big Local wedi'i restru uchod. Rydym wedi rhoi £17.48m yn fwy i'r Ymddiriedolaeth Leol, sy'n rhedeg y rhaglen grantiau. Adlewyrchir hyn yn Adran chwech yr adroddiad hwn.

Mae mwy o wybodaeth am bortffolio a rhaglenni ariannu Lloegr ar gael o www.biglotteryfund.org.uk/welsh/england

# Edrych yn ôl ar bortffolio ariannu Lloegr 2012/13

**Uchafbwyntiau o bortffolio ariannu Lloegr:**

Cyhoeddwyd 50 ardal **Big Local** pellach ym mis Rhagfyr 2012, gan ymuno â'r 100 o ardaloedd a oedd eisoes yn bodoli, lle gall trigolion hygyrchu o leiaf £1 miliwn i wneud gwahaniaeth enfawr a pharhaol i'w cymunedau.

Trwy'r rhaglen, a redir gan yr Ymddiriedolaeth Leol, mae cymunedau'n dod o hyd i amrywiaeth o ffyrdd i gydweithio ar gynlluniau hir dymor ar gyfer eu hardal, o weithdai 'My Beautiful Street' a chwarae rôl 'cymydog negyddol' i ffilmiau lleol a phrosiectau ymchwil mewn prifysgolion. Mae rhai mentrau eisoes ar waith, megis busnes golchdy newydd mewn eglwys, mewn cymuned lle mae gan ychydig iawn o bobl eu peiriant golchi eu hunain.

Gwelodd mis Mawrth lansiad dwy fenter newydd yn Lloegr a fydd yn gwella bywydau pobl hŷn fregus trwy leihau unigedd, eu helpu i ddelio'n well gyda newid a chynyddu eu hyder ar gyfer y dyfodol. Gan adeiladu ar y **Gronfa Silver Dreams**, mae'r buddsoddiad gwerth £120 miliwn yn cynnwys creu Canolfan Heneiddio'n Well annibynnol a phecyn ariannu gwerth £70 miliwn ar gyfer y rhaglen **Fulfilling Lives: Ageing Better**.

Cyhoeddwyd y deg o bartneriaethau traws-sector a fydd yn derbyn cyfran o'r buddsoddiad **Fulfilling Lives: Multiple and Complex Needs** gwerth £100 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth. Mae'r fenter yn dod â mudiadau a chyrff ynghyd sy'n anelu at wella sefydlogrwydd, hyder a galluoedd unigolion a'u helpu i fyw bywydau gwell er mwyn iddynt dreulio llai o amser yn y carchar, lleihau cam-drin cyffuriau, bod â llety sefydlog a meddu ar iechyd meddwl gwell.

Bydd y dysgu o'r buddsoddiad wyth mlynedd yn cael ei ddefnyddio i wella arfer ymysg y prosiectau y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hariannu er mwyn dylanwadu ar bolisïau ac arfer yn y dyfodol ac annog parhau ag ymyraethau llwyddiannus.

Yn adeiladu ar lwyddiant ein rhaglenni blaenorol ar gyfer y sector nid-er-elw a'r **Advice Services Fund** a gyflwynwyd gennym ar ran Swyddfa'r Cabinet, gwnaethom barhau i gefnogi prosiectau ar draws Lloegr sy'n cynnig gwasanaethau cyngor am ddim i bobl yn eu cymunedau. Rydym yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet (y Swyddfa Cymdeithas Sifil) i ddatblygu a chyflwyno'r **Advice Services Transition Fund** a fydd yn darparu dros £67 miliwn i'r sector hollbwysig hwn.

Mae'r **Social Incubator Fund** yn cefnogi mentrau cymdeithasol i gychwyn yn y farchnad menter gymdeithasol trwy gynyddu ffocws ar gefnogi deor, a denu deoryddion newydd i'r farchnad. Rydym yn rheoli'r ariannu hwn ar ran Swyddfa'r Cabinet (Swyddfa Cymdeithas Sifil). Yn 2012/13 gwnaethom gefnogi pedwar o brosiectau ar draws Lloegr.

## Effaith portffolio ariannu Lloegr

Ym mis Awst dyfarnodd **Improving Financial Confidence** grantiau rhwng £500,000 a £1,000,000 i 37 o brosiectau sydd wedi'u dylunio i alluogi trigolion tai cymdeithasol i fod yn fwy medrus wrth reoli arian.

Dyfarnwyd £988,756 i Gyngor ar Bopeth Cofentri i agor fflat SORTED arloesol ym mis Mawrth, efelychiad o fflat lle bydd hyfforddwyr a gwirfoddolwyr yn cyflwyno sesiynau un i un a grŵp ar bynciau gan gynnwys cyllidebu a bancio, deall y system fudd-daliadau, hawliau a rhwymedigaethau tenantiaid, sut i wresogi'r cartref a bwyta'n iach am bris bach.

Roedd National Centre for Young People with Epilepsy Charitable Trust yn un o'r 648 o fudiadau a dderbyniodd dyfarniadau **Reaching Communities**. Dyfarnwyd £237,070 iddynt ar gyfer prosiect tair blynedd (gan gynnwys £73,475 gan y fenter Supporting Change and Impact) ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r prosiect Epilepsy Education for schools, i addysgu disgyblion ac athrawon i ddeall yr heriau sy'n gysylltiedig ag epilepsi – er mwyn lleihau gofid, stigma ac unigedd – eisoes wedi cyrraedd dros 17,000 o blant a gwella bywydau dros 1,000 o blant sy'n byw gyda'r cyflwr.

**Gyda grant o £940,000 i London Youth, mae Volunteer it Yourself yn dod â phobl ifanc a chrefftwyr profiadol o siopau Wickes lleol ynghyd i atgyweirio clybiau ieuenctid a dysgu sgiliau adeiladu**





Mae **Arian i Bawb** wedi gwneud 6,698 o ddyfarniadau yn ystod y flwyddyn, gan gefnogi prosiectau sy'n adeiladu cymunedau cryfach, yn gwella amgylcheddau gwledig a threfol ac yn creu pobl sy'n fwy iach ac yn fwy actif.

Derbyniodd Pennine Lancashire Community Farm grant o £9,131 ar gyfer adnewyddu dwy gaban yn eu gerddi cymunedol. Erbyn hyn gall teuluoedd lleol, camddefnyddwyr sylweddau, pobl ag anableddau dysgu, pobl â phroblemau iechyd meddwl, troseddwyr ifanc a phobl ddi-waith ddefnyddio'r gerddi bob wythnos beth bynnag yw'r tywydd.

Mae grantiau wedi cefnogi pob math o brosiect, o grwpiau canu therapiwtig ar gyfer pobl â dementia a sesiynau paffio amatur i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc i ap symudol i helpu pobl i gadw at gyllideb a gwersi hunanamddiffyn ar gyfer menywod bregus.

Derbyniodd Bristol Together ddyfarniad trwy **Next Steps**, menter gwerth £6 miliwn sy'n dyfarnu rhwng £40,000 ac £1 miliwn i gynigion buddsoddi cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli y mae angen hwb ariannol arnynt i'w helpu i sefydlu eu hunain. Sefydlwyd Bristol Together i greu hyfforddiant swyddi a sgiliau ar gyfer cyn-droseddwyr, pobl ddigartref a phobl ddi-waith hir dymor trwy brynu ac atgyweirio chwe eiddo a'u rhoi ar osod, gan greu 40 o swyddi. Dim ond un o'r cyn-droseddwyr ar y prosiect sydd wedi aildroseddu, ar ffurf mân doriad yr amodau prawf.

**“Sefydlwyd Bristol Together i greu swyddi a hyfforddiant sgiliau ar gyfer cyn-droseddwyr, pobl ddigartref a phobl ddi-waith hir dymor trwy brynu ac atgyweirio chwe eiddo a'u rhoi ar osod, gan greu 40 o swyddi”**

Mae'r Gronfa wedi ffurfio partneriaeth gydag Institute for Government o'r enw Connecting Policy with Practice: People Powered Change, gyda'r nod o ddod â gwneuthurwyr polisi Whitehall ac ymarferwyr y sector gwirfoddol ynghyd i edrych ar faterion gwasanaethau cyhoeddus o'r newydd.

Gan ddefnyddio tystiolaeth o fuddsoddiadau'r Gronfa mewn cefnogi oedolion sydd ag anghenion lluosog a chymhleth; a helpu pobl ifanc i gael mynediad i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, mae'r rhaglen yn anelu at egluro gwersi trawsdoriadol ynglŷn â sut y dylid dylunio a chyflwyno rhaglenni i wneud gwelliannau hir dymor i'r cyfryw problemau polisi cymdeithasol ystyfnig.
Bydd y rhaglen yn adrodd tua diwedd 2013.

# Portffolio Yr Alban



Mae ein portffolio yn Yr Alban yn cefnogi mudiadau sy'n cael effaith ar bobl, teuluoedd a chymunedau ar draws Yr Alban. Rydym yn croesawu ymagweddau sydd wedi profi eu gwerth, mentrau uchelgeisiol ac atebion ar raddfa fawr a graddfa fach.

Ein strategaeth yw cyflwyno portffolio integredig o ariannu o'r enw Investing in Communities i gefnogi'r bobl, y teuluoedd a'r cymunedau mwyaf anghenus. Yn cydweddu â hyn mae cyfres o raglenni grantiau bach sy'n anelu at gefnogi sector cymunedol llawr gwlad bywiog.

Mae ein prif raglen grantiau, Investing in Communities, yn ariannu prosiectau unigol hyd at £1 miliwn ac eleni mae wedi gwneud dyfarniadau gwerth £53 miliwn sy'n canolbwyntio ar:

- Supporting 21st Century Life: adeiladu teuluoedd cryfach a chymunedau cryfach.
- Life Transitions: cefnogi unigolion ar adegau allweddol o newid yn eu bywydau.
- Growing Community Assets: galluogi cymunedau i fod â mwy o reolaeth a dylanwad dros eu dyfodol eu hunain drwy berchen ar asedau.
- Community Spaces Scotland: helpu cymunedau i gymryd cyfrifoldeb dros eu hamgylchedd lleol a'u mannau cymunedol eu hunain.

Gwyddwn hefyd fod symiau bach o arian yn gwneud gwahaniaeth mawr ac eleni gwnaed 2,300 o grantiau bach gwerth mwy na £12 miliwn i:

- gefnogi prosiectau cymunedol, chwaraeon a chelf (yn gweithio mewn partneriaeth â sportscotland a Creative Scotland) trwy Arian i Bawb
- helpu i greu etifeddiaeth o boblogaeth sy'n fwy actif yn gorfforol yn sgil Gemau'r Gymanwlad trwy wneud grantiau bach i glybiau a grwpiau trwy 2014 Communities.
- profi a datblygu syniadau a allai fynd yn brosiectau cyflawn trwy Investing in Ideas.

Yn 2012/13 gwnaethom weithio ochr yn ochr ag eraill i gyflwyno ariannu. Gwnaethom ddosbarthu adnoddau Llywodraeth Yr Alban ochr yn ochr ag arian Loteri i helpu rhoi'r dechrau gorau posib i blant trwy gynorthwyo gofal plant lleol a gwasanaethau cefnogi teuluoedd trwy'r Communities and Families Fund. Gwnaethom gyflwyno ariannu o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur trwy Young Start i helpu plant a phobl ifanc i fynd yn fwy hyderus, iach, cysylltiedig a mentrus.



Positive Futures, Caeredin – £139,402 i redeg gweithgareddau ar gyfer pobl dros 50 oed

Dyfarnodd y rhaglen £7.48 miliwn i 174 o brosiectau, gan greu cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc wireddu eu potensial.

Dechreuom gyflwyno Cronfa Scottish Land newydd ar ran Llywodraeth Yr Alban ac mewn partneriaeth â menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd i rymuso cymunedau trwy eu helpu i gaffael tir. Eleni gwnaethom ymgymryd â gwaith ar ran Llywodraeth Yr Alban i helpu adeiladu gallu mudiadau i arloesi ac ymyrryd yn gynharach gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd trwy Gronfa Ymyrraeth Gynnar y Trydydd Sector.

**“Dechreuom gyflwyno Cronfa Scottish Land newydd ar ran Llywodraeth Yr Alban ac mewn partneriaeth â menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd i rymuso cymunedau trwy eu helpu i gaffael tir.”**

## Ariannu o Bortffolio Yr Alban

| Enw'r rhaglen | Nifer o ddyfarniadau | Gwerth y dyfarniadau | Ariannwr |
|---|---|---|---|
| 2014 Communities | 811 | £1,378,851 | Cronfa Loteri Fawr |
| Arian i Bawb | 1,369 | £10,030,957 | Cronfa Loteri Fawr |
| Investing in Communities 2 | 197 | £53,637,198 | Cronfa Loteri Fawr |
| Investing in Ideas 2 | 137 | £1,214,425 | Cronfa Loteri Fawr |
| Our Place | 9 | £7,415,000 | Cronfa Loteri Fawr |
| 2014 Legacy | 1 | £103,040 | Cronfa Loteri Fawr |
| Ymddiriedolaeth Life Changes | 1 | £49,061,106 | Cronfa Loteri Fawr |
| Arian i Bawb | 74 | £498,360 | Creative Scotland |
| Cyfrifon Segur (Young Start) | 174 | £7,480,900 | Cyfrifon Segur |
| Communities and Families Fund | Cydariannu Cyfanswm 150 | £1,210,814 | Llywodraeth Yr Alban |
| Scottish Land Fund | 4 | £788,577 | Llywodraeth Yr Alban |
| Arian i Bawb | 195 | £1,000,000 | SportScotland |
| **Cyfanswm** | **3,122** | **£133,819,228** | |

Mae mwy o wybodaeth am bortffolio a rhaglenni ariannu Yr Alban ar gael o www.biglotteryfund.org.uk/welsh/scotland



# Edrych yn ôl ar bortffolio ariannu Yr Alban 2012/13



**Prosiect Shirlie - £438,572 i helpu oedolion ag anghenion cefnogaeth i ddod o hyd i gyflogaeth**

## Uchafbwyntiau o bortffolio ariannu Yr Alban

Cyrhaeddwyd carreg filltir fawr eleni wrth i ni gwblhau sefydlu ymddiriedolaeth newydd yn Yr Alban a'i gwaddoli gyda £50 miliwn i'w wario dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r **Ymddiriedolaeth Life Changes**, ymddiriedolaeth newydd ac annibynnol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl â dementia a'u gofalwyr, yn anelu at gyflawni effaith a dylanwad sylweddol o gwmpas yr heriau hyn sy'n wynebu cymdeithas Yr Alban heddiw.

Gwnaethom ffocysu arian sylweddol hefyd ar helpu teuluoedd rhiant sengl gyda'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu wrth hygyrchu'r farchnad swyddi ac ym mis Mawrth 2013 fe wnaethom ddyfarniadau gwerth £7 miliwn i bum partneriaeth i'w cefnogi'n well. Cyhoeddwyd dyfarniad o £2 miliwn ym mis Rhagfyr 2012 i bartneriaeth a fydd yn cefnogi ac yn integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn well o fewn cymunedau. Ym mis Mai 2012 lansiwyd galwad am syniadau newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn tâl a dyrchafiad y mae pobl yn eu profi yn y gwaith.

Eleni gwelwyd newidiadau a heriau parhaus ym mywyd cymdeithasol ac economaidd Yr Alban, a gwnaethom weithio i helpu pobl, cymunedau ac yn benodol mudiadau trydydd sector i ymateb i'r rhain.

Ym mis Mawrth 2013 lansiwyd menter gwerth 310 miliwn i fynd i'r afael ag angen cynyddol Yr Alban am fanciau bwyd lleol, gwasanaethau cyngor ariannol a phrosiectau dillad cymunedol a phecyn dechreuwyr. Bydd y Gronfa **Support & Connect** yn rhedeg dros y ddwy flynedd, gan anelu'n benodol at wella cefnogaeth leol ar gyfer pobl sy'n profi caledi. Bydd y gronfa'n helpu mudiadau i greu cysylltiadau gwell er mwyn i bobl sy'n delio gyda phroblemau cymhleth dderbyn y cymysgedd iawn o gefnogaeth y mae ei hangen arnynt.

Rydym hefyd wedi ariannu prosiectau sy'n efelychu ac yn cynyddu graddfa ymagweddau sy'n gweithio, megis grant i NSPCC i ddod â 'Model Ymyrraeth New Orleans' uchel ei glod i'r Alban, gan beilota'r ymagwedd yn Glasgow i helpu i sicrhau man diogel yn gyflymach nag ar hyn o bryd ar gyfer plant ifanc sy'n cael eu cam-drin. Yn olaf, yn dilyn grantiau gwerth £6.5 miliwn yn 2012 i fynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig trwy gyflwyno modelau arfer da fel CEDAR, eleni gwnaethom gytuno i ddyrannu £8 miliwn pellach i helpu datblygu opsiynau tai mwy diogel ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth.

Yn sail i'r grantiau a ddyfarnwn mae ymrwymiad parhaus i ddatblygu sgiliau a galluoedd rheng flaen mudiadau, er enghraifft trwy ddarparu cyngor penodedig am ddim ar gynllunio busnes ac ariannol a gwerthuso a deall effaith.



**Momentum Scotland – £500,000 ar gyfer gwasanaethau cefnogi ar gyfer pobl ag anaf i'r ymennydd**

## Effaith portffolio ariannu'r Alban

Mae ariannu trwy ein portffolio yn Yr Alban yn parhau i ddiwallu anghenion a darparu cyfleoedd mewn cymunedau ar draws Yr Alban. Mae arian Loteri'n cyrraedd pobl a theuluoedd, ac eleni rydym wedi gwneud dyfarniadau gwerth cyfanswm o £133.8 miliwn yn Yr Alban.

Mae arian Loteri'n cael effaith arbennig o gryf ar adfywio cymunedau trwy berchnogaeth ar asedau. Trwy ein gwerthusiad o **Growing Community Assets** gwyddwn fod y prosiectau a ariannwn yn gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywydau defnyddwyr prosiect a chymunedau'n gyffredinol.

Mae tua 32,000 ar draws Yr Alban yn defnyddio gwasanaethau'n rheolaidd yn y 58 o gyfleusterau a ariennir gan Growing Community Assets sy'n weithredol. Dywed y mwyafrif fod y gwasanaethau'n llawer gwell na'r rhain a ddarparwyd o'r blaen. Mae mwy na mil o bobl yn gwirfoddoli'n rheolaidd ac mae mwy nag 800 wedi derbyn hyfforddiant. Mae'r prosiectau wedi creu neu gynnal mwy na 250 o swyddi a chynnwys bron 100 o fusnesau.

> **Mae arian Loteri'n cael effaith arbennig o gryf ar adfywio cymunedau**

Mae gennym ddysgu gwerthfawr hefyd ynghylch sut y gallwn helpu cymunedau i adeiladu dyfodol gwell ar gyfer eu hunain trwy'r rhaglen **Our Place**. Wrth i'r grantiau terfynol gael eu gwneud a'r prosiectau a ariennir ddechrau gwneud gwahaniaeth yn y fan a'r lle, dywedodd y bobl dan sylw wrthym eleni fod y broses gefnogol, seiliedig ar gymdogaethau wedi adeiladu gallu'r mudiadau dan sylw, gwella gwaith partneriaeth a chynyddu hyder ac ysbryd gymunedol.

Mae cefnogi teuluoedd wedi bod yn thema bwysig ein gwaith eleni a gwyddwn fod arian Loteri'n cyrraedd ystod eang o deuluoedd ac yn eu helpu i ymdopi'n well â heriau bywyd teuluol. O gywain barn prosiectau sy'n gweithio gyda theuluoedd rydym wedi dysgu eu bod yn ystyried eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd trwy leihau unigedd, gwella hyder, gwella perthnasoedd, gwaith partneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau statudol a diwallu anghenion trwy gefnogaeth wedi'i theilwra.

Mae llwyddiant prosiectau unigol yn dangos effaith tymor hwy arian Loteri. Y Gronfa Loteri Fawr oedd ariannwr pennaf y prosiect 'Gwarcheidwadaeth' uchel ei phroffil a gyflwynwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Yr Alban mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofal Plant Aberlour ers 2010. Yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus a gwerthusiad cadarnhaol, eleni gwelwyd y cyhoeddiad gan y Gweinidog Plant bod Llywodraeth Yr Alban wedi ymrwymo i ariannu'r gwasanaeth hwn, gan adeiladu ar fuddsoddiad yr arian Loteri a mynd â'r gwaith ymlaen, o bosib am y tair blynedd nesaf.

Yn sail i'r ffocws hwn ar fuddsoddiad ac effaith yw ein hymrwymiad i ddysgu a gweithio ar y cyd. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â budd-ddeiliaid y trydydd sector, arianwyr eraill, Llywodraeth Yr Alban a llywodraeth leol ac yn gynyddol, y sector preifat er mwyn deall yr hyn y mae ei angen ac i chwarae rôl gadarnhaol yn Yr Alban.

# Portffolio Gogledd Iwerddon



Mae portffolio Gogledd Iwerddon wedi cael ei ddatblygu yn dilyn ymgynghori â'n budd-ddeiliaid ac yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni sy'n ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth o gefnogi'r bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus.

Rydym yn cyflwyno nifer o raglenni sy'n cefnogi'r bobl a'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan y dirywiad economaidd presennol yn ogystal â rhaglenni blaengar sy'n mynd i'r afael ag effaith alcohol ar bobl, teuluoedd a chymunedau.

Mae nifer o egwyddorion allweddol sy'n sail i bortffolio ariannu Gogledd Iwerddon:


- cynnwys pobl a chymunedau
- creu partneriaethau a chydweithio
- adeiladu mudiadau cryfach
- edrych tuag at y dyfodol.

Parhawn i gynnwys budd-ddeiliaid wrth ddatblygu ein rhaglenni trwy ymgynghori. Rydym yn sicrhau yr anodir ystod eang o fudd-ddeiliaid i gyflwyno eu barn trwy gynnal digwyddiadau ymgynghori grwpiau ffocws a thrwy hyrwyddo ymgynghoriadau'n helaeth trwy wefan y Gronfa Loteri Fawr, yr e-fwletin, digwyddiadau allanol a gwefannau cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter.

Pan fo'n berthnasol rydym hefyd yn recriwtio pobl i fod yn rhan o bwyllgorau gwneud penderfyniadau i gyfrannu eu barn, eu gwybodaeth a'u safbwyntiau er mwyn ein helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Rydym yn ymateb i alw o'r ystod eang o fudiadau o fewn cymunedau. Mae hyn yn golygu bod ein portffolio'n cyflwyno ariannu yn amrywio o grantiau byrrach a llai i'r grantiau mawr strategol sy'n cynnig ariannu am bum mlynedd.

Mae'n bwysig i ni i fwyafu effaith ein hariannu a thrwy greu partneriaethau gydag arianwyr eraill a chyrff statudol rydym wedi llwyddo i weithio ar y cyd tuag at weledigaeth a rennir, gan gyflawni mwy nag y gallem yn gweithio ar ein pennau ein hunain.




**Impact of Alcohol – ymgyrch £7 miliwn i leihau camddefnyddio alcohol yng Ngogledd Iwerddon. Yn y llun mae Anthony Morrissey, y bu i'w gyfaill gorau foddi ar ôl noson allan mewn clwb yn Belfast**

Mae datblygiad a chefnogaeth ar gyfer ein deiliaid grantiau'n rhan annatod o bortffolio Gogledd Iwerddon ac mae gennym nifer o gontractau sy'n adnabod anghenion hyfforddi ac yn cyflwyno cyrsiau ar bynciau megis llywodraethu da, datblygu staff, cynaladwyedd a mesur newid i ddangos effaith. Yn bwysicaf oll, mae'r pecyn cefnogaeth hwn yn cynnig cyfle i'n cwsmeriaid rwydweithio a rhannu arfer da gyda'i gilydd.

Rydym hefyd yn cefnogi prosiectau a ariennir trwy becyn arloesol o hyfforddiant cyfathrebu gan gynnwys sgiliau cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol a negeseuon allweddol. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o'r prosiectau a ariannwn yn datblygu'r sgiliau y mae eu hangen i hyrwyddo eu prosiect i'r bobl y mae arnynt ei angen fwyaf.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio tystiolaeth o'n rhaglenni, dysgu ac ymchwil bresennol i adnabod y materion sy'n effeithio ar gymunedau yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2013, byddwn yn canolbwyntio ar iechyd a lles meddyliol ac yn cefnogi teuluoedd i wella bywydau plant trwy adeiladu perthnasoedd cryf a meithringar.

## Ariannu o Bortffolio Gogledd Iwerddon

| Enw'r rhaglen | Nifer o ddyfarniadau | Gwerth y dyfarniadau |
|---|---|---|
| Arian i Bawb | 487 | £3,989,622 |
| Culture For All | 86 | £677,607 |
| Energy Efficient Venues (grantiau mawr) | 76 | £3,337,123 |
| Energy Efficient Venues (grantiau bach) | 89 | £748,559 |
| Portffolios Ymddiriedolaeth Impact of Alcohol | 8 | £187,427 |
| Grantiau Uniongyrchol Impact of Alcohol (grantiau datblygu) | 1 | £1,257,902 |
| Reaching Out – Connecting Older People | 48 | £15,857,046 |
| Reaching Out – Empowering Young People | 36 | £15,657,693 |
| Grant datblygu Space and Place | 1 | £34,124 |
| Partner dyfarnu Space and Place | 1 | £15,000,000 |
| **Cyfanswm** | **833** | **£56,747,103** |

Mae mwy o wybodaeth am bortffolio a rhaglenni ariannu Gogledd Iwerddon ar gael o www.biglotteryfund.org.uk/welsh/northernireland

**Assistance Dogs NI – £10,000 i hyfforddi cŵn i helpu pobl ag anableddau**



**“Camp i Derry/ Londonderry yng Ngogledd Iwerddon oedd ennill ei chais i fod yn Ddinas Ddiwylliant gyntaf y DU yn 2013”**

# Edrych yn ôl ar bortffolio ariannu Gogledd Iwerddon 2012/13



Camp i Derry/Londonderry yng Ngogledd Iwerddon oedd ennill ei chais i fod yn Ddinas Ddiwylliant gyntaf y DU yn 2013. Mewn partneriaeth â Culture Company 2013 a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, gwnaethom ddatblygu'r rhaglen **Culture for All** i gysylltu â blwyddyn Dinas Ddiwylliant y DU.

Lansiwyd y rhaglen ym mis Awst 2012 ac erbyn hyn mae'n darparu cyfleoedd i gymunedau ar draws Gogledd Iwerddon i chwarae rhan yn Ddinas Ddiwylliant y DU 2013 trwy weithgareddau cymunedol a diwylliannol sy'n cysylltu â'r dathliadau ac yn gwella lles ac ansawdd bywyd unigol.

## Uchafbwyntiau o bortffolio ariannu Gogledd Iwerddon

Yn 2012, gwnaethom barhau i wneud dyfarniadau o dan y rhaglenni Reaching Out cyfredol – Connecting Older People ac Empowering Young People.

Mae'r rhaglen **Connecting Older People** yn cefnogi ystod o brosiectau sy'n trawsnewid bywydau pobl hŷn yn ein cymunedau sydd mewn perygl o unigedd, iselder, salwch meddyliol a chorfforol a hunan-barch isel.

Mae'r rhaglen **Empowering Young People** yn cefnogi prosiectau hollbwysig i wella cyfleoedd pobl ifanc sy'n unig trwy roi cyfle iddynt wirfoddoli, gwella'u haddysg, cymryd rhan mewn hyfforddiant a dod o hyd i swyddi.

Trwy'r rhaglen hon dyfarnwyd £490,000 i Advantage Foundation Limited i redeg rhaglenni hyfforddi addysg a chyflogaeth yng Nghanolfan Troseddwyr Ifanc Hydebank Wood, gan roi hwb i'w hunan-barch a rhoi'r sgiliau, yr hyder a'r profiad gwaith iddynt ddod o hyd i swyddi ar ôl cael eu rhyddhau. Maent hefyd yn bwriadu cynnwys y bobl ifanc mewn mentrau cymdeithasol i ddysgu sgiliau busnes iddynt.



**Yn ystod haf 2012 teithiodd ras cyfnewid meics y Gymanfa Heddwch ar draws y DU gan hyrwyddo stiwdios a ariennir gydag arian Loteri a lledaenu neges o heddwch ac undod. Cymerodd pobl ifanc ran hefyd mewn rhaglen addysg gerddoriaeth a redir gan Blastbeat gyda grant o £250,000. Daw'r llun hwn o gam Derry y daith.**

## Effaith portffolio ariannu Gogledd Iwerddon

Mae'r rhaglen **Impact of Alcohol** yn anelu at wella bywydau pobl y mae eu bywydau wedi'u heffeithio gan rywun agos sy'n camddefnyddio alcohol.

Gwyddwn fod y rhaglen Impact of Alcohol eisoes yn cryfhau perthnasoedd rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a mudiadau cymunedol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd mae meddygon teulu lleol wedi cyfeirio cleifion sy'n ymdopi â chamddefnyddio alcohol yn uniongyrchol i brosiectau lleol a ariennir gan y rhaglen hon.

Trwy weithio gydag Ymddiriedolaethau Iechyd rydym yn mabwysiadu ymagwedd strategol at fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yng Ngogledd Iwerddon trwy adeiladu ar brofiad ac arbenigedd presennol yr Ymddiriedolaethau yn eu hardaloedd.

Yn Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin, mae ARC Healthy Living Centre yn defnyddio grant o tua £178,000 i wella bywydau pobl hŷn sy'n yfed yn ddi-baid a'u teuluoedd. Bydd gweithwyr cefnogi'n ymweld â phobl hŷn yn eu cartrefi, gan gynnig rhaglenni cwnsela ac addysg iddynt i roi dealltwriaeth o'u camddefnydd o alcohol a'u helpu i fynd i'r afael â'u caethineb.

Mae'r rhaglen **Energy Efficient Venues** yn helpu mudiadau cymunedol yng Ngogledd Iwerddon i wneud gwelliannau i'w hadeiladau, megis gosod drysau a ffenestri PVC newydd, systemau gwresogi newydd neu hyd yn oed paneli solar a thyrbinau gwynt.

Gyda phrosiectau'n dweud eu bod yn debygol o elwa o ostyngiad o 10 y cant o leiaf mewn costau, bydd modd iddynt roi'r arbedion hyn yn ôl i mewn i'w gweithgareddau bob dydd ar gyfer y bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae dros 350 o leoliadau wedi elwa o grantiau bach gwerth bron £2.75 miliwn, tra bod bron 100 o leoliadau wedi elwa o grantiau mawr gwerth dros £4.2 miliwn.

Mae mudiadau yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi elwa o'r ariannu'n cynnwys grwpiau cymunedol gwledig ac mewn dinasoedd, mudiadau eglwys, elusennau sy'n cefnogi pobl â salwch corfforol a meddyliol, grwpiau cefnogi menywod, grwpiau chwarae, clybiau chwaraeon a chlybiau ieuenctid.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Building Change** yn mynd ati i gyfarparu'r sector gwirfoddol a chymunedol i ddiwallu anghenion newidiol cymunedau difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon.

Daeth gwerthusiad o effeithiolrwydd model yr Ymddiriedolaeth i ben yn 2012.

Ymysg pethau eraill, gwelodd yr adroddiad terfynol fod y model yn ffordd effeithiol a hyblyg o gefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnig rhywfaint o sicrwydd a sefydlogrwydd mewn cyfnod o ansicrwydd ehangach. Gwelodd fod yr Ymddiriedolaeth wedi mwynhau llwyddiannau nodedig wrth hyrwyddo partneriaethau a chydweithio rhwng grwpiau'r sector gwirfoddol a chymunedol ac roedd dros 60 y cant o fudiadau'n ymwneud â phrosiectau wedi cynyddu eu capasiti.

# Portffolio Cymru



Yng Nghymru ein nod hir dymor yw cefnogi ymyraethau blaengar sy'n mynd i'r afael ag angen.

Trwy weithio gyda budd-ddeiliaid, y rhai sy'n llunio polisi ac arbenigwyr yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol rydym wedi adnabod anghenion sy'n dod i'r amlwg mewn cymunedau yng Nghymru ac wedi targedu ein hariannu'n unol â hynny yn ystod 2012-13.

Cyflwynir tua hanner ein hariannu trwy ein rhaglenni agored, **Pawb a'i Le** ac **Arian i Bawb**. Mae'r nodau ac amcanion bras yn galluogi cymunedau i ymgymryd â rôl arweiniol wrth gyflwyno newid ble y bydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Rydym wedi buddsoddi mewn prosiectau ar draws Cymru sy'n galluogi pobl leol i ddatblygu eu hatebion eu hunain i'r problemau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu.

Mae gweddill ein hariannu'n cefnogi buddsoddiadau a dargedir mewn meysydd o angen sefydledig. Dyfarnodd **Lleisiau Lleol** bron £12 miliwn yn 2012 i helpu pobl i gael mwy o ddylanwad dros y polisïau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymunedau lleol.

Mae'r ariannu'n rhoi cyfle i gymunedau yng Nghymru leisio eu barn a datblygu ymdeimlad cryfach o gymuned. Mae'n ymwneud â phobl yn dweud eu dweud i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned ac ar eu bywydau eu hunain.

**"Rydym wedi buddsoddi mewn prosiectau ar draws Cymru sy'n galluogi pobl leol i ddatblygu eu hatebion eu hunain"**

Rydym yn cyflwyno ariannu o gyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu segur yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae **Ar y Blaen** yn anelu at ymgysylltu â phobl ifanc 16-18 oed a'u paratoi a'u symbylu i ymgymryd â lleoliad gwaith a gefnogir â thâl er mwyn gwella'u cyfle o symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy neu ddysgu/hyfforddiant pellach trwy gynyddu eu sgiliau cyflogadwyedd. Bydd yr ariannu'n cael ei gyhoeddi yn haf 2013.

Trwy'r llinyn **Camau Cynaliadwy** rydym wedi ariannu prosiect Cymru gyfan sengl sy'n cefnogi cymunedau i leihau allyriadau carbon ac addasu i newid hinsawdd trwy ddatblygu sgiliau, newid ymddygiad a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach.

Mae darparu gwybodaeth a chefnogaeth i'n hymgeiswyr i'w helpu i ddatblygu a chyflwyno prosiectau effeithiol yn rhan bwysig o'n gwaith.



Ysgol Ieuan Gwynedd, Dolgellau – £4,000 ar gyfer cyfarpar chwarae awyr agored i blant ag awtistiaeth

Gyda'n budd-ddeiliaid rydym wedi adnabod meysydd penodol i'w datblygu yn y dyfodol gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi, ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd ar lefel leol, a datblygu modelau gwasanaeth cyhoeddus amgen sy'n cynnwys mudiadau trydydd sector.

Ochr yn ochr â'r meysydd hyn byddwn yn peilota ymyraethau potensial a fydd yn darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, gan ein galluogi i dargedu ein buddsoddiadau'n well yn y dyfodol.

Mae'r rhain yn cynnwys ymyraethau a anelir at wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc a thrais yn y cartref a phobl ifanc sydd mewn gofal ac yn gadael gofal.

Mae ein gwasanaeth allgymorth yn targedu ardaloedd penodol sy'n brwydro i lwyddo gyda'u ceisiadau ariannu. Trwy ein hymdrechion gwelwyd gwir welliannau yn y nifer o geisiadau llwyddiannus o ardaloedd allweddol gan gynnwys Casnewydd yn ne-orllewin Cymru, a grwpiau a mudiadau gofalwyr ar draws y wlad.

Yn ystod 2012 hefyd gwnaethom ddyfarnu contract cefnogi hunanwerthuso i helpu ein deiliaid grantiau i ddatblygu eu cynlluniau gwerthuso a monitro uchel eu hansawdd eu hunain.

Bydd y cynlluniau hyn yn eu cefnogi i ddangos eu heffeithiolrwydd yn well, gwella'u prosiectau a darparu tystiolaeth a dysgu i helpu i gynnal eu prosiectau dros yr hir dymor.

## Ariannu o Bortffolio Cymru

| Rhaglen | Nifer o ddyfarniadau | |
|---|---|---|
| Arian i Bawb | 846 | £2,263,024 |
| Awydd am Arloesi | 5 | £11,342,121 |
| Lleisiau Lleol (Cam 2) | 11 | £18,643,160 |
| Pawb a'i Le 2 | 80 | £600,000 |
| Gwasanaeth Tir Cymunedol Ymgynghorol Cymru | 1 | £1,100,000 |
| Big Match Challenge | 1 | £4,198,346 |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol | At ei gilydd ariannwyd 6 ar y cyd | **£41,313,162** |
| **Cyfanswm** | **950** | |

Mae mwy o wybodaeth am bortffolio a rhaglenni ariannu Cymru ar gael o www.cronfaloterifawr.org.uk

# Edrych yn ôl ar bortffolio ariannu Cymru 2012/13

## Uchafbwyntiau o bortffolio ariannu Cymru

Yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gwnaethom gyflwyno trydedd rownd yr ariannu **Trosglwyddo Asedau Cymunedol** yn 2012. Darparodd y rhaglen arian cyfalaf a refeniw i gefnogi trosglwyddo asedau megis tir ac adeiladau o fudiadau sector cyhoeddus i berchnogaeth gymunedol.

Mae'r rhaglen yn anelu at helpu cymunedau i fod yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i asedau a'u datblygu. Amrywiodd y prosiectau a ariannwyd o gastell i bwll nofio a ffatri caws segur. Bu'n rhaid iddyn nhw i gyd ddangos cynaladwyedd eu cynigion trwy ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd eu gwaith.

Ymgysylltodd ein menter **Gafael mewn Grant**, sydd wedi ennill gwobrau, â grwpiau cymunedol lleol mewn ardaloedd lle ceir nifer isel o geisiadau llwyddiannus. Rhoddodd gyfle i'r cyhoedd ddweud eu dweud wrth ddyfarnu arian i brosiectau cymunedol lleol hefyd.

Trwy bartneriaethau â'r cyfryngau lleol gwnaethom apelio i grwpiau cymunedol i ymgeisio am ddyfarniadau bach i helpu i wella bywydau pobl yn eu cymunedau lleol.

Arddangosodd y papurau newydd brosiectau, gyda'u darllenwyr yn pleidleisio dros eu hoff brosiectau i dderbyn yr ariannu.

> **Cyfrannu at greu cymunedau mwy cynaliadwy a gwydn**

Ymysg y prosiectau llwyddiannus oedd Ymddiriedolaeth Chrysalis Gogledd Cymru, sy'n defnyddio eu hariannu i helpu mwy o deuluoedd gyda phlentyn sydd wedi cael diagnosis salwch terfynol neu sy'n peryglu bywyd.

Yng Nghasnewydd derbyniodd y gangen leol o Parkinson's UK ariannu i brynu peiriannau Nintendo Wii a pheli cydbwyso i helpu pobl sydd â'r cyflwr i osgoi cwympo a rheoli eu symptomau'n well.

## Effaith portffolio ariannu Cymru

Trwy ein hariannu **Newid yn yr Hinsawdd** gwnaethom ddyfarnu £600,000 i ymgysylltu â thua 5,000 o bobl ledled Cymru trwy brosiectau tyfu bwyd cymunedol.

Mae cael mynediad i dir yn un o'r rhwystrau mwyaf y mae cymunedau'n eu hwynebu wrth greu lleoedd i dyfu. Bydd arweiniad a chefnogaeth gan y Gwasanaeth Tir Cymunedol Ymgynghorol yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd lleol yng Nghymru, gan helpu i leihau'r effaith ar yr hinsawdd a chyfrannu at greu cymunedau mwy cynaliadwy a gwydn.

Mae prosiectau sydd â'r nod o helpu i roi llais cryfach i filoedd o bobl mewn cymunedau yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau lleol wedi elwa o bron £12 miliwn trwy ein rhaglen **Lleisiau Lleol**.

Bydd deg cynllun a redir gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru'n helpu cymunedau i ddylanwadu ar wasanaethau, polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt er mwyn i'w hanghenion gael eu diwallu'n well ac i'w lleisiau gael eu clywed.

Bydd dioddefwyr trais domestig, pobl oedrannus ar eu pennau eu hunain a phobl ag anhwylder niwrolegol ymysg y rhai sy'n cael mwy o ddylanwad ar ddyluniad a chyflwyniad gwasanaethau trwy ddyfarniad i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO). Bydd prosiectau lleol ym Mhowys yn helpu i rymuso 2,750 o ddinasyddion trwy'r prosiect.

Mae'r hinsawdd ariannol gyfredol wedi effeithio ar arianwyr, y rhai sy'n cyflwyno gwasanaethau, cyrff statudol a'r cymunedau rydym yn cydweithio â nhw. Trwy ein rhaglen **Pawb a'i Le** sydd wedi bodoli ers tro rydym yn cefnogi gwelliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Erbyn hyn mae'r rhaglen wedi buddsoddi dros £100 miliwn mewn prosiectau cyfalaf a refeniw gyda'r nod o annog gweithredu cydlynol gan bobl sydd eisiau gwneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i fyw.




Cefnogwyd prosiect Llwybrau i Waith y Bartneriaeth Awyr Agored er mwyn cynyddu'r gynrychiolaeth o bobl leol a'u cyfranogiad yn y sector gweithgareddau awyr agored yng Ngogledd Cymru.

Mae tua 900 o wirfoddolwyr yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi i ennill dyfarniadau'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer ystod o weithgareddau awyr agored megis cymwysterau arweinydd mynydda, dringo, campau padlo ac arweinydd beicio mynydd.

Trwy sianelu arian i brosiectau fel hwn, anelwn at gefnogi pobl leol i ddatblygu eu hatebion eu hunain i'r problemau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu.

Mae ein rhaglen **Awydd am Arloesi**'n ariannu prosiectau sy'n profi ffyrdd newydd o fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio dysgu yn sgil y prosiectau i gyfeirio polisïau ac arfer ehangach.

Dyfarnwyd ariannu i Gibran UK trwy'r rhaglen i gefnogi cyn-droseddwyr sy'n fenywod i ailsefydlu yn eu cymunedau.

Yn aml mae gan gyn-droseddwyr sy'n fenywod anghenion cymhleth a bydd rhai o'r anghenion hynny wedi arwain at gyflawni troseddau. Gall y rhain gynnwys dyled, tai, problemau iechyd meddwl a phroblemau gyda pherthnasoedd.

Bydd cyfuniad o fentora gan gymheiriaid, technolegau newydd a chefnogaeth 24 awr y dydd dros y ffôn yn helpu 650 o gyn-droseddwyr i helpu eu hunain a mynd i'r afael ag achosion craidd aildroseddu.

Mae'r sianeli cyfathrebu a'r gefnogaeth yn anelu at wella ymdeimlad y menywod o les ac yn mynd i'r afael ag unigedd, gan arwain at gyfraddau aildroseddu is.

Bydd gwerthusiad trwyadl o'r prosiect yn cael ei rannu gydag ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi allweddol er mwyn gwella darpariaeth yn y dyfodol.

Rydym yn cefnogi cyfleoedd ariannu newydd ar gyfer cymunedau ar draws Cymru trwy **BIG Match Challenge**. Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (CFIW) yn bwriadu codi gwerth £1 miliwn o roddion dyngarol erbyn mis Mawrth 2016.

Ar gyfer pob rhodd a sicrheir, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn darparu'r un swm mewn arian cyfatebol hyd at uchafswm gwerth o £1 miliwn. Yna bydd yr arian yn cael ei roi mewn Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau bach hyd at werth £1000 i grwpiau cymunedol dros gyfnod o 25 mlynedd.

Bydd hyn yn annog rhoddion ac yn canolbwyntio buddsoddiad newydd ar y grwpiau cymunedol bach ond pwysig sydd yn aml yn profi anhawster wrth ddod o hyd i ariannu.

# Adran tri
## Effaith ein gwaith

Dyfarnwn symiau mawr o arian bob blwyddyn ac rydym am iddynt gael eu defnyddio i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Anelwn at ddysgu o'n hariannu, o'r buddsoddiadau unigol a gefnogwn ac o'r ffordd yr ydym yn ariannu.

Rydym yn ystyried effaith ar nifer o lefelau:

1 Ar lefel y prosiect rydym yn annog y rhai a ariannwn i werthuso a myfyrio ar eu gwaith eu hunain yn seiliedig ar y canlyniadau prosiect cytunedig. Gyda llawer o raglenni rydym yn comisiynu contractau cefnogi a datblygu sy'n helpu ymgeiswyr a deiliaid grantiau i wneud hyn.

Ein prif ffocws yw sicrhau y gall y grwpiau a ariannwn adnabod canlyniadau ac adrodd amdanynt, ond rydym yn awyddus i'w hannog nhw i feddwl am gyflawniadau a dysgu ehangach a dweud wrth bobl eraill am hyn.

Er mwyn cefnogi hyn rydym wrthi'n datblygu cymuned ar-lein er mwyn i brosiectau rannu eu dysgu. Pan fo'n bosib, rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio ein dysgu a'n penderfyniadau ariannu yn y dyfodol.

2 Rydym yn gwerthuso ein rhaglenni (neu grwpiau o raglenni) i gywain gwybodaeth a all gefnogi ein dysgu ar yr hyn sy'n gweithio ac yn defnyddio hwn i gyfeirio datblygiad rhaglenni yn y dyfodol.

Er enghraifft, cefnogodd ein Cronfa Scottish Land drosglwyddo asedau cymunedol yn Yr Alban. Yn 2011, gan ddefnyddio dysgu o'r Gronfa Scottish Land, cyhoeddwyd astudiaeth a edrychodd ar y ffordd orau o gynnal buddion ariannu cyfalaf.

Darparodd yr astudiaeth ddysgu defnyddiol a helpodd i gyfeirio'r rhaglen y Gronfa Scottish Land newydd yr ydym yn ei chyflwyno mewn partneriaeth â Menter yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd ar ran Llywodraeth Yr Alban.

Rydym wedi datblygu mesurau effaith i'n helpu i reoli ein rhaglenni a dysgu ohonynt, ac mae hynny wedi bod yn wir ar gyfer prosiectau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac ar iechyd a lles. Eto, mae hyn yn ein helpu i greu gwell dealltwriaeth o'r newidiadau rydym wedi'u cefnogi.

Er enghraifft, dangosodd y gwerthusiad o'n rhaglen Lles effaith yr ariannu ar y bobl a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, yn ogystal ag effeithiau ehangach, megis sut mae'r agweddau gwahanol ar les yn effeithio ar ei gilydd.

Yng Nghymru mae ein rhaglen Sgiliau Bywyd wedi'i chefnogi gan werthusiad meintiol ac ansoddol cynhwysfawr a fydd yn helpu i dracio'r cynnydd y mae'r bobl a gefnogir wedi'i wneud i wella'u hyder a'u sgiliau sylfaenol ac, yn y pen draw, eu cefnogi i ddod o hyd i gyflogaeth.




3 Rydym hefyd yn ystyried effaith ein rhaglenni ym mhob gwlad ac ar draws y DU i sicrhau bod amrywiaeth pob portffolio'n mwyafu effaith ein hariannu.

Er enghraifft, anelwn at gydbwyso rhaglenni sydd â ffocws penodol â rhaglenni agored sy'n ymateb i anghenion y bobl a'r cymunedau mwyaf anghenus.

Mae hyn yn ein galluogi i ffocysu ein hariannu ar y lleoedd y gallwn gael yr effaith fwyaf arnynt, megis yr ardaloedd sy'n profi lefelau uchel o angen ar hyn o bryd neu ardaloedd sy'n profi tanfuddsoddiad, yn ogystal â sicrhau ein bod yn ystyried anghenion lleol.



**Action on Hearing Loss, Alnwick, Northumberland – £288,261 i helpu pobl fyddar i ymdopi'n well â bywyd bob dydd**

4 Ar lefel strategol rydym yn cefnogi nifer o brosiectau a fforymau sy'n rhannu dysgu ac arfer da, yn cefnogi mesur effaith ac yn anelu at adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio.

Yn benodol rydym yn buddsoddi yn y prosiect Inspiring Impact, sy'n anelu at wella ansawdd mesur effaith o fewn mudiadau cymdeithasol, er enghraifft trwy wneud offer ac adnoddau'n fwy hygyrch, a symud tuag at system ariannu sy'n canolbwyntio ar effaith a thystiolaeth.

Ein nod yw cefnogi'r arfer ehangach o fesur effaith, a fydd yn ein helpu i fesur effaith yn y dyfodol, gan fod prosiectau'n gwella'u gallu i rannu gwybodaeth am yr effaith y maen nhw wedi llwyddo i'w chael yn sgil ein hariannu.

Rydym hefyd wedi ariannu'r Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol, rhwydwaith rhithwir a chymuned fyd-eang mynediad agored o unigolion a mudiadau sydd ag ymrwymiad i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn sicrhau bod gwneud penderfyniadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn galw ar yr ymagweddau ac atebion mwyaf effeithiol.

Bydd y Gynghrair yn cefnogi'r defnydd o dystiolaeth well ac rydym yn anelu at leihau dyblygu. Un ffordd yr ydym yn cefnogi tystiolaeth well yw trwy fynediad agored i'r setiau data rydym yn eu defnyddio yn ein hymchwil ein hunain.

Rydym wedi dechrau cyhoeddi'r setiau data hynny ar ein gwefan ac yn gweithio gyda mudiadau eraill i hyrwyddo'r cysyniad o ddata agored. Rydym hefyd yn ariannu un o'r canolfannau 'beth sy'n gweithio' cyntaf - y Ganolfan Heneiddio'n Well. Mae mwy o wybodaeth am yr ariannu hwn i'w gweld ar dudalen 35.

Rydym hefyd yn defnyddio mesur effaith i wella ein harferion dyfarnu grantiau, er enghraifft rydym yn ariannwr pwysig ar gyfer grwpiau cymunedol llai ac rydym eisiau sicrhau bod syniadau ehangach am fesur effaith yn cymryd pryderon am gymesuredd i ystyriaeth.

Mae ein hadolygiad cyfredol o effaith gydag Arian i Bawb yn anelu at adnabod prosesau a fydd yn ein helpu ni a'r grwpiau a ariannwn i adrodd yn fwy effeithiol ar effaith, a helpu i sicrhau nad yw anghenion a phersbectifau y rhai 'o dan y radar' yn cael eu hanghofio.

Er y bu asesu'r hyn sy'n gweithio orau bob amser yn brif ffocws yn ein rhaglen, yn gynyddol rydym yn ei gysylltu â'r hyn yr ydym yn dewis buddsoddi ynddo.

Yn gynyddol mae llawer o'n rhaglenni'n ymchwilio i ymagweddau ymyrraeth gynnar, pan geisiwn atal anghenion penodol rhag dod i'r amlwg yn y lle cyntaf.

Er enghraifft, mae Gwireddu Uchelgais yn anelu at gefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial ac osgoi llwybrau sy'n arwain at droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r rhaglen yn efelychu'n ofalus yr ymagweddau hynny sydd eisoes wedi profi'n effeithiol. Mae'n cynnwys ymagwedd werthuso drwyadl a fydd yn adolygu llwyddiant y prosiectau rydym wedi'u hariannu, yn ogystal â'r model ariannu. Mae'r rhaglen yn dod tuag at ddiwedd ei flwyddyn gyntaf a byddwn yn rhannu'r gwersi cychwynnol yn ddiweddarach eleni.

# Adran pedwar
## Ein perfformiad ariannol

Yn ystod 2012/13 derbyniwyd £774 miliwn (2011/12 £771 miliwn) mewn incwm uniongyrchol o werthu tocynnau'r Loteri Genedlaethol.

Ym mis Mawrth 2007 cytunodd Senedd y DU y dylid trosglwyddo £638 miliwn rhwng Chwefror 2009 ac Awst 2012 o'r Gronfa Loteri Fawr i Gronfa Ddosbarthu Olympaidd y Loteri. Yn ystod 2012/13 gwnaed trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £80 miliwn.


Trosglwyddiadau i Gronfa Ddosbarthu Olympaidd y Loteri:

| Blwyddyn Ariannol | £m |
|---|---|
| 2008/09 | 43 |
| 2009/10 | 172 |
| 2010/11 | 172 |
| 2011/12 | 172 |
| 2012/13 | 80 |
| 2013/14 | 0 |

Yn ystod 2010 cymeradwyodd Senedd y DU gynigion yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i newid ein cyfran o incwm y Loteri Genedlaethol. Gostyngodd ein cyfran o 50 y cant i 46 y cant o 1 Ebrill 2011 a gostyngodd eto i 40 y cant o 1 Ebrill 2012.

Mae'r gostyngiad hwn yn ein cyfran o incwm y Loteri wedi'i osod yn sylweddol erbyn y cynnydd parhaus mewn tocynnau Loteri Genedlaethol a werthwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

**Incwm loteri o werthiannau tocynnau**




Delir elw net y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol nes iddo gael ei dynnu i lawr gan ddosbarthwyr Loteri. Mae'r Gronfa'n derbyn un cyfran o incwm buddsoddi'r NLDF ag o'r elw o'r Loteri Genedlaethol, set 40 y cant ar hyn o bryd. £4.1 miliwn oedd hwn yn 2012-13 (2011/12 £5.6 miliwn).

Rydym hefyd yn derbyn trosglwyddiadau o'r Gronfa Reclaim Ltd o arian o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur (£50.0 miliwn; 2011/ 12 £47.6 miliwn). Rydym yn adneuo'r arian nes bod ei angen, a derbyniwyd llog o £30,000 (2011/12 £250,000).

## Sut rydym yn penderfynu faint i'w ddyfarnu

Ein strategaeth yw dyfarnu'r uchafswm y gallwn wneud yn ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd.

Nid yw'r strategaeth yn golygu y byddwn yn gwneud dyfarniadau neu daliadau o'r un gwerth yn union bob blwyddyn. Ei nod yw cynhyrchu lefel weddol sefydlog o fudd yn sgil ein hariannu bob blwyddyn. Mewn rhai blynyddoedd gall hyn olygu ein bod yn gwneud rhai dyfarniadau a thaliadau mwy sy'n creu buddion dros nifer o flynyddoedd.


Mae Big Local Trust yn enghraifft dda o hyn: gwnaed dyfarniad unigol o £200 miliwn yn 2011/12, ond bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud taliadau i'r mudiadau buddiolwyr terfynol dros sawl blwyddyn yn y dyfodol.

Mae llawer o'n grantiau'n talu allan am nifer o flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu gwneud. Mae hyn yn adlewyrchu ein polisi o gefnogi prosiectau sy'n rhedeg ar gyfer hyd at bum mlynedd, ac ariannu prosiectau cyfalaf.

Mae'r ffaith y bydd llawer o'n grantiau'n cael eu talu allan nifer o flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu dyfarnu'n golygu y gallwn wneud ymrwymiadau ar sail arian nad ydym wedi'i dderbyn eto.

Ar 31 Mawrth 2013, roedd gennym £891 miliwn [2011/12 £980 miliwn] o ymrwymiadau yn ddyledus, ond dim ond £354 miliwn [2011/12 £399 miliwn] yn unig i'w ddefnyddio i'w talu: ymrwymiadau dros ben o £537 miliwn [2011/12 £581 miliwn], sy'n gyfwerth â thua deng mis o incwm yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

**Ariannu ein hymrwymiadau dros ben**




Mae ein hincwm yn y dyfodol yn ansicr – nid oes neb yn gwybod faint o incwm a fydd o'r Loteri. Felly mae'n rhaid i ni fod yn ochelgar. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynhyrchu rhagolygon o incwm y dyfodol sy'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd gwerthiannau tocynnau'r Loteri Genedlaethol yn aros yn fras ar eu lefel bresennol yn y dyfodol – yr 'achos canolog' yw'r enw rydym yn ei roi i hyn, ac rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio gwariant tebygol yn y dyfodol dros yr hir dymor.

Mae'r graff ar dudalen 59 yn dangos sut y disgwylir i bethau weithio allan ar sail yr achos canolog. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ein rhagamcaniadau cyfredol o'n gwariant cynlluniedig ar raglenni ar gyfer 2013 – 2017.
Ni allwn wneud ymrwymiadau grant go iawn ar sail yr achos canolog. Petaem yn gwneud hynny ac os cafwyd gostyngiad yn incwm y Loteri, mae'n bosib na fyddai modd i ni fodloni ein holl ymrwymiadau. Felly rydym yn cynhyrchu rhagamcaniad mwy gochelgar yn seiliedig ar symudiadau hanesyddol mewn gwerthiannau tocynnau o'r enw 'achos 5 y cant' (gan ein bod yn amcangyfrif bod cyfle 5 y cant y byddai'n digwydd mewn gwirionedd). Dengys hanes y Loteri nad ydym yn bod yn rhy ochelgar.


Er bod gwerthiannau tocynnau Loteri wedi tyfu'n gryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd gostyngiad o 17 y cant mewn gwerthiannau tocynnau gwirioneddol rhwng 1998 a 2003. Mae'n amlwg bod gostyngiad o'r raddfa yn ein rhagamcaniad 5 y cant yn sefyllfa bosib.

Rydym yn cyfyngu ar ein hymrwymiadau grant gwirioneddol fel na fyddai ein balans NLDF rhagamcanedig yn gostwng yn is na sero ar sail yr achos 5 y cant. Dengys y graff canlynol na fyddai modd i ni fodloni ein hymrwymiadau cynlluniedig yn llawn ar sail yr achos 5 y cant ac y byddai angen i ni gwtogi ar ein cynlluniau os cwympodd incwm i'r graddau hyn. Gellir bodloni'r holl ymrwymiadau cyfredol ar sail yr achos 5 y cant. Mae cynllunio dros nifer o flynyddoedd fel hyn yn sicrhau y gallwn wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n rhaglenni gydag ychydig iawn o aflonyddwch.

**Rhagamcaniad achos canolog**




**Rhagamcaniad achos 5%**



## Balansau NLDF

Ein balans NLDF yw £354 miliwn (2011/12 £399 miliwn) ar 31 Mawrth 2013.

Fel y mae'r siart isod yn ei ddangos, mae ein balans NLDF wedi gostwng mwy na 70 y cant ers 2004.

Byddai'r cynnydd mawr ac annisgwyl mewn incwm Loteri a ddigwyddodd yn 2009/10 wedi arwain at gynnydd yn y balans NLDF dros y ddwy flynedd nesaf. I osgoi hyn, ac wrth ymateb i lefel uchel y galw ar hyn o bryd, gwahoddodd ein Bwrdd ein pwyllgorau ariannu i gynyddu eu dyfarniadau cynlluniedig a fyddai'n gwneud taliadau erbyn 2015. Gwnaethom gyfrifo y gellid gwneud hyn heb gyfaddawdu'r gweddill o'n rhaglenni wrth symud ymlaen. Disgwylir erbyn hyn y bydd yr ariannu ychwanegol sy'n cael ei ddarparu'n atal ein balans rhag codi'n sylweddol yn 2013/14 a gostwng ymhellach yn 2014/15.

Nid ydym yn pennu targed ar gyfer ein balansau NLDF. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri, mae'n amhosib i ni reoli'r balans yn y tymor byr. Y strategaeth ariannu a amlinellir uchod yw gwneud ymrwymiadau grant o'r gwerth uchaf posib a allwn dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn golygu bod y balans NLDF mor isel ag sy'n bwyllog. Bydd y lefel wirioneddol yn amrywio'n unol â strwythur ein rhaglenni ar unrhyw adeg.

Rhagwelwn ar hyn o bryd y bydd ein balans NLDF ar 31 Mawrth 2014 oddeutu £372 miliwn a £153 miliwn erbyn 31 Mawrth 2015.


## Ein costau gweithredu – sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithlon

Ein mesur allweddol o effeithlonrwydd ariannol yw'r gyfran o'n hincwm Loteri yr ydym yn ei gwario ar ei ddosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r loteri. Rydym hefyd yn eithrio costau unigol sy'n fuddsoddiadau i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, cost dosbarthu arian y Loteri oedd £48 miliwn (2011/12 £49 miliwn). Mae hyn yn cynrychioli 6.2 y cant o incwm y Loteri (2011/12 6.3 y cant).


## Yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma

Rydym wedi gwneud arbedion sylweddol ers i'r Gronfa Loteri Fawr gael ei chreu yn 2004. Dengys y siart isod sut mae costau gwirioneddol wedi gostwng ers 2004/05, y flwyddyn y cafodd y Gronfa Loteri Fawr ei ffurfio wrth i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol gyfuno, o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd petaent wedi codi'n unol â chwyddiant yn unig.

**Balans NLDF terfynol**




**DPA - Costau Gweinyddol Gwirioneddol wedi'u cymharu â sylfaen chwyddiant 2005/2006**



Mae'r tabl isod yn dangos sut mae costau wedi gostwng dros y saith mlynedd diwethaf yn fanylach.

| £miliwn | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm Loteri cyn y trosglwyddiad OLDF | 642 | 660 | 662 | 783 | 786 | 780 | 774 |
| Costau a adenillwyd gan gyrff eraill | 3 | 5 | 7 | 7 | 7 | 8 | 8 |
| Cyfanswm incwm | 645 | 665 | 669 | 790 | 793 | 788 | 782 |
| Cost dosbarthu grantiau Loteri | 66 | 60 | 57 | 58 | 53 | 49 | 48 |
| Buddsoddiad ar gyfer arbedion y dyfodol | 8 | (1) | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Costau a adenillwyd gan gyrff eraill | 3 | 5 | 7 | 7 | 7 | 8 | 8 |
| Cyfanswm costau gweithredu | 77 | 64 | 67 | 70 | 61 | 57 | 56 |
| Cost dosbarthu grantiau Loteri fel % o incwm Loteri | 10.3% | 9.1% | 8.6% | 7.4% | 6.8% | 6.3% | 6.2% |

Ni chyflawnwyd yr arbedion hyn trwy ostwng safonau'r gwasanaeth. Mae rhai camau pwysig a gymerwyd i'w cyflawni wedi cynnwys:

- adleoli 300 o swyddi o Lundain a'r De-ddwyrain i Birmingham a Newcastle
- gostwng ein costau swyddfa £1.9 miliwn trwy reoli lle'n fwy effeithlon
- rhesymoli ein prosesau ariannu
- gwella ein strwythurau staffio fel bod llai o reolwyr
- ymgymryd â rhaglenni trydydd parti i ostwng costau cyffredinol.

## Yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ddosbarthwyr y loteri leihau eu costau gweithredu i gwrdd â dau darged: Bydd costau gweithredu'r Loteri'n cael eu cyfyngu i 8 y cant o Incwm y Loteri a bydd costau gweinyddu craidd yn cael eu cyfyngu i 5 y cant o incwm y Loteri. Rydym wedi cytuno i gwrdd â'r targedau hyn erbyn 2014/15. Roedd ein costau craidd yn 4.8 y cant o incwm y Loteri yn 2012/13 ond bydd angen i ni wneud arbedion pellach i gynnal y targed o 5 y cant yn 2014/15. Yn bennaf y costau gweinyddu craidd yw'r costau o brosesu ceisiadau a rheoli grantiau ar ôl eu dyfarnu, gan gynnwys yr holl gostau cefnogi.

Ein nod yw cyflawni'r targed heb gyfaddawdu naill ai ansawdd ein rhaglenni neu ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid. Mae rhaglenni agored sy'n gwneud nifer mawr o grantiau bach yn ddrutach i'w rhedeg na rhaglenni sy'n gwneud nifer bach o grantiau mawr i grŵp cyfyngedig o ymgeiswyr. Mae’r mathau o raglenni rydym yn eu rhedeg wedi’u symbylu gan yr hyn sy’n cyflwyno’r canlyniadau gorau, nid cost y cyflwyno, ac nid ydym yn bwriadu newid hynny.

Mae sail y targed 8 y cant yn debyg i'r mesur cyfredol uchod, felly rydym yn cwrdd â'r targed hwn ar hyn o bryd.

Mae'r targed mwy cul o 5 y cant ar gyfer costau gweinyddu craidd yn berthnasol i gostau'r Loteri ac yn eithrio'r costau hynny yr ystyrir eu bod yn darparu cefnogaeth rheng flaen ar gyfer ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a'r cyhoedd, er enghraifft, darparu cyngor a chymorth i fudiadau sy'n ymgeisio am arian Loteri a gweithgareddau i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau Loteri.

Ein costau gweinyddu craidd oedd 4.8 y cant o incwm y loteri yn 2012/13 ond bydd angen i ni wneud arbedion pellach i gynnal y targed o 5 y cant yn 2014/15.

Rydym yn cyrraedd y cam terfynol o roi ein System Rheoli Ariannu (SRhA) newydd ar waith, a disgwylir iddi fynd yn fyw yn ystod 2013/14. Bydd hwn yn prif-ffrydio ein prosesau ariannu ymhellach, gan alluogi ein cwsmeriaid i ymgeisio am grantiau a'u rheoli ar-lein. Rydym yn disgwyl y bydd arbedion staffio gweithredol o £2.1 miliwn yn cael eu cyflawni ar ôl i'r system gael ei rhoi ar waith.

Fodd bynnag, bydd cynnydd yn ein costau TG o'i gymharu â 2012/13 oherwydd ein bod yn mynd i gostau isel iawn ar ein systemau wedi dyddio bresennol, sydd wedi'i diddymu'n llwyr yn ein cyfrifon. Mae'r angen am newid amorteiddio ar ein buddsoddiad yn y SRhA newydd, ynghyd â chwyddiant a chostau cynyddol eraill yn golygu y bydd angen i ni arbed £3 miliwn pellach erbyn 2014/15. Bydd y rhan fwyaf o hyn yn cael ei gyflawni ar sail buddion y SRhA newydd. Byddwn hefyd yn parhau i wneud arbedion ar ein costau swyddfa ac mewn meysydd eraill.

## Ein diffyg ar gyfer y flwyddyn

Roedd gennym warged o £67 miliwn ar gyfer y flwyddyn 2012/13 (diffyg o £179 miliwn yn 2011/12). Ein diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2013 oedd £470 miliwn (£536 miliwn ar 31 Mawrth 2012).

Mae ein polisi cyfrifo'n mynnu ein bod yn trin dyfarniadau fel gwariant cyn gynted ag y byddant yn cael eu derbyn gan y derbynnydd. O ganlyniad i hyn mae ein polisi ariannu o wneud dyfarniadau a gaiff eu talu dros nifer o flynyddoedd yr ydym yn hyderus y bydd modd i ni eu talu nhw gydag incwm y dyfodol yn arwain at ddiffyg. Nid yw hyn yn destun pryder ac nid ydym yn rheoli ein gwarged neu ddiffyg o flwyddyn i flwyddyn. Yn lle rydym yn rheoli ein llif arian dros yr hir dymor fel yr esboniwyd yn gynharach yn yr adran hon.

# Eitemau datgelu statudol

## Asedau sefydlog

Amlinellir y symudiadau mewn asedau diriaethol ac anniriaethol sefydlog yn ystod y flwyddyn yn Nodiadau 10 a 11 y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd £6 miliwn [2011/12 £7 miliwn] mewn gwariant cyfalaf sy’n gysylltiedig i raddau helaeth â buddsoddi yn ein system rheoli ariannu newydd.

## Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, mae’n rhaid i gyfrifon blynyddol y Gronfa Loteri Fawr gael eu harchwilio a’u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## Ein polisi ac arfer talu

Yn unol â'r Canllaw Arferion Talu Gwell, anelwn at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl derbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi’u cyd-drafod fel arall. Yn 2012/13, talwyd 95 y cant (98 y cant yn 2011/12) o’r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb nad yw'n destun anghydfod.

Oherwydd newid parhaol yn y dull gweinyddu taliadau, roedd y ganran o gyflenwyr a dalwyd o fewn 10 niwrnod o dan her taliadau prydlon y Llywodraeth yn 35 y cant yn ystod 2012/13 (72 y cant yn 2011/12).

Er hynny, gwellodd ein diwrnodau credydwr cyffredinol (cyfanswm gwerth ein credydwyr ar 31 Mawrth 2013 wedi'i rannu gan gyfanswm y taliadau i gredydwyr yn ystod 2012/13, wedi'i fynegi mewn diwrnodau) i 11 diwrnod yn unig (17 diwrnod yn 2011/12).

## Deiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus

Mewn cyffredin â'r holl gyrff cyhoeddus, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ddeiliad gwybodaeth y sector cyhoeddus. Nid yw wedi rhoi caniatâd i wybodaeth benodol gael ei hailddefnyddio ac felly nid yw wedi codi tâl amdani.



## Cyfranogiad cyflogeion

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn fudiad ymgynghorol ac agored, sy'n ymrwymedig i sicrhau y gall yr holl gyflogeion ddweud eu dweud a rhoi mewnbwn wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar draws y mudiad. Mae gennym berthynas adeiladol ac ymddiriedus gyda'n hundebau ar y cyd, Prospect ac Unite, ac rydym yn ceisio annog a dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer cynnwys ac ymgynghori â chyflogeion. Mae'r Gronfa'n ceisio barn a safbwyntiau ei staff yn rheolaidd trwy ddeialog anffurfiol a thrwy arolygon ymgysylltu â chyflogeion blynyddol ffurfiol.

## Absenoldeb salwch staff

Rydym yn ymrwymedig i iechyd a lles ein staff ac mae gennym bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr. Yn ystod 2012/13 roedd nifer cyfartalog y diwrnodau o absenoldeb salwch yn 7.0 fesul gweithiwr (7.3 diwrnod yn 2011/12).



Penine Lancashire Community Farm – £9,131 i roi cyfleoedd i bobl leol dyfu ffrwythau, llysiau a phlanhigion

# Adran pump
# Ein llywodraethu

**Mae adran hon yr adroddiad yn cynnwys:**

- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon**
- **Datganiad llywodraethu'r Swyddog Cyfrifon**
- **Aelodaeth y Bwrdd, pwyllgorau gwlad a'r Uwch Dîm Rheoli**
- **Cofrestr o fuddiannau aelodau**
- **Yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth**

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon

O dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ac o'n hincwm, ein gwariant a'n llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifon gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth Gyfarwyddiadau'r Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a yw safonau cyfrifo perthnasol fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol.

Mae Swyddog Cyfrifon yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr fel Swyddog Cyfrifon. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifon, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifon yn atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa Loteri Fawr, wedi'u hamlinellu yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel Swyddog Cyfrifon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd pob cam perthnasol fel Swyddog Cyfrifon i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol mae'r Gronfa wedi ceisio defnyddio'r pwerau dirprwyo a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gallai partïon eraill fod yn atebol am elfennau penodol o raglenni.

## Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan mewn cynlluniau ar y cyd, fel y'u diffinnir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu arian ochr yn ochr â chyrff eraill i gyflawni'r canlyniadau a ddiffinnir gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, mae ein Swyddog Cyfrifon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- defnyddir arian Loteri a ddyrennir gan y Gronfa yn unol â'n pwerau cyfreithiol
- defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa i'r rhaglen
- bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben,
- cytuno ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen rhwng y dosbarthwyr Loteri sy'n cymryd rhan.

Yn ogystal â hyn, mae Swyddog Cyfrifon y Gronfa hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'r systemau a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r rhaglen Arian i Bawb Lloegr, y mae'r Gronfa yn ei gweinyddu.

Yn ystod 2012/13 mae'r Gronfa wedi cymryd rhan yn y cynlluniau ar y cyd a ganlyn:

- Active England, rhan o'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion: cynllun a weinyddir gan Sport England ar ran Sport England a'r Gronfa Loteri Fawr.
- Parks for People: cynllun a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

## Partneriaid dyfarnu

Rydym wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i bartneriaid dyfarnu. Mae'r cytundeb dirprwyo rhyngom ni a'r partneriaid dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb prif weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau Loteri ac i brosesu a monitro grantiau Loteri yn dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri'n cael ei ddosbarthu'n gywir ac yn briodol.

Cadwaf gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu arian cyhoeddus a ddarperir i'r Gronfa ac am sicrhau bod partneriaid dyfarnu'n gweithredu'n unol â'n telerau cytunedig a'r cyfarwyddiadau ariannol a pholisi a ddarparwyd i mi.

Fel rhan o'r Gronfa Pobl Ifanc:

- Youthnet – BIG Deal.

Fel rhan o'r rhaglen Changing Spaces:

- Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt – Bwyd lleol.
- Building Research Establishment Ltd – Rhaglen Community Sustainable Energy.
- Ymddiriedolaeth Groundwork– Community Spaces.
- Natural England – Access to Nature
- Mind – Ecominds

Fel rhan o'r rhaglen Reaching Communities yn Lloegr:

- Ymddiriedolaeth Loteri Ynys Manaw
- Make your Mark

Fel rhan o'n canlyniadau People Powered Change:

- Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA) - Her Gymdogaethau.
- Y Sefydliad Entrepreneuriaid Cymdeithasol (UnLtd) – BIG Venture Challenge.

**Ceri Doyle**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon Gweithredol
1 Gorffennaf 2013

# Y datganiad llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon Gweithredol, fi sy'n gyfrifon am y datganiad llywodraethu hwn. Y Swyddog Cyfrifon trwy gydol y flwyddyn sy'n destun yr adolygiad oedd y Prif Weithredwr blaenorol, Peter Wanless. Er mwyn i mi fod yn sicr o'r materion a drafodir yn y datganiad, fe gymeradwyodd ddrafft o'r datganiad, a rhoddodd briff llawn i mi ar y materion hynny. Gydag aelodau eraill yr UDRh gwnaethom ystyried adroddiad sicrwydd blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar y cyd. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn. Ei nod yw rhoi dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithio ac yn cael ei rheoli, ac mae'n esbonio'r prif risgiau sy'n ei hwynebu a pha mor dda y mae'r rhain yn cael eu rheoli.

## Ein hatebolrwydd i Senedd y DU, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu ar draws y DU ond gyda'r broses gwneud penderfyniadau'n cael ei datganoli'n helaeth i bedair gwlad y DU. Mae hyn yn golygu bod gennym set gymhleth o rwymedigaethau allanol, sy'n gofyn am strwythur llywodraethu mewnol sydd yr un mor gymhleth.

Crëwyd y Gronfa Loteri Fawr gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, a amlinellodd y prif reolau y mae'n gweithredu oddi tanynt. Mae hefyd wedi derbyn swyddogaethau o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol ac yr wyf yn llawn atebol i Senedd y DU am arian y Gronfa Loteri Fawr. Mae gorchmynion penodol sy'n gysylltiedig â'r loteri a chyfrifon segur yn cael eu gwneud gan Senedd y DU neu Senedd Yr Alban, ond gweithredir y prif drosolwg o'r Gronfa Loteri Fawr trwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan weinidogion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, ac felly yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol. Am resymau cyfreithiol mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi cyfarwyddiadau tebyg yn gysylltiedig ag arian cyfrifon segur. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa Loteri Fawr.

Adran noddi polisi'r Gronfa Loteri Fawr yw Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr eu cymryd i ystyriaeth wrth ddosbarthu arian sy'n berthnasol yn gyffredinol i holl ariannu'r DU ac yn benodol i Loegr. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi sy'n gysylltiedig â'r arian sy'n cael ei ddosbarthu yn y gwledydd hynny.

Mae'r cyfarwyddiadau sy'n berthnasol yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn Adran saith yr adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud

## Llywodraethu anweithredol

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i llywodraethu gan Fwrdd DU sy'n cynnwys Cadeirydd y DU, cadeiryddion y pedwar pwyllgor gwlad a hyd at bum aelod arall. Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd. Mae gan bob gwlad bwyllgor gwlad sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn eu gwlad. Mae gan y pwyllgorau gwlad awdurdod dirprwyedig i bennu'r strategaeth a rhaglenni ariannu yn eu gwledydd, yn amodol ar fframwaith strategol DU gyfan a gymeradwyir gan y Bwrdd a'r cyfarwyddiadau polisi ar gyfer eu gwlad. Maent hefyd yn gwneud penderfyniadau am grantiau, neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer eu gwneud nhw. Mae'r Bwrdd hefyd wedi penodi Pwyllgor Ariannu'r DU i gyflawni swyddogaethau tebyg ar gyfer y rhaglenni hynny sy'n gweithredu ar sail DU gyfan.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gynghori ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Mae'n cynnwys dau aelod allanol sydd ag arbenigedd mewn materion archwilio a chyfrifo. Mae hefyd wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ddelio gyda'r materion a amlinellir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth.

Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r pwyllgorau gwlad yn cwrdd o leiaf bob tri mis, gydag chyfarfodydd ychwanegol fel y bo angen. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd bob blwyddyn fel arfer.

Mae'r Bwrdd yn derbyn cofnodion gan ei holl bwyllgorau. Yn ogystal â hyn, o bryd i'w gilydd mae'n derbyn adroddiadau llawnach am y strategaethau a rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fframwaith strategol a bod dysgu'n cael ei rannu. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'n tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw, ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Mae aelodaeth yn yr holl bwyllgorau a phresenoldeb ynddynt wedi'u hamlinellu yn y tabl ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae aelodau Bwrdd y DU, gan gynnwys cadeiryddion y pwyllgorau gwlad, yn cael eu penodi'n ffurfiol gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Mae aelodau eraill o bwyllgorau gwlad yn cael eu penodi'n ffurfiol gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cymryd rhan yn llawn yn y penodiadau sy'n gysylltiedig â'u gwledydd. Mae'r holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn cael eu penodi yn sgil proses hysbysebu a dethol agored.

## Effeithiolrwydd llywodraethu anweithredol ac adolygiad ohono

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o lywodraethu'r Bwrdd yn 2010 ac wedi hynny gwnaeth y Bwrdd rai newidiadau arwyddocaol i lywodraethu'r Gronfa Loteri Fawr, y mae'n credu eu bod wedi'i galluogi i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar reolaeth strategol y mudiad. Mae materion rhaglenni ariannu, o fewn paramedrau strategol a bennir gan y Bwrdd wedi'u datganoli'n llawn, naill ai i'r pwyllgorau gwlad neu i Bwyllgor Ariannu'r DU.

Mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r holl heriau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Gronfa Loteri Fawr ac yn cymryd rhan yn uniongyrchol wrth dracio cynnydd yn erbyn y fframwaith strategol cyfredol yn ogystal â datblygu'r un nesaf. Mae'n fodlon ei fod yn derbyn digon o wybodaeth gywir i fod yn hyderus am effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu, perfformiad ariannol a gweithredol y busnes a sut mae risg yn cael ei rheoli. Mae'r systemau sy'n darparu'r wybodaeth hon wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio fewnol.

Mae'r Gronfa'n cymhwyso arweiniad Swyddfa'r Cabinet "The Principles of Good Governance in Executive NDPBs", sy'n gyfwerth â "The Corporate Governance Code for Central Government Departments" ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol. Rwyf wedi fy modloni bod egwyddorion y Côd, ynghyd â ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn mewn trefniadau llywodraethu'r Gronfa Loteri Fawr.

## Rheolaeth weithredol

Mae rheolaeth weithredol y Gronfa Loteri Fawr yn cael ei harwain gan ei Huwch Dîm Rheoli ("UDRh") o naw aelod, gan gynnwys fy hun. Mae'r UDRh yn cwrdd yn ffurfiol bob mis, ond mae aelodau mewn cyswllt o leiaf bob wythnos. Mae holl aelodau'r UDRh yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd, ac mae aelodau priodol yn mynd i bwyllgorau eraill. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad a rheoli risgiau'r Gronfa Loteri Fawr yn gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u hamlinellu yn adran nesaf yr Adroddiad hwn.

Mae strwythurau rheoli gweithredol priodol wedi cael eu creu gan gyfarwyddwyr ar draws y mudiad i oruchwylio eu cyfarwyddiaethau a'u hadrannau, a'r prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu gweithredu ar draws y Gronfa Loteri Fawr.

## Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr system ddatblygedig o gynllunio corfforaethol sydd wedi'i ddylunio i adnabod blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod er mwyn cyflwyno'r strategaeth a gymeradwyir gan y Bwrdd. Mae cynlluniau cyfarwyddiaeth ac adrannol yn cael eu datblygu ar draws y Gronfa Loteri Fawr ac yn bwydo i mewn i amcanion personol staff.

Mae'r cynlluniau corfforaethol yn adnabod dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a gwybodaeth rheoli allweddol (GRhA). Mae'r rhain yn cael eu monitro'n agos ac adroddir amdanynt i'r UDRh ac i'r Bwrdd yn rheolaidd, gyda chamau cywiro'n cael eu cymryd pryd bynnag y bo angen. Mae hyn yn ffocysu sylw ar y meysydd y mae arnynt ei angen fwyaf, gyda dim ond dau darged DPA yn cael eu colli (yn faterol) yn ystod 2012-13. Mae'r rhain, sydd wedi'u trafod isod, yn gysylltiedig â'r System Rheoli Ariannu newydd. Rhoddir gwybodaeth ariannol a pherfformiad helaeth i'r UDRh bob mis ac i staff anweithredol bob tri mis.

Mae'r systemau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys o fewn y rhaglen archwilio fewnol. Cyflawnwyd adolygiad o'r mesurau rheoli dros y systemau adrodd DPA a GRhA yn ystod 2012-13: argymhellodd rhai gwelliannau, ond darparodd sicrwydd cymedrol mewn perthynas â'r rheoliadau.

## Arian trydydd parti

Ym mis Hydref 2011 cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth trydydd parti'r Gronfa Loteri Fawr a ffocysodd ein gweithgareddau ac a bennodd ein hymagwedd, ynghyd â chyrchnodau cyflwyno ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Yn ein strategaeth amlinellwn sut rydym yn darparu ein profiad, ein systemau a'n dysgu i eraill eu defnyddio ac yn ychwanegu gwerth ble bynnag y gallwn. Mae'r Bwrdd yn ymwneud yn weithredol â phenderfyniadau am ba waith trydydd parti y mae'n briodol i'r Gronfa Loteri Fawr ymgymryd ag ef, yn unol â'r strategaeth honno. Rydym yn cymhwyso risgiau a chyfundrefn reoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r loteri'n cael ei groes-gymorthdalu. Rydym yn adolygu gweithgareddau a chyfleoedd yn rheolaidd i adnabod dysgu yn sgil cyflwyno gweithgareddau trydydd parti.

## Rheoli risgiau a sicrwydd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithredu system gynhwysfawr o reoli risgiau, gyda chofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hadolygu bob tri mis gan yr UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw fater y mae angen ei ddwyn at eu sylw. Yn unol â chyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar lefelau goddefiant risg y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu'n ofalus i adlewyrchu'r lefelau gwahanol o oddefiant sy'n dderbyniol ar gyfer risgiau gwahanol. Mae bod yn ariannwr deallus sy'n gwneud dewis ymwybodol i fuddsoddi er mwyn sicrhau effaith mewn amgylchiadau heriol gyda chostau cyffredinol cyfyngedig yn anochel yn mynnu bod rhai risgiau'n cael eu cymryd mewn perthynas â llwyddiant rhai prosiectau.

Mae gweithdrefnau rheoli, dylunio ac adrodd ar gyfer y system rheoli ariannu newydd yn cael eu datblygu i adlewyrchu'r goddefiannau gwahanol y cytunwyd arnynt. Mae'r Bwrdd ei hun yn adolygu'r gofrestr risgiau bob blwyddyn o leiaf i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol.

Mae cofrestrau risgiau tebyg yn cael eu cadw ar lefel cyfarwyddiaethau ac adrannau ac ar gyfer pob prosiect a rhaglen, ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel uwch bob tri mis. Mae system effeithiol ar waith ar gyfer esgoli materion risg sylweddol i'r UDRh.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr isadran archwilio ac ymchwiliadau mewnol o dan ofal y pennaeth archwilio mewnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i mi ar faterion archwilio. Mae ein tîm mewnol yn cael ei ategu gan gontract ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol gyda PriceWaterhouseCoopers. Mae rhaglen o waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i chytuno gyda'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylunnir y rhaglen hon i roi sicrhad bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu dylunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu.

Mae canfyddiadau'r adroddiadau, yn enwedig unrhyw rai "nad ydynt yn rhoi sicrhad  neu sy'n rhoi sicrhad "cyfyngedig", yn cael eu hystyried gennyf i, y cyfarwyddwyr perthnasol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae camau gweithredu'n cael eu cytuno gan reolwyr wrth ymateb i bob argymhelliad a wneir, ac adroddir am gynnydd yn erbyn y rhain i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn dilyn y camau gweithredu y mae rheolwyr yn datgan eu bod wedi'u cwblhau, ac yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg p'un a ydynt yn fodlon mai dyna'r achos ai beidio. Y camau ychwanegol a gymerwyd yn ystod 2012-13 oedd i'r UDRh ystyried adroddiad ar gynnydd archwilio gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bob chwarter, ac i ystyried ei adroddiad sicrwydd drafft, y mae'r ddau ohonynt yn rhoi trosolwg mwy clir i'r UDRh yn gyffredinol o gynnydd wrth ymdrin ag unrhyw wendidau rheoleiddio, ac yn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol at gytuno ar gynnwys y blaengynllun o waith archwilio.

Mae nifer y camau gweithredu sy'n weddill ar ôl eu dyddiad gweithredu cytunedig yn DRhA gyda tharged o sero. Cafwyd tri argymhelliad gyda chamau gweithredu hwyr ar 31 Mawrth 2013, ond roedd dau o'r rhain yn gysylltiedig â gohirio dyddiad mynd yn fyw mewnol y system rheoli ariannu newydd, ac nid ystyriwyd bod yr un ohonynt yn destun pryder sylweddol. Cadarnhaodd Archwilio Mewnol fod argymhellion wedi'u hadolygu wedi cael eu dilyn ym mron pob achos. Pan nad oedd hyn yn wir, adroddwyd ar yr achos i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a monitrwyd camau gweithredu pellach.

Cyflawnir archwiliad allanol o'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o archwilio mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mewn rhai meysydd arbenigol (er enghraifft cydymffurfio ag iechyd a diogelwch) deuir o hyd i sicrwydd pellach ar ffurf adroddiadau gan ymgynghorwyr proffesiynol a chymwysedig eraill.

Mae pob cyfarwyddwr wedi darparu datganiad sicrwydd ar fy nghyfer ar y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, a chan alw ar y rhain a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r pennaeth archwilio mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer.

O ganlyniad i argymhellion a wnaed mewn nifer o adroddiadau nad ydynt wedi'u datrys yn llawn eto, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â datblygiad manwl y systemau rheoli ariannu sydd ar ddod, darparodd ei adroddiad sicrwydd cyfyngedig ynglŷn â dyluniad, digonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr. Rhoddir mwy o fanylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Rwyf wedi fy modloni bod camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â'r materion a godwyd.

## Y prif risgiau y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn eu hwynebu

Ar hyn o bryd mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn adnabod 16 risg sylweddol. Mae pump o'r rhain yn ymwneud â'r Rhaglen Ailbeiriannu Prosesau Busnes (BPR) a drafodir isod.

Mae pedair risg arall yn ymwneud â'n rheolaeth ariannol:

- Methu â rheoli ein costau craidd o fewn y terfyn 5 y cant erbyn 2014/15.
- Cynnydd mewn incwm loteri sy'n arwain at falansau NLDF sy'n uwch na'r rhagamcaniad.
- Methu ag ymrwymo'r holl gyllideb grantiau gytunedig ar gyfer y flwyddyn.
- Methu â rheoli taliadau grant yn arwain at wariant sy'n arafach na'r rhagamcaniad.

Mae gohirio dyddiad mynd yn fyw'r SrHA newydd wedi cynyddu'r risg o fethu â chyflawni'r targed costau 5 y cant, gan y bydd ei roi ar waith yn llwyddiannus yn cyflwyno arbedion sylweddol. Yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau ei roi ar waith yn llwyddiannus, mae'r risg hon yn cael ei rheoli trwy ddatblygu cynlluniau wrth gefn.

Rwyf wedi fy modloni bod y tair risg arall yn cael eu rheoli'n dda ac mewn ffordd y gellir eu goddef. Mae ein trefniadau adrodd ariannol wedi sicrhau bod unrhyw wyriad o'n cynlluniau'n cael ei adnabod yn gyflym a bod camau'n cael eu cymryd. Gan i sefyllfaoedd dyfarniadau a thaliadau gael eu monitro'n effeithiol, roedd modd i'r Bwrdd gymeradwyo cynigion gwariant ychwanegol gan bwyllgorau gwlad yn ystod y flwyddyn nesaf i sicrhau nad yw'r balans NLDF yn codi dros y ddwy flynedd nesaf

Mae tair risg yn gysylltiedig â'r niwed i enw da'r Gronfa Loteri Fawr a allai ddigwydd os na fydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno ei rhaglenni a'i gwasanaethau i gwsmeriaid yn effeithiol:

- Analluی i ddangos ein bod yn cael effaith gadarnhaol trwy'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Fframwaith Strategol.
- Gallai dyluniad neu weithrediad y Cynllun Tymor Canolig i gyflawni effeithlonrwydd gyfaddawdu ein heffeithiolrwydd neu ein gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Methu â gwrthbrofi sylw negyddol yn y cyfryngau cenedlaethol.

Mae'r UDRh a'r Bwrdd yn rhoi sylw agos i'r agweddau hyn ar ein gweithrediadau, a gwneir ymdrech sylweddol i ddod o hyd i adborth gan ein holl gwsmeriaid a budd-ddeiliaid i wella ein perfformiad. Mae'r holl DPA yn y meysydd hyn yn gadarnhaol iawn, ac rwy'n fodlon bod y risgiau yn y meysydd hyn ymhell o fewn goddefiant ar hyn o bryd.

Mae dwy risg arall yn gyffredin i bob mudiad o gymhlethdod tebyg:

- Methu â sicrhau cydymffurfio â gofynion rheoleiddio a gofynion tebyg
- Digwyddiadau diriaethol nas rhagwelwyd megis methiant systemau .

Nid yw unrhyw faterion sylweddol wedi codi yn y meysydd hyn, ac mae gan y Gronfa Loteri Fawr systemau effeithiol a chynlluniau wrth gefn yr wyf yn fodlon eu bod yn rheoli'r risgiau hyn yn foddhaol. Mae adolygiad archwilio mewnol wedi adnabod meysydd ar gyfer gwelliant yn y trefniadau ailsefydlu ar ôl trychineb TG, ac mae'r rhain yn derbyn sylw yn ddi-oed.

Adnabuwyd risg mewn perthynas â throsglwyddo i Brif Weithredwr newydd, ond rwyf wedi fy modloni yr ymdriniwyd â hyn yn llwyddiannus.

Y ddau faes o risg sy'n cyflwyno'r heriau mwyaf i'r Gronfa Loteri Fawr ar hyn o bryd yw twyll a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen BPR.

## Risg o dwyll

Mae'n anochel bod y Gronfa Loteri Fawr yn wynebu'r risg o dwyll. Mae unrhyw fudiad sy'n dyfarnu nifer mawr o daliadau i'r cyhoedd mewn perygl o dwyll mewnol ac allanol. Mae gan y Gronfa Loteri Fawr dasg arbennig o anodd wrth daro cydbwysedd priodol rhwng cymhwyso mesurau rheoli sy'n gwneud twyll yn anoddach ac yn ei gwneud hi'n syml ac yn hawdd i ymgeisio am grantiau, yn enwedig grantiau bach i fudiadau bach sydd yn aml ag adnoddau cyfyngedig.

Daw'r risg fwyaf o dwyll o ymosodiadau troseddol cydlynol ar ein system grantiau bach. Rydym wedi datblygu prosesau dadansoddi data ac asesu risg soffistigedig sy'n ein galluogi i adnabod patrymau ymgeisio twyllodrus a ddrwgdybir. Mae gennym dîm ymchwilio proffesiynol sy'n cefnogi ein staff ariannu wrth gyflawni asesiadau risg, ac yn prosesu pob achos o dwyll a ddrwgdybir neu ddrygioni bwriadol arall.

Gwyddwn fod y technegau hyn yn effeithiol gan i ni ddatgelu twyll trwy'r ddull hwn o dro i dro ac rydym yn erlyn troseddwyr mewn cydweithrediad â'r Heddlu. Maent hefyd yn ein galluogi i wrthod y ceisiadau hynny sy'n awgrymu risg ormodol o dwyll neu gamddefnyddio ein hariannu. Er hynny, erys peth risg o dwyll heb ei ddatgelu. Rydym yn ymrwymedig i wella ein systemau'n barhaus i fynd i'r afael â hyn.

Yn ogystal â gwaith y tîm hwn, mae mesurau rheoli Twyll yn cynnwys: polisi clir ar dwyll; polisi datgelu camarfer ynghyd â ffordd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm ymholiadau; trefniadau adrodd clir ar gyfer twyll a ddrwgdybir, gyda thwyll materol yn cael ei adrodd i mi, y Pwyllgor Archwilio a Risg a DCMS ynghyd â chydweithio agos â'r Heddlu, y Comisiwn Elusennau ac asiantaethau eraill. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymwneud yn agos â mentrau traws-lywodraethol a gwrth-dwyll.

Mae nifer a gwerth yr anghysondebau a ddrwgdybir yn cael ei fonitro yn yr holl gyfarfodydd Archwilio a Risg, gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau ar unrhyw achosion materol. Bydd rhoi ein system ariannu newydd ar waith yn cyflwyno heriau twyll newydd wrth i geisiadau a rheolaeth grantiau fynd ar-lein yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i ddefnyddio technolegau mwy soffistigedig i ymladd yn ei erbyn

## Risgiau'r Rhaglen Ailbeiriannu Prosesau Busnes (BPR)

Mae pump o'r risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gysylltiedig â'r rhaglen BPR rydym yn ei rhoi ar waith ar hyn o bryd. Fel y mae'r enw yn ei awgrymu, mae'r rhaglen yn ailddylunio'n gyfan gwbl y ffordd yr ydym yn gweithredu ein busnes ariannu, gan adlewyrchu'r ffaith nad yw ein prosesau sylfaenol wedi newid yn sylweddol ers i'n rhagflaenwyr eu datblygu nhw lynyddoedd yn ôl. Mae ein prosesau yn seiliedig ar bapur o hyd i raddau helaeth, wedi'u trefnu o gwmpas prosiectau unigol yn hytrach na chyfrifon cwsmeriaid, gan fethu ag adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg neu ddisgwyliadau cwsmeriaid. Bwriedir i BPR greu buddion sylweddol ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid ac effeithiolrwydd ein rhaglenni, yn enwedig wrth reoli a rhannu gwybodaeth, yn ogystal â galluogi arbedion sylweddol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys dyluniad a gweithrediad system rheoli ariannu newydd sy'n seiliedig ar feddalwedd SAP, ond yn estyn ymhell y tu hwnt i hynny i gynnwys:

- agenda pobl sydd wedi ail-lunio rolau a chyfrifoldebau staff
- datblygu ein gwefan yn sylweddol i gefnogi cwsmeriaid ar-lein
- ailddylunio ein trefniadau rheoli cyswllt cwsmeriaid
- safoni a symleiddio ein prosesau i greu ymagwedd hyblyg ond llawer llai cymhleth at ddylunio rhaglenni.

Mae'r rhaglen yn cynnwys buddsoddi dros £25 miliwn mewn datblygu'r meddalwedd newydd a'i roi ar waith, ac mae'n digwydd dros nifer o flynyddoedd.

Y risgiau a adnabuwyd yw:

- effaith andwyol ar foddhad cwsmeriaid
- methu â chyflwyno'r arbedion cost disgwyliedig
- methu â chyflwyno'r buddion anariannol
- gohirio ei roi ar waith y tu hwnt i'r gyllideb ac amserlen bresennol gan gynnwys ei swm wrth gefn

- rhoi'r system ar waith yn cael effaith andwyol ar gyflwyno ein rhaglenni

Mae'r risgiau hyn yn wahanol mewn rhai ffyrdd i'r rhai a adnabuwyd yn flaenorol, wrth i aeddfedrwydd y rhaglen gynyddu.

O ystyried arwyddocâd y rhaglen BPR i'r Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli risg cynhwysfawr ar waith ar ei chyfer.

Mae gan y rhaglen ei huwch swyddog cyfrifol (USC) ei hun, Cyfarwyddwr Lloegr, Dharmendra Kanani, gyda bwrdd i'r rhaglen ac is-strwythurau llywodraethu ar gyfer y prosiectau sy'n ffurfio'r rhaglen. Yn ogystal â goruchwyliaeth reolaidd gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg mewn perthynas â materion risg a sicrwydd, mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grŵp sy'n cynnwys aelodau gyda phrofiad o brosiectau tebyg, ac mae'n cwrdd â'r USC a staff uwch y rhaglen o leiaf bob mis i fonitro cynnydd. Mae pedwar DPA sy'n gysylltiedig â'r rhaglen wedi'u cynnwys yn y prosesau monitro corfforaethol, ac mae adroddiad amlygu rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i ddangos cynnydd ac adnabod meysydd i gael eu hadolygu gan swyddogion uwch.

Mae llawer o agweddau ar y rhaglen wedi parhau i wneud cynnydd da, gan gynnwys yr Agenda Pobl, hyfforddiant staff, ailddylunio'r wefan a safoni rhaglenni. Fodd bynnag, profwyd anhawster pellach wrth ddod â'r SRhA newydd i'r pwynt o fynd yn fyw, a bu'n rhaid estyn yr amserlen ddiwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2012 ymhellach. Mae'r Bwrdd wedi dweud yn bendant fod yn rhaid i ni beidio â mynd yn fyw gyda system na fydd yn cynnig profiad o safon i'n cwsmeriaid, ac mae hyn yn flaenoriaeth uwch na chyflawni dyddiad cynnar.

Yn dilyn adolygiad Porth o'r rhaglen yn rhan olaf 2012, daethpwyd ag adnoddau arbenigol ychwanegol i'r prosiect, a mabwysiadwyd amserlen ddiwygiedig ar gyfer mynd yn fyw yn fewnol gan y Bwrdd. Unwaith eto adolygodd y Bwrdd achos busnes y prosiect, gan gynnwys y posibilrwydd o beidio â pharhau ag ef, cyn cymeradwyo cynnydd yn y gyllideb ym mis Chwefror 2013. Roedd y Bwrdd wedi'i fodloni bod buddion y rhaglen yn cyfiawnhau'r costau o hyd.

Mae'r gwaith o adeiladu'r system bellach wedi'i gwblhau ac mae profion cynhwysfawr yn cael eu cyflawni cyn y dyddiad mynd yn fyw mewnol (hynny yw, i'n staff) yn ystod haf 2013. Disgwylir y bydd yn mynd yn fyw yn allanol i'n cwsmeriaid yn rhan olaf 2013 neu ran gyntaf 2014.

Rwy'n hyderus o hyd y gall y rhaglen BPR gyflwyno buddion ariannol ac anariannol sylweddol; serch hynny, mae natur a graddfa'r rhaglen yn golygu ei fod yn aros fel y ffynhonnell risgiau fwyaf sylweddol ar gyfer y mudiad.

Blaenoriaeth glir yn ogystal â datblygu'r system ariannu newydd yw sicrhau ein bod yn parhau i gyflwyno ariannu heb ymyrraeth gan ddefnyddio ein systemau cyfredol: mae ein systemau cynllunio ac adrodd corfforaethol yn ein galluogi i wneud hyn.

## Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy ar lywodraethu a systemau partneriaid dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu ariannu. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn gwneud dyfarniadau i ymddiriedolaethau ar ffurf gwaddolion, sy'n cael eu creu'n benodol fel arfer at ddibenion y dyfarniad. Yn ogystal â gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy tebyg cyn y dyfarniad, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn penodi amddiffynnydd annibynnol sydd â phwerau i sicrhau bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriad y Gronfa Loteri Fawr.

## Materion mesur rheoli sylweddol a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn

Yn ystod 2012/13 cyflawnwyd naw adolygiad archwilio mewnol. Pan adnabuwyd gwendidau mewn mesurau rheoli yn ystod yr adolygiadau hyn ac ystyriwyd yn bennaf bod eu heffaith yn isel neu'n gymedrol, ymdriniwyd â nhw. Daethpwyd o hyd i wendidau mewn mesurau rheoli yr ystyriwyd eu bod yn ddigon difrifol i gael effaith sylweddol ar gyflawni'r system neu broses benodol mewn adolygiadau o ddyluniad mesurau rheoli'r SRhA, meini prawf mynd yn fyw y SRhA a mudo data. Cyflawnwyd cryn dipyn o waith yn y meysydd hyn ers yr adolygiadau, gydag adnoddau ychwanegol yn cael eu cymhwyso i gynllunio'r gwaith a'i roi ar waith, ynghyd ag ymgysylltu rheolaidd rhwng yr uwch swyddog cyfrifol, Bwrdd y Rhaglen a'r Pennaeth Archwilio Mewnol. Bydd y gwaith hwn yn parhau hyd at ddyddiad mynd yn fyw y system ac wedi hynny. Y tu allan i'r rhaglen BPR, adnabuwyd gwendidau mewn cynllunio ailsefydlu ar ôl trychineb TG a diogelwch gwybodaeth. Mae'r holl wendidau hyn eisoes yn derbyn sylw rheolwyr neu maent wedi cael eu datrys.

Adnabu adolygiad yn 2011/12 nad oedd mesurau ar gyfer rheoli risgiau rhaglenni a phrosiectau'n gweithredu fel y bwriedir, a chyflawnwyd adolygiad pellach yn ystod 2012/13. Dangosodd hyn nad oedd llawer o'r materion dan sylw wedi cael eu datrys yn llawn. O ganlyniad i hyn mae rheolwyr wedi cyflwyno rhaglen waith wedi'i thargedu i wella ein perfformiad.

## Colli data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r bwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Ni chafwyd unrhyw golledion data personol y gellir adrodd amdanynt yn ystod 2012/13.

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr yn ddigon i'm galluogi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa Loteri Fawr â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, y Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifon a gyhoeddir oddi tanynt.

**Ceri Doyle**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon Gweithredol
1 Gorffennaf 2013

# Yr Uwch Dîm Rheoli

## Peter Wanless
Prif Weithredwr
(Ymddiswyddodd ar 31 Mai 2013)

## Robert Atkins
Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth a Pherfformiad

## Mark Cooke
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol

## Ceri Doyle
Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu
Prif Weithredwr Gweithredol (o 1 Mehefin 2013)

## Dharmendra Kanani
Cyfarwyddwr, Lloegr

## Jackie Killeen
Cyfarwyddwr, Yr Alban

## Joanne McDowell
Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon

## Linda Quinn
Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata

## John Rose
Cyfarwyddwr, Cymru

## Aelodaeth Bwrdd a phwyllgorau, presenoldeb mewn cyfarfodydd a thâl cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn

| Enw<br>Aelodau Bwrdd y DU | Rôl | Presenoldeb<br>2012/13 | Tâl cydnabyddiaeth<br>2012/13<br>£ | Tâl cydnabyddiaeth<br>2011/12<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Peter Ainsworth** | Cadeirydd, Bwrdd DU (o 1 Mehefin 2011)<br>Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth<br>Cadeirydd, Pwyllgor Ariannu'r DU (o 1 Chwefror 2012) | 5/5<br>1/1<br>4/4 | 28,800<br>-<br>- | 19,200<br>-<br>- |
| **Anna Southall OBE** | Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd DU (tan 31 Mai 2011)<br>Is-gadeirydd, Bwrdd DU (wedi ailgychwyn o 1 Mehefin 2011)<br>Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth<br>Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | -<br>5/5<br>1/1<br>1/2<br>3/4 | -<br>13,100<br>-<br>-<br>- | 2,920<br>15,600<br>-<br>-<br>- |
| **Astrid Bonfield** | Aelod Bwrdd DU (o 1 Rhagfyr 2012)<br>Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth | 3/3<br>2/2 | 2,600<br>- | -<br>- |
| **Tony Burton CBE** | Aelod Bwrdd DU (o 1 Rhagfyr 2012)<br>Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 1 Rhagfyr 2012) (Cadeirydd o 22 Ionawr 2013) | 3/3<br>1/1 | 6,100<br>- | -<br>- |
| **Sanjay Dighe** | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Mai 2011) | - | - | 4,209 |
| **Judith Donovan** | Aelod Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2011) | - | - | 9,400 |
| **Roland Doven MBE** | Aelod Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2012)<br>Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 30 Tachwedd 2012) | 2/2<br>2/2 | -<br>- | -<br>- |
| **John Gartside OBE** | Aelod Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2012)<br>Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (tan 30 Tachwedd 2012)<br>Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 30 Tachwedd 2012) | 2/2<br>1/1<br>2/2 | 6,400<br>-<br>- | 14,100<br>-<br>- |
| **Frank Hewitt CBE** | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon<br>Aelod, Bwrdd DU<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 6/6<br>5/5<br>3/4 | 24,942<br>-<br>- | 25,256<br>-<br>- |
| **Alison Magee** | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban (tan 30 Tachwedd 2011)<br>Aelod Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2011) | -<br>- | -<br>- | 16,837<br>- |
| **Maureen McGinn** | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Rhagfyr 2011)<br>Aelod, Bwrdd DU | 10/10<br>5/5 | 24,000<br>- | 8,000<br>- |
| **Rajay Naik** | Aelod, Bwrdd DU<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 5/5<br>3/4 | 10,400<br>- | 6,300<br>- |
| **Janet Reed OBE** | Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Cymru (tan 31 Rhagfyr 2011) | - | - | 18,942 |

| Enw<br>Aelodau Bwrdd y DU | Rôl | Presenoldeb<br>2012/13 | Tâl cydnabyddiaeth<br>2012/13<br>£ | Tâl cydnabyddiaeth<br>2011/12<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Nat Sloane** | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr (o 1 Mehefin 2011)<br>Aelod, Bwrdd DU | 5/6<br>5/5 | 24,000<br>- | 20,000<br>- |
| **Albert Tucker** | Aelod Bwrdd DU (tan 30 Tachwedd 2011) | - | - | 11,700 |
| **Sir Adrian Webb** | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru<br>(o 1 Ionawr 2012)<br>Aelod Bwrdd DU (o 1 Ionawr 2012)<br>Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 1 Ionawr 2012) (Cadeirydd Dros Dro, 1 Rhagfyr 2012 i 22 Ionawr 2013) | 4/4<br><br>5/5<br>4/4 | 18,000<br><br>-<br>- | 4,500<br><br>-<br>- |
| **Diana Whitworth** | Aelod, Bwrdd DU<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU<br>(tan 30 Tachwedd 2012) | 2/2<br>2/2 | 6,800<br>- | 9,000<br>- |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Lloegr** | | | | |
| **Dr Alan Billings** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/6 | 13,200 | 9,500 |
| **Sue Charteris** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 30 Tachwedd 2011) | - | - | 4,900 |
| **Scott Greenhalgh** | Aelod, Pwyllgor Lloegr<br>(o 1 Rhagfyr 2011) | 5/6 | 14,800 | 3,300 |
| **Geeta Gopalan** | Aelod, Pwyllgor Lloegr<br>(o 1 Rhagfyr 2011) | 6/6 | 10,200 | 3,300 |
| **Margaret Hyde** | Aelod, Pwyllgor Lloegr<br>(tan 30 Tachwedd 2011) | - | - | 6,800 |
| **Steve Richards** | Aelod, Pwyllgor Lloegr<br>(o 1 Rhagfyr 2011)<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 6/6<br><br>4/4 | 10,000<br><br>- | 3,300<br><br>- |
| **Danny Silverstone** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/6 | 10,900 | 2,700 |
| **Albert Tucker** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/6 | 10,800 | - |
| **Nalini Varma** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 4/6 | 10,300 | 10,600 |
| **Geoffrey Wilkinson** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/6 | 13,800 | 10,900 |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Yr Alban** | | | | |
| **Tim Allen** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 9/10 | 3,200 | 2,600 |
| **Elizabeth Cameron** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 9/10 | 4,400 | 2,600 |
| **Helen Forsyth** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 10/10 | 3,900 | 4,700 |
| **David Green** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 10/10 | 5,800 | 4,300 |
| **Alistair Grimes** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 6 Mawrth 2013) | 8/9 | 3,700 | 4,700 |

| Enw | Rôl | Presenoldeb 2012/13 | Tâl cydnabyddiaeth 2012/13 £ | Tâl cydnabyddiaeth 2011/12 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Hamira Khan** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Chwefror 2013) | 2/2 | 900 | - |
| **John McDonald** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Chwefror 2013) | 2/2 | 900 | - |
| **Kristofer McGhee** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 30 Tachwedd 2011) | - | - | 3,300 |
| **Lucy McTernan** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 10/10<br>4/4 | 3,200 | 5,000 |
| **John Watt** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 1 Chwefror 2013) | 1/2 | 900 | - |
| **Shirley Young** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 30 Tachwedd 2012) | 5/7 | 1,800 | 3,900 |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Cymru** | | | | |
| **Rona Aldrich** | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 1 Awst 2012) | 3/3 | 3,000 | - |
| **Graham Benfield OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 2,900 | 1,300 |
| **Gareth Newton** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 6,300 | 4,600 |
| **Janet Reed OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 6,000 | 700 |
| **Fran Targett OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 4,000 | 2,800 |
| **Mike Theodoulou** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 6,600 | 7,600 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 4/4 | - | - |
| **Barbara Wilding CBE, QPM, CCMI** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 6,300 | 3,800 |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Gogledd Iwerddon** | | | | |
| **Geraldine Campbell** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/6 | 4,900 | 2,000 |
| **Paul Cavanagh** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/6 | 5,800 | 5,100 |
| **Julie Harrison** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/6 | 3,500 | 1,300 |
| **Claire Keatinge** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 4/6 | 2,300 | 1,900 |
| **Peter Osbourne** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 5/6 | 3,400 | 1,200 |
| **Aelodau Eraill y Pwyllgor Archwilio a Risg** | | | | |
| **Hilary Gay** | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | 1,700 | 1,100 |
| **Angela Marshall** | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio a Risg | 2/4 | 1,600 | 1,500 |

# Cofrestr buddiannau aelodau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae'r buddiannau a ddatganwyd gan aelodau Bwrdd wedi'u nodi ar ein gwefan. Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer yr holl aelodau pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau ar gael trwy ysgrifennu at Bennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

Os bydd y Bwrdd neu bwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniad y gellir tybio'n rhesymol ei fod yn arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran dyfarnu grantiau i fudiadau ond hefyd o ran unrhyw berthnasoedd masnachol, bydd cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad yn cael ei wneud ar ddechrau'r cyfarfod a bod yr aelod yn gadael pan gaiff yr eitem berthnasol ei thrafod.

Pan fydd aelod Bwrdd neu bwyllgor gwlad wedi datgan buddiant cyfredol neu flaenorol mewn mudiad y mae'r pwyllgor hwnnw wedi gwneud dyfarniad iddo, mae'r buddiant hwnnw a manylion y dyfarniad wedi'i ddangos yn y tabl isod.

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i fudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tim Allan** | Cadeirydd, Young Enterprise Scotland | 1 dyfarniad o £841,396 | 1 dyfarniad o £8,225 | £215,987 | £20,664 |
| | Buddiant, Trossachs Area Community Transport | 1 dyfarniad o £419,398 | £- | £4,360 | £21,065 |
| | Is-gadeirydd, Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau | 1 dyfarniad o £500,000 | £- | £100,407 | £237,956 |
| **Graham Benfield** | Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 4 dyfarniad, cyfanswm o £2,771,961 | £- | £936,202 | £1,326,802 |
| **Alan Billings** | Yn briod ag Aelod Bwrdd Blaenorol, CAB Sheffield | £- | 2 ddyfarniad o £1,546,140 | £87,808 | £1,458,332 |
| **Geraldine Campbell** | Aelodaeth Gysgodol ac Aelod o'r Pwyllgor Safonau, Cyngor ar Bopeth Gogledd Iwerddon | 1 dyfarniad o £1,119,053 | £- | £311,843 | £267,168 |
| **Paul Cavanagh** | Ymgynghorydd, North West Community Network | 1 dyfarniad o £296,217 | £- | £97,809 | £54,599 |
| **Helen Forsyth** | Cyfarwyddwr Adfywio, Grŵp Places for People | 1 dyfarniad o £16,669,999 | 1 dyfarniad o £999,832 | £813,833 | £307,365 |
| | Cadeirydd, Berwickshire Housing Association (yn gysylltiedig â Scottish Borders Housing Association) | £- | 1 dyfarniad o £347,036 | £39,671 | £976,999 |
| **John Gartside** | Ymddiriedolwr ac ysgrifennydd cwmni, Tim Parry Jonathan Ball Trust | 1 dyfarniad o £299,986 | £- | £117,422 | £39,140 |
| | Cyfarwyddwr ac ymddiriedolwr, Warrington Wolves Community Learning and Sport Foundation | 1 dyfarniad o £128,794 | 1 dyfarniad o £6,650 | £7,150 | £- |
| **Geeta Gopalan** | Mentor i'r Prif Weithredwr, CBC Beyond Youth | 1 dyfarniad o £115,600 | 4 dyfarniad o £545,041 | £130,442 | £491,299 |
| **Julie Harrison** | Ymgynghorydd, Bridge Community Association | 1 dyfarniad o £446,033 | £- | £47,319 | £- |
| | Ymgynghorydd Cysylltiol, Community Evaluation NI | 1 dyfarniad o £84,835 | Cynnydd o £42,960 yn y dyfarniad | £13,524 | £39,936 |
| | Ymgynghorydd, East Belfast Independent Advice Centre | 1 dyfarniad o £500,000 | Cynnydd o £143,173 yn y dyfarniad | £124,494 | £305,072 |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i fudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Claire Keatinge** | Ymddiriedolwr a chadeirydd, Community Development and Health Network | 1 dyfarniad o £499,957 | £- | £104,214 | £130,381 |
| | Aelod panel, Community Foundation NI | £- | 2 ddyfarniad o £15,034,124 | £16,124 | £15,018,000 |
| | Aelod Pwyllgor GI, Rethink | 3 dyfarniad, cyfanswm o £1,391,675 | £- | £323,070 | £690,648 |
| **Hamira Khan** | Priod yn Aelod Bwrdd, NSPCC | £- | 1 dyfarniad o £1,073,780 | £- | £1,073,780 |
| **Maureen McGinn** | Cadeirydd ac ymddiriedolwr, Action on Smoking and Health Scotland | 1 dyfarniad o £511,046 | £- | £92,284 | £21,953 |
| | Llysgennad di-dâl, Tomorrow's People Trust | 3 dyfarniad, cyfanswm o £1,280,647 | 2 ddyfarniad o £942,707 | £596,351 | £1,040,048 |
| | Aelod Bwrdd Ymgynghorol, Prifysgol Caeredin | 1 dyfarniad o £457,134 | £- | £115,445 | £- |
| | Rôl ariannu flaenorol, The Venture Trust | £- | 1 dyfarniad o £696,354 | £168,969 | £527,385 |
| **Lucy McTernan** | Cyn-ddirprwy brif weithredwr, Scottish Council for Voluntary Organisations | 1 dyfarniad o £8,143,844 | £- | £912,034 | £- |
| | Prif weithredwr, Cyngor ar Bopeth Yr Alban, Cyngor ar Bopeth Angus | 1 dyfarniad o £790,945 | £- | £146,267 | £494,341 |
| | Cyfarwyddwr, Cyngor ar Bopeth Yr Alban (yn gysylltiedig â Shelter) | 4 dyfarniad o £1,637,235 | 2 ddyfarniad o £1,788,442 | £660,390 | £2,397,193 |
| **Peter Osborne** | Aelod Etholedig, Cyngor Bwrdeistref Castlereagh | 1 dyfarniad o £930,447 | £- | £188,315 | £329,527 |
| | Ymddiriedolwr, Extern and Extern Ireland | 1 dyfarniad o £494,111 | 1 dyfarniad o £26,058 | £120,014 | £400,955 |
| | Cyfarwyddwr anweithredol, Ymddiriedolaeth Iechyd De a Dwyrain Belfast | 1 dyfarniad o £1,487,850 | £- | £214,132 | £- |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i fudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Janet Reed** | Ymddiriedolwr, Cyngor Sgowtiaid Cymru | 1 dyfarniad o £218,078 | 1 dyfarniad o £499,358 | £101,526 | £592,400 |
| **Nat Sloane** | Aelod Pwyllgor Ymgynghorol, Social Finance Limited | 2 ddyfarniad, cyfanswm o £11,255,751 | £- | £1,382,497 | £6,444,850 |
| | Is-gadeirydd ac Ymddiriedolwr, Impetus (yn gysylltiedig â St Giles Trust a The Prisons Video Trust) | £- | 2 ddyfarniad o £584,154 | £24,062 | £560,092 |
| **Fran Targett** | Ymddiriedolwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 4 dyfarniad, cyfanswm o £2,771,961 | 1 dyfarniad o £141,524 | £936,202 | £1,468,356 |
| | Cyfarwyddwr, Cyngor ar Bopeth Cymru, YMCA Llanymddyfri | 1 dyfarniad o £195,302 | 1 dyfarniad o £5,000 | £53,541 | £36,332 |
| | Cyfarwyddwr Cymru, Cyngor ar Bopeth,Grŵp Cymdeithas Tai'r Rhondda | 2 ddyfarniad, cyfanswm o £457,173 | £- | £117,723 | £245,857 |
| | Cyfarwyddwr Cymru, Cyngor ar Bopeth, Canolfan Gynghori Ynys Môn | 1 dyfarniad o £76,437 | £- | £25,688 | £13,000 |
| | Cyfarwyddwr Cymru, Cyngor ar Bopeth, Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg | 1 dyfarniad o £51,222 | £- | £18,804 | £6,807 |
| | Cyfarwyddwr Cymru, Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn | £- | 1 dyfarniad o £465,114 | £- | £465,114 |
| **Mike Theodoulou** | Cadeirydd Gweithredol, Siambr Canolbarth a Gorllewin Cymru | 3 dyfarniad, cyfanswm o £1,531,667 | Cynnydd o £205,871 yn y dyfarniad 1 dyfarniad newydd o £351,108 | £423,051 | £1,027,677 |
| | Cadeirydd Gweithredol, Siambr Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Eglwys Gymunedol Tywi | 1 dyfarniad o £798,202 | £- | £557,366 | £216,848 |

| Aelod Bwrdd neu Bwyllgor | Natur y berthynas | Cyfanswm dyfarniadau presennol a wnaed i fudiad | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2012/13 | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Albert Tucker** | Cyfarwyddwr anweithredol, Grŵp Places for People | 1 dyfarniad o £16,669,999 | 1 dyfarniad o £999,832 | £813,833 | £976,999 |
| | Aelod o'r Pwyllgor Grantiau, People First Tameside | £- | 2 ddyfarniad o £288,018 | £43,722 | £244,296 |
| | Aelod o'r Pwyllgor Grantiau, London Sports Trust | £- | 1 dyfarniad o £186,360 | £16,591 | £169,769 |
| | Aelod o'r Pwyllgor Grantiau, Upper Room | 1 dyfarniad £256,854 | 1 dyfarniad o £196,209 | £62,568 | £310,319 |
| **Diana Whitworth** | Prif weithredwr ar y cyd, Grandparents Plus | 1 dyfarniad £316,974 | 1 dyfarniad £196,500 | £213,349 | £222,574 |
| **Barbara Wilding** | Is-lywydd, Age Cymru | 1 dyfarniad f £608,884 | 2 ddyfarniad o £77,000 | £213,150 | £450,705 |
| | Is-lywydd, Age Cymru (yn gysylltiedig â phortffolio o brosiectau'r rhaglen Lleisiau Lleol) | £- | £3,746,443 | £1,058 | £3,745,385 |
| **Geoffrey Wilkinson** | Cyfarwyddwr Anweithredol, Prosiect Eden | 2 ddyfarniad, cyfanswm o £4,044,401 | Cynnydd o £300,000 yn y dyfarniad 1 dyfarniad o £4,999,954 | £2,487,977 | £4,208,337 |
| **Shirley Young** | Darparwr Gwasanaethau Proffesiynol, Kindred (SNIP gynt) | £- | 1 dyfarniad o £372,800 | £17,505 | £355,295 |
| | Darparwr Gwasanaethau Proffesiynol, Cyngor Dinas Manceinion | 2 ddyfarniad, cyfanswm o £1,412,269 | Cynnydd o £6,612 yn y dyfarniad | £162,802 | £227,653 |
| | Darparwr Gwasanaethau Proffesiynol, Contact a Family SPACE | 7 dyfarniad, cyfanswm o £1,901,208 | 6 dyfarniad o £1,729,851 | £680,454 | £1,950,106 |
| | Mab yn gyflogai, Long Term Condition Alliance (yn gysylltiedig â Life Changes Limited) | £- | 1 dyfarniad o £49,061,106 | £49,061,106 | £- |

# Adroddiad tâl cydnabyddiaeth

## Tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

### Llywodraethu

Mae Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth y Bwrdd yn gyfrifol am:

- gytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- penderfynu ar y polisi tâl cydnabyddiaeth ar gyfer cyfarwyddwyr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, bydd y Prif Weithredwr, y Dirprwy Gyfarwyddwr, Adnoddau Dynol neu swyddogion eraill yn dod i gyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn amodol ar:

- gydymffurfio â'r arweiniad tâl a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet/Trysorlys EM sy'n berthnasol yn gyffredinol i dâl cydnabyddiaeth staff
- cymeradwyaeth gan Swyddfa'r Cabinet o amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- cymeradwyaeth gan Swyddfa'r Cabinet o unrhyw daliadau diswyddo i'r Prif Weithredwr.

## Polisi tâl cydnabyddiaeth ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol

Mae polisi tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr yn cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog gyda'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r mudiad. Wrth wneud hyn mae'r polisi'n ceisio rhoi tâl teg ar gyfer cyfrifoldebau a chyfraniadau unigol, gan ddarparu elfen o dâl ar sail perfformiad ar yr un pryd.

Mae cyfarwyddwyr gan gynnwys y Prif Weithredwr yn derbyn cyflog sylfaenol a thaliad ar sail perfformiad. Mae eu hamodau a thelerau perfformiad eraill yr un ag ar gyfer cyflogeion eraill y Gronfa. Mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r holl gyfarwyddwyr ar gytundebau parhaol sy'n destun tri mis o rybudd. Byddai unrhyw daliadau diswyddo'n cael eu talu'n unol â chynllun digolledu'r gwasanaeth sifil.

Mae'r cyfarwyddwyr gan gynnwys y Prif Weithredwr yn derbyn cynnydd blynyddol i'w cyflog sylfaenol ar yr un sail â chyflogeion eraill y Gronfa. Yn 2010 a 2011 nid oedd unrhyw gynnydd mewn tâl oherwydd y rhewiad ar dâl ar gyfer holl gyflogeion y sector cyhoeddus. Yn 2012 dyfarnwyd cynnydd o 1 y cant.

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i daliad ar sail perfformiad o hyd at 20 y cant o'i gyflog sylfaenol. Mae gan y cyfarwyddwyr eraill hawl i daliad o hyd at 8 y cant o'u cyflog sylfaenol. Mae taliadau ar sail perfformiad yn anghyfunol (hynny yw, nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cyflog sylfaenol ac mae'n rhaid eu hennill eto bob blwyddyn). Nid ydynt yn cael eu cynnwys mewn tâl pensiynadwy.

Nid yw unrhyw un o'r cyfarwyddwyr yn derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da. Mae treuliau cyfarwyddwyr a geir fel rhan o'u dyletswyddau'n cael eu had-dalu ar yr un sail â holl gyflogeion eraill y Gronfa.

Nid oedd unrhyw un o'r cyfarwyddwyr wedi derbyn unrhyw daliadau diswyddo yn ystod y flwyddyn.

Amlinellir manylion cyflogau sylfaenol, taliadau ar sail perfformiad a buddiannau pensiwn cyfarwyddwyr yn y tabl ar dudalen 87. Mae manylion eu treuliau ar gael ar y wefan, www.cronfaloterifawr.org.uk

## Lluosrifau tâl (Gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf (sef ein Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrif cyflogeion y Gronfa Loteri Fawr.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad, buddiannau mewn da a thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Band y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf yn ystod y flwyddyn oedd £155,000 i 160,000 (2011/12 £155,000-160,000), tâl cydnabyddiaeth canolrif cyflogeion y Gronfa oedd £27,000 (2011/12 £26,393) ac felly y gymhareb rhyngddynt oedd 5.8:1 (2011/12 6.0:1).

## Tâl cydnabyddiaeth (cyflog a thâl ar sail perfformiad) a buddiannau pensiwn (Gwybodaeth wedi'i harchwilio) gweithredwyr

| Gweithredwyr | 2012/13 Cyflog £'000 | 2012/13 Taliadau ar sail perfformiad £'000 | 2011/12 Cyflog £'000 | 2011/12 Taliadau ar sail perfformiad £'000 | Pensiwn cronnus a chyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed ar 31/03/13 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000 | *CETV ar 31/03/13 £'000 | *CETV ar 31/03/12 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Peter Wanless** (Prif Weithredwr) | 140-145 | 15-20 | 140-145 | 15-20 | 45-50 plws cyfandaliad o 140-145 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 2.5-5 | 767 | 712 | 15 |
| **Mark Cooke** (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol) | 100-105 | 0-5 | 95-100 | 5-10 | 15-20 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 264 | 208 | 31 |
| **Ceri Doyle** Cyfarwyddwr (Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu) | 95-100 | 0-5 | 95-100 | 5-10 | 25-30 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 350 | 319 | 11 |
| **Dharmendra Kanani** (Cyfarwyddwr, Lloegr) | 100-105 | 0-5 | 100-105 | 5-10 | 15-20 plws cyfandaliad o 50-55 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 2.5-5 | 261 | 233 | 12 |
| **Jackie Killeen** (Cyfarwyddwr, Yr Alban) | 70-75 | 0-5 | 65-70 | 0-5 | 10-15 plws cyfandaliad o 30-35 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0-2.5 | 151 | 134 | 7 |
| **Joanne McDowell** (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 70-75 | 0-5 | 65-70 | 0-5 | 15-20 plws cyfandaliad o 20-25 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0-2.5 | 256 | 232 | 8 |
| **Linda Quinn** (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata ) | 75-80 | 0-5 | 75-80 | 0-5 | 25-30 plws cyfandaliad o 75-80 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 2.5-5 | 561 | 543 | 13 |
| **John Rose** (Cyfarwyddwr, Cymru) | 70-75 | 0-5 | 65-70 | 0-5 | 10-15 plws 0 cyfandaliad | 0-2.5 plws 0 cyfandaliad | 149 | 129 | 10 |

* Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan ystyrir buddiannau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflogeion â thâl uwch (Gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer y staff, ar sail cyfwerth ag amser llawn, a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth, gan gynnwys taliadau ar sail tâl lle bo'n berthnasol, o £50,000 neu fwy dros y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigurau hyn yn eithrio'r cyfarwyddwyr:

| Cyfanswm tâl cydnabyddiaeth | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 Nifer o staff (CaALl) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 Nifer o staff (CaALl) |
|---|---|---|
| £50,000 - £54,999 | 14.3 | 9.7 |
| £55,000 - £59,999 | 6.6 | 5.6 |
| £60,000 - £64,999 | 3.0 | 4.0 |
| £65,000 - £69,999 | 8.0 | 6.0 |
| £70,000 - £74,999 | 0.6 | 1.0 |
| £80,000 - £84,999 | 1.0 | 1.0 |
| £90,000 - £94,999 | 1.0 | 1.0 |

## Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae tâl cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa wedi'i bennu gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet ('y Gweinidog').

Mae Cadeiryddion Bwrdd y DU a'r pwyllgorau gwlad yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y mae disgwyl iddynt eu rhoi i waith y Gronfa. Amlinellwyd y rhain yn eu llythyr penodi.

Cyn 22 Tachwedd 2012 derbyniodd aelodau Bwrdd a phwyllgor eraill lwfans dyddiol ar gyfer bob dydd y gwnaethant berfformio dyletswyddau i'r Gronfa. Y lwfans dyddiol oedd £218. O'r dyddiad hwnnw cymeradwyodd y Gweinidog drefniadau newydd a fyddai'n gweld yr holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer disgwyliedig o ddiwrnodau gwaith. Gallai aelodau presennol ddewis symud i'r sail newydd neu barhau i dderbyn tâl fesul dydd nes i'w penodiad cyfredol ddod i ben. Dangosir y cyfansymiau y gwnaethant ei dderbyn yn y tabl ar dudalen 77-79.

Gall y Gweinidog amrywio'r cyflogau dyddiol a'r gyfradd ddyddiol, ond mewn gwirionedd ni chafwyd unrhyw gynnydd ers 2010.

Nid yw aelodau Bwrdd a phwyllgor yn derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da neu ar ffurf buddiannau pensiwn. Mae eu treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau'n cael eu had-dalu ar yr un sail â chyflogeion y Gronfa.

**Ceri Doyle**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon Gweithredol
1 Gorffennaf 2013

# Adran chwech
## Ein datganiadau ariannol

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I SENEDD Y DU, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, SENEDD YR ALBAN A CHYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a'r Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o fewn y polisïau cyfrifo a amlinellwyd y tu mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth y mae'r adroddiad yn disgrifio ei fod wedi'i archwilio.

### Cyfrifoldebau priodol y Gronfa, y Swyddog Cyfrifon a'r Archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifon, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifon yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn darparu barn wir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a'r Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Cynhaliais fy arolwg yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn ymwneud â dod o hyd i dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrhad rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: P'un a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Gronfa Loteri Fawr ac yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wneir gan y Gronfa Loteri Fawr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i adnabod anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwilir. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol, ystyriaf y goblygiadau mewn perthynas â'm tystysgrif i.

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2013 ac o'i gwarged ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a'r Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008, a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd fel rhan ohonynt.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau un, pedwar a phump ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cyfateb i'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi'u cadw; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifo; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

5 Gorffennaf 2013

# Cyfrifon Blynyddol

## Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm Loteri** | | | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 13 | 774,185 | 770,917 |
| Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 4,143 | 5,550 |
| Llog banc a llog arall a dderbyniwyd | 2 | 26 | 27 |
| Adennill arian grant | 2 | 3,067 | 3,141 |
| | | 781,421 | 779,635 |
| **Incwm cyfrifon segur** | | | |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | | 50,000 | 47,630 |
| Llog banc a dderbyniwyd ar arian cyfrifon segur | | 32 | 251 |
| | | 50,032 | 47,881 |
| **Incwm arall** | 2 | 7,235 | 6,456 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 838,688 | 833,972 |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant ar raglenni Loteri** | | | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 3 | 587,507 | 759,590 |
| Llai ymrwymiadau wedi darfod neu wedi'u diddymu | 3 | (6,494) | (9,383) |
| Trosglwyddiad i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd | | 79,983 | 171,728 |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 4 | 6,074 | 3,421 |
| | | 667,070 | 925,356 |
| **Gwariant ar y rhaglen cyfrifon segur** | | | |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | | 49,341 | 37,990 |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 5 | 48,052 | 48,960 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur | 5 | 501 | 1,970 |
| Costau gweithredu a ailgodir | 5 | 7,235 | 6,456 |
| Ailstrwythuro a buddsoddi | 8 | 1,087 | 654 |
| | | 56,875 | 58,040 |
| **Cyfanswm gwariant** | | 773,286 | 1,021,386 |
| **Gwarged/(diffyg) cyn treth** | | 65,402 | (187,414) |
| Treth | 9 | 983 | (159) |
| **Gwarged/(diffyg) ar ôl treth** | | 66,385 | (187,573) |

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Incwm/gwariant cynhwysfawr arall** | | | |
| Cynnydd/ (gostyngiad) ar ailbrisio buddsoddiadau | 13 | 147 | 8,652 |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) net cynhwysfawr** | | 66,532 | (178,921) |
| **Arian wrth gefn** | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2012 | | (536,232) | (357,311) |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) net cynhwysfawr | | 66,532 | (178,921) |
| **Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2013** | | (469,700) | (536,232) |

Nid oes gan y Gronfa unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir uchod. Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi dod i ben.

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

**Arian wrth gefn cyffredinol**

| | | |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | (536,232) | (357,311) |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | 66,532 | (178,921) |
| Balans a ddygwyd ymlaen | (469,700) | (536,232) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 121 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Sefyllfa Ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 3,480 | 3,773 |
| Asedau anniriaethol | 11 | 18,234 | 11,774 |
| | | 21,714 | 15,547 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnachu ac arian arall a dderbynnir | 12 | 25,554 | 28,706 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 38,682 | 22,094 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 354,421 | 398,843 |
| | | 418,657 | 449,643 |
| **Cyfanswm asedau** | | 440,371 | 465,190 |
| **Ymrwymiadau cyfredol** | | | |
| Masnachu ac arian arall sy'n daladwy | 14 | (10,884) | (13,179) |
| Ymrwymiadau grant | 16 | (369,632) | (473,063) |
| | | (380,516) | (486,242) |
| Asedau anghyfredol llai ymrwymiadau net cyfredol | | 59,855 | (21,052) |
| **Ymrwymiadau anghyfredol** | | | |
| Masnachu ac arian arall sy'n daladwy | 14 | (1,368) | (1,541) |
| Ymrwymiadau grant | 16 | (521,478) | (506,394) |
| | | (522,846) | (507,935) |
| **Darpariaethau** | 15 | (6,709) | (7,245) |
| Asedau llai ymrwymiadau | | (469,700) | (536,232) |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | |
| Arian wrth gefn y Loteri | | (477,811) | (544,153) |
| Arian wrth gefn cyfrifon segur | | 8,111 | 7,921 |
| | | (469,700) | (536,232) |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 5 Gorffennaf 2013.

**Ceri Doyle**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifon Gweithredol

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 121 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Lifoedd Arian

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | | 822,897 | 909,682 |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd (Cyfrifon Segur) | | 50,000 | 47,630 |
| Taliadau sy'n gysylltiedig â Chyfrifon Segur | | (44,740) | (39,863) |
| Adennill grantiau ac arian o ffynonellau eraill | | 3,067 | 3,141 |
| Incwm arall | | 3,068 | 6,463 |
| Llog a dderbyniwyd | | 58 | 278 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (19,072) | (21,564) |
| Taliadau i weithwyr ac ar eu rhan | | (34,506) | (34,381) |
| Taliadau i dderbynyddion grantiau | | (696,218) | (665,382) |
| Trosglwyddiad i OLDF | | (79,983) | (171,728) |
| Arian a dalwyd ac a ddelir gan drydydd partïon | | 18,873 | (11,598) |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (5) | (8) |
| Llif arian net o weithgareddau gweithredu | 19 | 23,439 | 22,670 |
| | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (287) | (540) |
| Taliadau i gaffael asedau anniriaethol | | (6,460) | (6,537) |
| Addasiad i'r balans agoriadol | | (104) | |
| | | (6,851) | (7,077) |
| | | | |
| **Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian parod** | | 16,588 | 15,593 |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | 38,682 | 22,094 |
| Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | (22,094) | (6,501) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod** | | 16,588 | 15,593 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 121 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2012/13 a gyhoeddir gan Drysorlys EM a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 36A (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo y bernir mai dyna'r un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Gronfa Loteri Fawr at ddiben darparu golwg wir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer 2012/13 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol berthnasol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

## 1.1 Confensiwn cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol. Ystyrir bod cost gyfredol yn ddirprwy ar gyfer gwerth teg.

Ar gyfer 2012/13 nid ydym yn credu bod y costau cyfredol yn sylweddol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, FrEM a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol pan fo'n briodol.

## 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes cyfredol. Ymgymerwyd ag ymrwymiadau grantiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl ystyried gofynion arian parod derbynyddion grantiau (gellir ymestyn y rhain dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagamcaniadau incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys trosglwyddo arian i Gronfa Ddosbarthu Olympaidd y Loteri. Gyda'r ymagwedd hon at incwm y dyfodol, fel mater o bolisi cyhoeddus mae'r Bwrdd yn cymryd gweithrediad parhaus y Loteri Genedlaethol yn ganiataol. Mae'r Bwrdd wedi cymryd effaith y newidiadau i'r gyfran incwm y cytunwyd arni gan Senedd y DU i ystyriaeth.

## 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balansau hyn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2013, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol ac yn y dyfodol.

## 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Dros gyfnod y brydles |
| Cyfarpar TG | 3 blynedd |
| Offer, dodrefn a ffitiadau swyddfa | 3 blynedd |

## 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', cydnabyddir costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r cynnyrch meddalwedd rheoli grantiau canfyddadwy ac unigryw fel ased anniriaethol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogeion. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol o'r asedau rydym yn amorteiddio ar sail linol dros y bywyd defnyddiol wedi'i amcangyfrif fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Meddalwedd system ariannu | 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 mlynedd |

Ar gyfer asedau sy'n cael eu hadeiladu, nid ydym yn amorteiddio.

## 1.6 Cronfa bensiwn

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio. Telir buddiannau pensiwn gan PCSPS. Mae cyfrifoldebau'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u cyfyngu i gost a bennir gan Brif Actwari'r Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn.

## 1.7 Prydlesi gweithredol

### Deiliad prydles

Dosbarthwn brydlesi nad oes gennym unrhyw rai o risgiau a manteision perchnogaeth oddi tanynt fel prydles weithredol yn unol ag IAS 17 'Prydlesi'. Codir costau prydlesi gweithredol a ddelir gan y Gronfa ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr (net o gyfnodau di-rent) dros y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Mae buddiannau cyfnodau di-rent ar brydlesi wedi'u dosrannu dros y cyfnod hyd at ddiwedd y brydles ar sail linol.

Ar 31 Mawrth 2013, mae holl brydlesi eiddo'r Gronfa wedi'u dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Ni ellir dyrannu taliadau prydles ar gyfer eiddo'n ddibynadwy rhwng y cydrannau tir ac adeiladau. Fodd bynnag, mae'n glir nad yw dwy elfen y trefniadau prydles yn trosglwyddo holl risgiau a manteision perchnogaeth yn sylweddol i'r Gronfa ac felly mae'r ddwy elfen wedi cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredu.

### Prydleswr

Pan ydym wedi darparu cymhelliant di-rent neu gymhelliant arall i denant mae cost y cymhelliant hwn yn cael ei ddosrannu dros y cyfnod i bwynt y toriad rhent neu ddyddiad dod i ben y brydles ar sail linol , p'un bynnag a ddaw yn gyntaf.

## 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa ddosbarthu grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd â'r nod o dalu am wariant sy'n elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

### Cynigion ac ymrwymiadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan ei bod yn ofynnol gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiadau caled fel swm y grant sy'n daladwy dros gyfnod y cynllun yr ydym wedi llunio cytundeb ysgrifenedig ar ei gyfer gyda'r ymgeisydd. Codir ymrwymiadau caled ar y datganiad incwm yn ystod y flwyddyn pan lofnodir y contractau. Dangosir yr ymrwymiadau caled ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel rhwymedigaeth, ac mae'r balans yn cael ei ostwng wrth i daliadau gael eu rhyddhau i dderbynyddion y grantiau.

Rydym yn diffinio ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Loteri Fawr i ariannu cynllun a chynnig grant a wneir i'r ymgeisydd nad yw'r ymgeisydd wedi'i dderbyn yn ffurfiol eto. Dangosir y rhain fel nodyn i'r cyfrifon ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### Grantiau sy'n cael eu had-dalu a'u hadennill

Mae ein hamodau grant yn caniatáu adennill ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan fydd y deiliad grant yn methu â chydymffurfio ag amodau a thelerau neu ble mae gwariant gwirioneddol gan dderbynnydd yn dod o dan lefel y grant a dalwyd yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm ar ôl derbyn yr ad-daliad.

### Gwariant uniongyrchol ar raglenni

Rydym yn cofnodi costau a gafwyd wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grantiau'n unol â'u trefniadau polisi o dan Adran 43 Deddf y Loteri Uniongyrchol fel 'gwariant uniongyrchol ar raglenni'. Er enghraifft strwythurau cefnogi ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a sicrhau ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grantiau.

## 1.9 Treth

Codir Treth Gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Codir y dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol.

Rydym wedi'n cofrestru ar gyfer treth ar werth (TAW). Codir ac adenillir TAW ar ein gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes a amlinellir mewn deddfwriaeth TAW. Mae hyn yn cynnwys llawer o'n gweithgareddau trydydd parti.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon ar-alw a ddelir gyda banciau masnachol.

## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Gronfa'n adnabod darpariaeth yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

1. mae rhwymedigaeth gyfreithiol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol
2. mae'n debygol y bydd angen adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth, a
3. gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Ar hyn o bryd mae gennym ddarpariaethau ar gyfer ailstrwythuro costau a thrafodion prydles beichus.

## 1.12 Rheoli grantiau

### Partneriaid dirprwyedig

Rydym wedi ymrwymo i gytundebau lle mae nifer o gyrff dirprwyedig yn bwriadu gweithredu fel mudiadau arweiniol wrth gyflwyno cynlluniau grantiau. Wrth wneud hyn rydym wedi dirprwyo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau am grantiau statudol i fudiadau eraill. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu am ymrwymiadau caled nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn fel ased cyfredol nes ein bod yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grant wedi'u bodloni.

### Ymddiriedolaethau

Mae'r Gronfa wedi gwneud dyfarniadau i gwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd sy'n gweithredu fel unig ymddiriedolwr mewn ymddiriedolaethau elusennol newydd. Cofnodir ariannu a ddyfernir i'r ymddiriedolaethau hyn fel rhwymedigaeth nes ein bod yn gwneud taliadau i'r ymddiriedolaethau. Nid yw'r symiau a ddelir gan yr ymddiriedolaeth wedi'u dangos fel asedau.

### Cynlluniau ar y cyd

Os ydym wedi ymrwymo i gynllun ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau caled a wneir mewn perthynas â'r cynllun ar y cyd ar sail ein cyfran o'r cynllun. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i'r cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau caled fel ased cyfredol nes ein bod yn derbyn cadarnhad bod yr ymrwymiadau grant wedi'u bodloni. Mae costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar y swm a godir ar y Gronfa.

## 1.13 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa'n cadw rhai asedau sy'n perthyn i drydydd parti fel ceidwad. Nid yw'r rhain wedi'u cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gennym fuddiant uniongyrchol ynddynt. Dangosir y balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yn nodyn 25.

## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa'n adolygu pob contract yn erbyn IAS 39 mewn perthynas â chydnabod a mesur offerynnau ariannol. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yr ystyrir eu bod yn ariannol eu natur wedi'u hamlinellu yn nodyn 20. Nid ydym yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth.

## 1.15 Adrodd cylchrannol

Yn unol ag IFRS 8 mae Bwrdd y Gronfa, fel 'Prif Gorff Penderfynu Gweithredol', wedi pennu ein bod yn gweithredu mewn pum segment daearyddol materol er mwyn dosbarthu ariannu ar draws Prydain Fawr - y DU, Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gennym ffynhonnell incwm sylweddol gan y Loteri, ac mae'r fformat adrodd cylchrannol yn adlewyrchu ein strwythur rheoli ac adrodd mewnol. Gweithredir rhai rhaglenni ar draws y DU gyfan ac adroddir yn annibynnol ar y rhain i'r pedair gwlad.

## 1.16 Cyfrifon segur

Mae'r arian cyfrifon segur wedi'u cymryd i ystyriaeth o dan yr un polisïau ag arian Loteri, gyda'r symiau wedi'u gwahaniaethu yn y datganiadau ariannol hyn. Er eglurder, mae datganiadau ariannol memorandwm sy'n ymwneud ag arian cyfrifon segur yn unig wedi'u cynnwys ar dudalen 122-123.

## 1.17 Safonau Adrodd a gyhoeddwyd nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

Nid yw FReM y Trysorlys yn mynnu bod y Safonau a'r Dehongliadau a ganlyn yn cael eu cymhwyso yn 2012/13. Ni fyddai cymhwyso'r Safonau fel y'u diwygir yn cael effaith faterol ar y cyfrifon ar gyfer 2012/13 petaent yn cael eu cymhwyso yn ystod y flwyddyn honno.

| | |
|---|---|
| **IAS 1** | Cyflwyno datganiadau ariannol (Incwm Cynhwysfawr Arall)<br>– effeithiol 2013/14 |
| **IAS 12** | Trethi Incwm (diwygiad)<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IAS 19** | Buddiannau ôl-cyflogaeth (pensiynau)<br>– effeithiol 2013/14 |
| **IAS 27** | Datganiadau Ariannol ar Wahân<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IAS 28** | Buddsoddiadau mewn Cymdeithion a Mentrau ar y Cyd<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS 9** | Offerynnau Ariannol<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS10** | Datganiadau Ariannol Cyfunedig<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS11** | Trefniadau ar y Cyd<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS12** | Datgelu Buddiannau mewn Endidau Eraill<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IFRS 13** | Mesur Gwerth Teg<br>– yn amodol ar ymgynghori |
| **IPSAS32** | Trefniad Consesiynau Gwasanaeth<br>– effeithiol 2013/14 |

## 2. Incwm

Mae adenillion grant o £3,067,000 (2011/12 £3,141,000) yn cynrychioli incwm a ddychwelwyd gan ddeiliaid grantiau (gweler nodyn 1.8).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Llog banc a llog arall a dderbyniwyd** | | |
| Llog banc a dderbyniwyd | 26 | 27 |
| | 26 | 27 |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm arall** | | |
| Incwm o gyflwyno ariannu nad yw'n dod o'r Loteri | 4,821 | 4,112 |
| Incwm o gyflwyno arian y Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 289 | 310 |
| Incwm rhent | 1,975 | 1,828 |
| Arall | 150 | 206 |
| | 7,235 | 6,456 |

Mae incwm arall yn gysylltiedig ag ailgodi taliadau gan y Gronfa ar gyfer rheoli rhaglenni grant ar ran mudiadau eraill. Mae hefyd yn cynnwys incwm rhent pan fydd y Gronfa'n isosod eiddo.

## 3. Gwariant ar raglenni

Mae IFRS 8 yn gofyn am ddatgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy. Mae'r Gronfa'n rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau fesul cylchrannau daearyddol. Fodd bynnag ni reolir nad adroddir ar gostau gweithredu ar sail gylchrannol.

Nid ydym yn dyrannu incwm ond yn rheoli pob cyfran ddaearyddol trwy bennu cyllidebau grant. Fel yr amlinellir yn adran pedwar yr adroddiad blynyddol, pennir cyllidebau grant yn seiliedig ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae'r Bwrdd wedi dyrannu ariannu dangosol i bob gwlad ar gyfer Cynllun Strategol 2009-2015 ar ôl i gyfran o'r gyllideb, hyd at 10 y cant, cael ei brigdorri ar gyfer rhaglenni'r DU. O'r gyllideb sy'n weddill mae Lloegr yn derbyn 77.5 y cant; Yr Alban 11.5 y cant; Cymru 6.5 y cant a Gogledd Iwerddon 4.5 y cant. Dros gyfnod y cynllun mae gan bob pwyllgor gwlad ddisgresiwn, o fewn cyfyngiadau penodol, ar ddarwahanu penderfyniadau grant. Mae'r tabl isod yn amlinellu hymrwymiadau grant wedi'u codi ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | | | | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | DU | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 38,028 | 326,076 | 123,452 | 41,125 | 58,826 | 587,507 | 759,590 |
| Llai ymrwymiadau wedi darfod ac wedi'u diddymu | (92) | (2,020) | (2,567) | (1,273) | (542) | (6,494) | (9,383) |
| Ymrwymiadau grant net a wnaed | 37,936 | 324,056 | 120,885 | 39,852 | 58,284 | 581,013 | 750,207 |

## 4. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion trydydd parti a wnaed fel rhan o gontract yn hytrach na dyfarniad grant.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau | 6,074 | 3,421 |
| | 6,074 | 3,421 |

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i'r contractau a ganlyn a fydd yn darparu cefnogaeth yn uniongyrchol i fuddiolwyr. Cyfrifir am y gwariant pan ddarperir y gwasanaethau sy'n destun y contract. Ar 31 Mawrth roedd yr ymrwymiadau ariannol a ganlyn yn weddill ar y contractau hyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Y Cyngor Mudiadau Gwirfoddol Cenedlaethol | 5,287 | 0 |
| Prosiectau Eden – Y Cinio MAWR | 3,905 | 0 |
| 22 Contract (2011/12 18) i gyflwyno'r rhaglen Sgiliau Bywyd yng Nghymru | 3,063 | 4,406 |
| 24 Contract (2011/12 25) ar gyfer contractau cefnogi a datblygu eraill | 6,671 | 10,809 |

## 5. Costau gweithredu

| | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | Costau gweithredu a ailgodir | Costau gweithredu dosbarthu arian cyfrifon segur | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 Cyfanswm costau gweithredu | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 Cyfanswm costau gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tâl cydnabyddiaeth gweithwyr | 30,914 | 3,311 | 430 | 34,655 | 33,194 |
| Teithio a threuliau: | | | | | |
| - Staff | 1,550 | 61 | 1 | 1,612 | 1,587 |
| - Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau | 48 | - | - | 48 | 59 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredu: | | | | | |
| - Eiddo | 2,423 | 2,561 | 27 | 5,011 | 5,164 |
| - Arall | (164) | - | - | (164) | (96) |
| Costau llety eraill | 3,027 | - | - | 3,027 | 2,817 |
| Costau cyfathrebu | 1,746 | 249 | 23 | 2,018 | 2,101 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 491 | 58 | - | 549 | 714 |
| Gwerthuso rhaglenni | 621 | 161 | - | 782 | 689 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 841 | 1 | - | 842 | 1,052 |
| Ffioedd proffesiynol | 795 | 751 | - | 1,546 | 1,909 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio | 109 | - | - | 109 | 104 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith ardystio grantiau | 3 | 3 | - | 6 | 24 |
| Costau isadeiledd TG | 1,701 | 1 | - | 1,702 | 2,172 |
| Costau a ailgodir gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet | - | - | - | - | 1,630 |
| Costau eraill | 948 | 76 | 20 | 1,044 | 551 |
| TAW | 2,315 | 2 | - | 2,317 | 3,101 |
| Eitemau anariannol: | | | | | |
| - Dibrisio | 684 | - | - | 684 | 614 |
| - Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - | - | - | - |
| | 48,052 | 7,235 | 501 | 55,788 | 57,386 |

## 6. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein mesur perfformiad ariannol allweddol yw'r gyfran o'n cyfran o incwm Loteri yr ydym yn ei wario ar ei ddosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian Loteri ac arian nad yw'n dod o'r Loteri ar gyfer mudiadau eraill ac eiddo a isosodir. Rydym hefyd yn eithrio costau buddsoddiadau unigol i gyflawni effeithlonrwydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, cost ddosbarthu ein cyfran o incwm y Loteri oedd 6.1 y cant o'r incwm hwnnw (2011/12 6.3 y cant).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 48,052 | 48,960 |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 774,185 | 770,917 |
| Incwm buddsoddi | 4,143 | 5,550 |
| | 778,328 | 776,467 |
| Canran | 6.2% | 6.3% |

## 7. Nifer y staff a chostau staff

Roedd cyfanswm cost y staff, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 28,287 | 26,951 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,309 | 2,196 |
| Costau pensiwn eraill | 4,765 | 4,740 |
| Costau staff asiantaeth | 634 | 691 |
| Cyflogau wedi'u cyfalafu | (1,340) | (1,384) |
| | 34,655 | 33,194 |

Secondiwyd rhai staff sydd wedi'u cynnwys uchod i fudiadau eraill, y mae adenillion o £97,599 ar eu cyfer wedi'u cynnwys mewn incwm arall. Mae cyflog a hawliau pensiwn aelodau uwch dîm rheoli a Bwrdd y Gronfa wedi'u cynnwys uchod; mae manylion wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth. Nid yw'n bosib nodi nifer a chost yr aelodau staff o fewn y cyfanswm nad ydynt wedi'u cyflogi ar sail barhaol, ac eithrio'r rhai a gyflogir drwy asiantaethau.

Mae cyflogau wedi'u cyfalafu'n ymwneud â phobl sy'n gweithio ar y prosiect BPR ac maent wedi'u cynnwys mewn Meddalwedd Ariannu sy'n cael ei ddatblygu o dan Asedau Anniriaethol (nodyn 11).

Roedd nifer cyfartalog y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro yn gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer cyfartalog y staff dros dro (CaALl) | Nifer cyfartalog y cyflogeion (CaALl) | Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALl) | Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALl) |
| Gwneud grantiau | 20 | 552 | 572 | 581 |
| Cefnogi cwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 4 | 237 | 241 | 176 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 4 | 140 | 144 | 164 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | | 23 | 23 | 30 |
| | 28 | 952 | 980 | 951 |

Ar 31 Mawrth 2013 roedd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflogi 988 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (2011/12 955). Roedd hyn yn cynnwys 40 o gyflogeion dros dro cyfwerth ag amser llawn (2011/12 33).

## Pecynnau ymadael

Er nad yw cyflogeion y Gronfa'n weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar wedi'u cyfrifo yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Mae costau'r buddion hyn wedi'u talu gan y Gronfa ac nid o Gronfeydd y Gwasanaeth Sifil na'r Trysorlys.

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer yr diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau |
|---|---|---|---|
| <£10,000 | 4 (0) | 0 (0) | 4 (0) |
| £10,000 - £25,000 | 6 (9) | 0 (0) | 6 (9) |
| £25,001 - £50,000 | 4 (3) | 0 (0) | 4 (3) |
| £50,001 - £100,000 | 3 (1) | 0 (0) | 3 (1) |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul math | 17 (13) | 0 (0) | 17 (13) |
| Cyfanswm cost £'000 | 410 (283) | 0 (0) | 410 |

Y ffigurau mewn cromfachau yw cymaryddion y flwyddyn flaenorol.

## 8. Costau ailstrwythuro a buddsoddi

Archwiliwn ein strwythur drwy'r amser ac rydym yn gwneud newidiadau er mwyn cyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n addas i'r diben. Fel rhan o'r broses hon, yn ystod 2012/13 roedd costau'r ailstrwythuro yn cynnwys taliadau terfynu a thrafodion eiddo.

Rydym wedi buddsoddi mewn adolygiad o'n prosesau busnes, gan gynnwys system rheoli ariannu newydd i wella gwasanaeth cwsmeriaid a chynyddu effeithlonrwydd. Mae costau uniongyrchol staff sy'n gweithio ar y prosiect hwn, ynghyd â chaledwedd a thrwyddedau wedi'i gyfalafu'n unol ag IAS 16 'Eiddo, peiriannau a chyfarpar' ac IAS 38 'Asedau anniriaethol' (gweler nodiadau 10 a 11).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 809 | 237 |
| Rhesymoli eiddo | 93 | 170 |
| Adolygu ailbeiriannu prosesau busnes | 185 | 247 |
| | 1,087 | 654 |

## 9. Treth

Mae'r Gronfa'n talu treth gorfforaethol dim ond ar log banc ac unrhyw log arall a dderbynnir.

Mae credyd treth net o £983,000 (2011/12 £159,000 yn daladwy) ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag ad-daliad Treth Gorfforaethol o £988,000 ar dreth a dalwyd yn flaenorol ar log a dderbyniwyd mewn perthynas â grantiau ynni adnewyddadwy wedi'u canslo a wnaed gennym.

Nid yw incwm buddsoddi a gynhyrchir gan falansau sy'n cael ei gadw a'i fuddsoddi gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ein rhan yn drethadwy.

## 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau prydlesol £'000 | TG £'000 | Cyfarpar/ dodrefn a ffitiadau swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 6,820 | 2,450 | 300 | 9,570 |
| Ychwanegiadau | - | 287 | - | 287 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 6,820 | 2,737 | 300 | 9,857 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 3,818 | 1,688 | 291 | 5,797 |
| Tâl am y flwyddyn | 356 | 215 | 9 | 580 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 4,174 | 1,903 | 300 | 6,377 |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 2,646 | 834 | - | 3,480 |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 6,815 | 1,915 | 300 | 9,030 |
| Ychwanegiadau | 5 | 535 | - | 540 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 6,820 | 2,450 | 300 | 9,570 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2011 | 3,452 | 1,479 | 252 | 5,183 |
| Tâl am y flwyddyn | 366 | 209 | 39 | 614 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 3,818 | 1,688 | 291 | 5,797 |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 3,002 | 762 | 9 | 3,773 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 3,363 | 436 | 48 | 3,847 |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydles fer gyda phrydles sy'n dod i ben o fewn llai nag 20 mlynedd.

## 11. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd system ariannu - o dan ddatblygiad £'000 | Gwefan £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost Ar 1 Ebrill 2012 | 11,526 | 248 | 11,774 |
| Ychwanegiadau | 6,350 | 110 | 6,460 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 17,876 | 358 | 18,234 |

| | Meddalwedd system ariannu - o dan ddatblygiad £'000 | Gwefan £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost Ar 1 Ebrill 2011 | 5,237 | - | 5,237 |
| Ychwanegiadau | 6,289 | 248 | 6,537 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 11,526 | 248 | 11,774 |

## 12. Masnachu ac arian arall a dderbynnir

| | Ar 31 Mawrth 2013 £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Yn cael ei ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu ymrwymiadau grantiau | 11,852 | 20,024 |
| Adneuon a blaensymiau | 4,042 | 263 |
| Treth Gorfforaethol | 988 | - |
| Taliadau eraill i'w derbyn | 2,252 | 3,641 |
| | 19,134 | 23,928 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 6,420 | 4,778 |
| | 25,554 | 28,706 |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r balansau sydd i'w derbyn fel a ganlyn: | | |
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff eraill y Llywodraeth | 12,069 | 3,580 |
| Symiau sy'n ddyledus gan awdurdodau lleol | 681 | 22 |
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff y tu allan i'r Llywodraeth | 12,804 | 25,104 |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | Blwyddyn a ddaeth 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2012** | | 398,843 |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 774,185 | |
| Incwm buddsoddi o NLDF | 4,143 | |
| Arian a dynnwyd i lawr o NLDF | (822,897) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (44,569) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2013** | | 354,274 |
| | | |
| Enillion buddsoddi heb eu gwireddu | | 147 |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2013** | | 354,421 |

Mae'r Gronfa'n derbyn cyfran o'r arian a delir gan Camelot Group plc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl tynnu costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddo ddefnyddio ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyledion Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

## 14. Masnachu ac arian arall sy'n daladwy

| | Ar 31 Mawrth 2013 £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 261 | 127 |
| Treth a nawdd gymdeithasol arall | 789 | 1,143 |
| Arian masnachu sy'n daladwy | 412 | 885 |
| Yn ddyledus i bartner ar y cyd ar gyfer talu ymrwymiadau grant | 2,614 | 6,516 |
| Arian arall sy'n daladwy | 3,965 | 869 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,843 | 3,639 |
| | 10,884 | 13,179 |
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn** | | |
| Taliadau, gohiriadau ac incwm gohiriedig | 1,368 | 1,541 |
| **Cyfanswm** | 12,252 | 14,720 |
| | | |
| Mae'r balans canlynol sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'i gynnwys yn y symiau uchod: | | |
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill y Llywodraeth | 3,665 | 7,820 |
| Symiau sy'n ddyledus i Awdurdodau Lleol | 83 | - |
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff y tu allan i'r Llywodraeth | 8,504 | 6,900 |
| | 12,252 | 14,720 |

## 15. Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a thaliadau

| | Taliadau prydles anochel £'000 | Cyfraniadau ymddeol yn gynnar £'000 | Darpariaethau colli swyddi £'000 | Cyfanswm darpariaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2012 | 5,693 | 635 | 917 | 7,245 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | 1,125 | - | 767 | 1,892 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwydd | (506) | (192) | (421) | (1,119) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | (1,071) | (144) | (94) | (1,309) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2013 | 5,241 | 299 | 1,169 | 6,709 |

### Taliadau prydles beichus

Rydym wedi is-osod rhan o'n heiddo yn Llundain i dri thenant. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir ar ein tenantiaid a'r hyn y mae'r Gronfa wedi'i gontractio i'w dalu i'w landlordiaid. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer y gwahaniaeth yn rhent y farchnad gan ddefnyddio cyfradd chwyddiant dybiedig o 3 y cant. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwireddu dros 12 mlynedd.

Ar 31 Mawrth 2013 rydym wedi rhoi disgownt ar gyfer taliadau prydles anochel gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a gynghorwyd gan Drysorlys EM, sef 2.2 y cant.

### Ailstrwythuro: ymddeol, diswyddo a chefnogaeth

O ganlyniad i ailstrwythuro yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd cynharach, nodwyd swyddi penodol nad oes eu hangen bellach, neu sydd wedi'u hadleoli. O ganlyniad mae staff wedi cael eu diswyddo neu wedi ymddeol yn gynnar.

- Pan fydd staff sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar yn gwneud hynny, mae'r Gronfa dan rwymedigaeth gontract i fodloni rhai cyfraniadau pensiwn nes bod y staff hyn yn cyrraedd eu dyddiad ymddeol statudol. Darperir brasamcan o'r cyfraniadau hyn yn y dyfodol. Bydd taliadau yn erbyn y ddarpariaeth hon yn parhau am hyd at ddeng mlynedd.
- Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer costau diswyddo wedi'u hamcangyfrif ar gyfer staff hynny y mae'r Gronfa wedi bod yn ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2012. Gwneir taliadau diswyddo'n unol â threfniadau a thelerau cytundebol a amlinellir yn nhrefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu dros y flwyddyn ariannol nesaf hyd at 2012-13.
- Mae gan gyflogeion parhaol hawl fel rhan o'u contract i £500 wrth gael eu diswyddo, mewn perthynas â phrynu cyrsiau hyfforddi neu ddeunyddiau ar gyfer datblygu o ran cyflogaeth yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i ddarparu hefyd.

## 16. Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu (ymrwymiadau caled)

| | Ar 31 Mawrth 2013 £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau caled** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2012 | | 979,457 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 595,488 | |
| Ymrwymiadau wedi darfod ac wedi'u diddymu | (6,494) | |
| Ymrwymiadau grant a fodlonwyd | (677,341) | |
| Symudiad net mewn ymrwymiadau caled | | (88,347) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2013 | | 891,110 |

## Ymrwymiadau caled sy'n heneiddio

Mae balans yr ymrwymiad caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus i dderbynyddion yn ystod y cyfnodau a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn un flwyddyn | 369,632 | 473,063 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu dros fwy nag un flwyddyn | 521,478 | 506,394 |
| | 891,110 | 979,457 |

Mae'r balansau a ganlyn sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'u cynnwys yn y symiau uchod.

| | | |
|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff eraill y Llywodraeth | 20,337 | 17,213 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff awdurdodau lleol | 91,974 | 74,398 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i fudiadau'r gwasanaeth iechyd gwladol | 10,054 | 4,219 |

## 17. Ymrwymiadau meddal

Mae ymrwymiadau meddal yn cynrychioli cynigion grant nad ydynt wedi'u derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig eto gan yr ymgeisydd. Gan hynny, nid yw'r cynigion hyn yn cael eu cydnabod fel ymrwymiad ariannol o fewn y cyfrifon hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2013 £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau meddal** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2012 | | 59,691 |
| Ymrwymiadau meddal a wnaed | 581,448 | |
| Ymrwymiadau meddal di-rym neu wedi'u diddymu | (3,962) | |
| Ymrwymiadau meddal a drosglwyddwyd i ymrwymiadau caled | (587,507) | |
| Symudiad Net mewn ymrwymiadau meddal | | (10,021) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2013 | | 49,670 |

## 18. Cynlluniau ar y cyd

### Parks for People

Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £130 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £309 miliwn. Mae gwerth £10.7 miliwn o ymrwymiadau grant newydd (2011/12 £4.4 miliwn) wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau caled; ac mae'r ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 31 March yn cynnwys £30.2 miliwn (2011/12 34.2 miliwn) sy'n cynrychioli ein cyfraniad at y cynllun Parks for People ar y cyd. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £2.6 miliwn sy'n ddyledus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri mewn perthynas â'n cyfraniad i daliadau y maent wedi'u gwneud i dderbynyddion grantiau.

## 19. Cysoni incwm a gwariant i'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged/ (diffyg) dros y cyfnod | 66,532 | (178,921) |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 580 | 614 |
| Addasiad i'r balans agoriadol | 104 | - |
| Gwarged /(Diffyg) wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 67,216 | (178,307) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn masnachu ac arian arall a dderbynnir | 3,152 | (11,780) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yn y balans NLDF | 44,422 | 124,563 |
| (Gostyngiad/(Cynnydd) mewn masnachu ac arian arall sy'n daladwy | (2,468) | 7,538 |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | (536) | (1,074) |
| (Gostyngiad)/(Cynnydd) mewn darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau grant | (88,347) | 81,730 |
| Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu | 23,439 | 22,670 |

## 20. Risgiau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' ('IFRS 7') yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau a restrir y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth ar ffurf grantiau. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

### Risgiau hylifedd

Yn 2012/13, deilliodd £774 miliwn (92.3 y cant) o incwm y Gronfa Loteri Fawr o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd yr incwm sy'n weddill o enillion ar fuddsoddi'r balans a ddelir gyda NLDF, £4 miliwn (0.4 y cant) ynghyd â swm bach o log banc a mân incwm o £10 miliwn (1.3 y cant) ynghyd ag incwm cyfrifon segur o £50 miliwn (6.0 y cant). Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod eu hymrwymiadau caled (hynny yw contractau grant wedi'u llofnodi) ac eitemau taladwy eraill yn fwy na gwerth yr arian yn NLDF ar 31 Mawrth 2013. Er hynny, mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa Loteri Fawr yn agored i risgiau hylifedd sylweddol ac mae'n fodlon y bydd ganddi adnoddau hylif digonol o fewn NLDF a'r banc i gynnwys pob cais tebygol am daliad grant dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi hysbysu'r Bwrdd nad yw'n bwriadu newid trefniadau dosbarthu'r Loteri ar gyfer y sector gwirfoddol ac elusennol. Mae'r Bwrdd wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau hir dymor i sicrhau bod ymrwymiadau'r Gronfa Loteri Fawr yn cyfateb i'r asedau, a bod y Gronfa Loteri Fawr yn gallu bodloni'i hymrwymiadau hyd at 2019, pan ddaw pedwaredd drwydded y Loteri i ben. Gan hynny, hyd yn oed os cafwyd dirywiad hir dymor mewn incwm Loteri, byddai'r Bwrdd yn gallu addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny.

| **Asedau hylif ar 31 Mawrth 2013** | **£m** |
|---|---|
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 354 |
| Arian parod | 39 |

| **Rhagfynegiad o lifoedd arian yn ystod 2013/14** | |
|---|---|
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 740 |
| Incwm arall | 20 |
| Taliadau costau gweithredu | (50) |
| Taliadau grant | (693) |
| **Rhagfynegiad o'r mewnlif net** | 17 |
| Rhagfynegiad o asedau hylifol ar 31 Mawrth 2014 | 410 |

Mae'r rhagfynegiadau incwm yn seiliedig ar ragamcaniadau a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r rhagfynegiadau o daliadau grant yn seiliedig ar broffiliau tynnu i lawr a gydgrynhowyd ar 31 Mawrth 2013.

## Risgiau marchnad a chyfraddau llog

Mae asedau ariannol y Gronfa Loteri Fawr yn cael eu buddsoddi yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Gan y ddau reswm hwn, nid yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi cyflawni dadansoddiad sensitifrwydd ar risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, £354 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau ar y farchnad. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 0.78 y cant yn ystod y flwyddyn.

Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 0.15 y cant yn ystod y flwyddyn. Mae'r dirywiad sydyn mewn cyfraddau llog y farchnad yn 2008 wedi cael effaith sylweddol ar enillion, ond mae'r risg yn fach gan fod ychydig iawn o le i gyfraddau ostwng ymhellach. £35 miliwn oedd balans ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa Loteri Fawr yn agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol. Ar gyfer asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa Loteri Fawr roedd y gyfradd log yn 0 y cant.

| | **2012/13 £'000** | **2011/12 £'000** |
|---|---|---|
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - Cronfa Loteri Fawr | 25,372 | 14,076 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf - cyfrifon segur | 13,310 | 8,018 |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol | 354,421 | 398,843 |
| | 393,103 | 420,937 |

## Risgiau credyd

Mae taliadau i'w derbyn gan y Gronfa Loteri Fawr yn cynnwys rhagdaliadau, yn bennaf ar brydlesi eiddo a balansau rhynglywodraethol. Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oeddent oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn cyfnod llofnodi'r cyfrifon. Nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa Loteri Fawr yn agored i risgiau credyd sylweddol.

## Risgiau arian tramor

Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

| **Asedau yn ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol** | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau anghyfredol | 21,714 | 15,547 |
| Buddsoddiadau sydd ar werth | 354,421 | 398,843 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod – Cronfa Loteri Fawr | 25,372 | 14,076 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod – cyfrifon segur | 13,310 | 8,018 |
| Benthyciadau a thaliadau i'w derbyn | 25,554 | 28,706 |
| | 440,371 | 465,190 |

## Rhwymedigaethau ariannol fesul categori

| **Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol** | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau ariannol: | | |
| Ymrwymiadau grant | 369,632 | 473,063 |
| Taliadau gweithredu | 10,884 | 13,179 |
| | 380,516 | 486,242 |

## Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth, fesul categori, o lyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2013.

| **Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2013** | Llyfrwerth | Gwerth teg |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian parod | 38,682 | 38,682 |
| Buddsoddiadau | 354,421 | 354,421 |
| Taliadau i'w derbyn | 25,554 | 25,554 |
| | 418,657 | 418,657 |

| **Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2012** | Llyfrwerth | Gwerth teg |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian parod | 22,094 | 22,094 |
| Buddsoddiadau | 398,843 | 398,843 |
| Taliadau i'w derbyn | 28,706 | 28,706 |
| | 449,643 | 449,643 |

| Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2013 | Llyfrwerth £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant | 369,632 | 369,632 |
| Taliadau gweithredu | 10,884 | 10,884 |
| | 380,516 | 380,516 |

| Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2012 | Llyfrwert £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant | 473,063 | 473,063 |
| Taliadau gweithredu | 13,179 | 13,179 |
| | 486,242 | 486,242 |

## Sail prisio teg

**1** Y ffigur hwn yw gwerth yr adneuon gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y llyfrwerth yn cyfateb i'r gwerth teg.
**2** Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae hi'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer y Bwrdd ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Mae'r enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiad yn cael eu hystyried trwy'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr, gan arwain at lyfrwerth sy'n cyfateb i werth teg.
**3** Ni phennir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled.
**4** Er ein bod yn datgelu gwerth £521 miliwn o ymrwymiadau grant fel rhai nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl blwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Bwrdd o dan rwymedigaeth gontractol i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf.
**5** Mae'r holl eitemau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contractol arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y llyfrwerth a'r gwerth teg.

## Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol | 2012/13 £'000 | 2011/12 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | 903,362 | 994,177 |
| Mewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy | - | - |
| lMewn dwy i bum mlynedd | - | - |
| Mewn mwy na phum mlynedd | - | - |
| | 903,362 | 994,177 |

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn ac mewn mwy nag un flwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan ddeiliaid grantiau gan nad yw ein contractau gyda deiliaid grantiau yn cynnwys y cyfryw raniad.

Yn ddamcaniaethol, gallai deiliaid grantiau ofyn am eu grant cyfan dros y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

## 21. Ymrwymiadau ariannol

Rhoddir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol yn y tabl isod:

| | Ar 31 Mawrth 2013 £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Prydlesi eiddo lle mai ni yw'r prydlesai:** | | |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 6,085 | 6,294 |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 23,073 | 23,568 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 17,954 | 23,545 |
| | 47,112 | 53,407 |

| | Ar 31 Mawrth 2013 £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Prydlesi eiddo lle mai ni yw'r prydleswr:** | | |
| Ddim yn hwyrach na blwyddyn | 1,416 | 1,643 |
| Hwyrach na blwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 4,791 | 4,462 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 3,174 | 4,150 |
| | 9,381 | 10,255 |

Fel yr amlinellir ym mholisi cyfrifo 1.7 ni ellir rhannu prydlesi'n ddibynadwy rhwng tir ac adeiladau ond mae'r ddwy elfen yn brydlesi gweithredu.

## 22. Cynllun pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gall gweithwyr fod mewn un o bedwar cynllun buddiant diffiniedig; naill ai gynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa cyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a thelir costau'r buddiannau gan arian a bennir gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau hefyd ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau cyflogeion ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5 y cant ar gyfer premium, classic plus a nuvos. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiynau yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y maent yn aelodau o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn wedi'i ennill yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â'r CPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan ddeddfwriaeth dreth.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogydd o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogydd gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir manylion pellach am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2012/13, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr o £4,595,446 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2011/12 £4,544,138) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediadau a nodir isod. Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn sgil gwerthusiad llawn. Cynhaliwyd y gwerthusiad diweddaraf gan Hewitt Bacon and Woodrow ar 31 Mawrth 2007. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2012/13 yn gweddu i argymhellion gan yr Actiwari.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 |
|---|---|
| £21,500 a llai | 16.7% |
| £21,501 - £44,500 | 18.8% |
| £44,501 - £74,500 | 21.8% |
| £74,501 a mwy | 24.3% |

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 |
|---|---|
| £21,000 a llai | 16.7% |
| £21,001 - £43,500 | 18.8% |
| £43,501 - £74,500 | 21.8% |
| £74,501 a mwy | 24.3% |

Y nifer o staff y gwnaed cyfraniadau pensiwn ar eu cyfer yn 2012/13 oed 178 (Classic), 407 (Premium), 322 (Nuvos). Mae'r cyfanswm o 907 yn cynrychioli tua 95 y cant o'r staff parhaol a gyflogir.

Lefel ragfynedig cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2013/14, yn seiliedig ar ddyfarniad tâl 1 y cant o'i gymharu â lefelau tâl 2012/13, yw £4,614,400.

Fel cynllun amlgyflogwr nad yw'n cael ei ariannu sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector cyhoeddus, mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth, Undebau Llafur ac aelodau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei sefyllfa actiwaraidd a lefelau tebygol o gyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Yn gyffredin â'r holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'r tebygolrwydd o gynnydd mewn lefelau cyfraniadau'n rhan o'r trafodaethau hyn.

Cynllun buddiannau aml-gyflogwr diffiniedig yw PGPGS, felly ni allwn adnabod ein cyfran o asedau neu atebolrwydd mewn perthynas â'r cynllun.

## 23. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariennir wedi cael eu cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2013 rydym wedi dileu colledion o £1,952,737, gan gynrychioli 126 o ddyfarniadau 2011/12 £1,554,073 gan gynrychioli 116 o ddyfarniadau). Cafwyd tri dilead uwchben £100,000, y rhoddir manylion amdanynt isod.

| | |
|---|---|
| One Plus Parent Families | £106,094 |
| Chaos Enterprises | £285,000 |
| Weston Spirit | £384,698 |

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol

- Gwnaed grant yn anfwriadol i sefydliad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2013, gwnaed chwe thaliad arbennig gwerth cyfanswm o £40,795 (2011/12 £39,662 gan gynrychioli 3 dyfarniad) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 24. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o noddi polisi'r Gronfa o DCMS i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011 ond mae gennym berthynas ariannol barhaus gyda DCMS, sy'n cadw cyfrifoldeb dros arian Loteri. Gan hynny, mae DCMS a Swyddfa'r Cabinet wedi cael eu trin fel partïon cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwblhau amrywiaeth o drafodion materol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai'r adran noddi ar eu cyfer yw DCMS: Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Dosbarthwr y Loteri Olympaidd.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy NLDF (Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol) a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli Arian i Bawb a rhentu swyddfeydd. Gwnaed taliadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England ar gyfer eu gwasanaethau o ran cynnal rhaglenni grantiau ar y cyd (Nodyn 18).

Yn ogystal â hyn mae gennym nifer o drafodion materol gydag adrannau a chyrff y Llywodraeth sy'n ystyried adrannau eraill y Llywodraeth fel y rhai sy'n eu noddi nhw:

- Mae Natural England, a noddir gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn dderbynnydd dyfarniad grant
- Mae Highlands and Islands Enterprise, a noddir gan Weinidogion yr Alban, yn cyflwyno rhaglen grant ar ein rhan
- Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol
- Mae'r Adran Addysg wedi contractio rheolaeth y rhaglen grant myplace i'r Gronfa
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil wedi contractio rheolaeth y rhaglen Asedau Cymunedol a'r Gronfa Drosglwyddo i'r Gronfa.

### Aelodau Bwrdd

Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a threfn, mae aelodau'r Bwrdd yn cynnal cofrestri buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa a pherthnasoedd masnachol gyda ni.

Pan wneir penderfyniad pwyllgor y gellir tybio'n rhesymol eu bod yn arwain at wrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i fudiadau gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad yn cael ei wneud ar ddechrau'r cyfarfod a bod yr aelod yn gadael pan gaiff yr eitem berthnasol ei thrafod. Mae ein gweithdrefnau hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn ymwneud â phrosesu ceisiadau y mae ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan buddiannau gyda chyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gennym fuddiannau busnes anfaterol â nhw. Datgelir y rhain ar dudalen 81-84.

.

## 25. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan, ar ran Dosbarthwr Loteri'r Gemau Olympaidd ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Nid yw'r balansau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein cyfrifon ein hunain.

Ar 31 Mawrth 2013 cadwyd y balansau banc canlynol ar ran trydydd partïon:

| | 31/03/2012<br>£ | Mewnlifau<br>£ | All-lifau<br>£ | 31/03/2013<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Yr Adran Addysg – rhaglen myplace | 12,876,885 | 39,570,897 | (52,079,476) | 368,306 |
| Swyddfa'r Cabinet – Community Assets, Transition Fund, Advice Services Fund, Social Incubator Fund, Transforming Local Infrastructure | 811,243 | 19,121,214 | (13,853,796) | 6,078,661 |
| Cyngor Celfyddydau Lloegr – Arian i Bawb Lloegr | 48,375 | 854 | (45,375) | 3,854 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Arian i Bawb; Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon | 64,516 | 752 | (61,516) | 3,752 |
| Sport England – Arian i Bawb Lloegr | 22,369 | 1,123 | (19,369) | 4,123 |
| Creative Scotland – Arian i Bawb Yr Alban | (28,706) | 534,847 | (486,928) | 19,213 |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 1,332,197 | 2,594,389 | (2,814,390) | 1,112,196 |
| Llywodraeth Cymru – Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 515,430 | 1,910,624 | (1,929,920) | 496,134 |
| Scottish National Heritage – Byd o Natur | 30,031 | 4,368 | (25,000) | 9,399 |
| Sports Scotland – Arian i Bawb Yr Alban | (121,700) | 968,228 | (991,174) | (144,646) |
| Llywodraeth Yr Alban – Communities and Family Fund, Scottish Land Fund | - | 2,678,561 | (1,868,117) | 810,444 |
| Trysorlys EM – Cronfa Cymunedau'r Arfordir | - | 2,245,965 | (1,335,964) | 910,001 |

## 26. Menter ar y cyd – Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol ("NLPU") yn fenter ar y cyd rhwng Grŵp Camelot plc, dosbarthwyr y Loteri a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus gadarnhaol o fuddion dosbarthu arian Loteri ar draws y DU a chefnogaeth dros hynny, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a chan hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad. Ariennir traean o NLPU gan Camelot a dau draean yn uniongyrchol gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfanswm gwariant wedi'i gyfyngu i £3 miliwn. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr tri budd-ddeiliad allweddol: Camelot, dosbarthwyr y Loteri a DCMS, gyda Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy'n berthnasol i'r Gronfa wedi'i chydgrynhoi o fewn y cyfrifon cenedlaethol o ystyried y materoldeb.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael yn www.achosiondayloteri.org.uk

## 27. Ymrwymiadau cyfalaf

Roedd gwerth £3,121,332 o ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2013 (2011/12 £5,529,000) mewn perthynas â'r system rheoli ariannu newydd.

O'r rhain delir £381,774 ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel croniadau cyfalaf.

## 28. Asedau amodol

Mae gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol hawl i gyfran o dderbynebau'r dyfodol yn sgil gwerthu'r Parc Olympaidd. Mae'r hawliad hwn yn gyfnewid am y cyfraniad ariannol ychwanegol o £675 miliwn ar gyfer Gemau 2012. Eglurwyd i'r dosbarthwyr Loteri y byddai taliadau'n cael eu cyflawni dros y tymor hwy, o ystyried y raddfa amser 25 mlynedd ar gyfer rhaglen ddatblygu'r Parc Olympaidd a'i dibyniaeth ar berfformiad y farchnad. Yr amcangyfrif cyfredol gan DCMS yw y dylai'r taliadau ddechrau yng nghanol y 2020au, gyda'r swm cyfan yn cael ei ad-dalu erbyn 2030/31.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r elw o werthu tir ar Orynys Greenwich gan Awdurdod Llundain Fawr ar ôl i gostau penodol gael eu talu. Nid oes unrhyw daliadau wedi dod yn ddyledus, ond rhagamcanir y bydd taliadau o £87 miliwn yn cael eu derbyn rhwng 2012 a 2031.

## 29. Rhwymedigaethau amodol

Rhoddir manylion ymrwymiadau meddal yn Nodyn 17. Nid oes unrhyw rwymedigaethau amodol eraill i adrodd amdanynt (2011/12 £0).

## 30. Adolygiad ar ôl y fantolen

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn effeithio'n ariannol ar y cyfrifon blynyddol rhwng 31 Mawrth 2013 a dyddiad awdurdodi cyhoeddiad y cyfrifon hyn, 5 Gorffennaf 2013.

# Memorandwm: arian cyfrifon segur

O dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ('y Ddeddf'), gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae Reclaim Fund Ltd yn trosglwyddo arian, y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion y cyfrifon segur, i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ('y Gweinidog') a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Dyrennir arian rhwng pedair gwlad y DU yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan Senedd y DU.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gronfa Loteri Fawr a'r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu'r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y pedair gwlad.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r gwledydd unigol o'r arian a ddyrennir.

Mewn perthynas â Lloegr, mae'r cyfarwyddiadau'n darparu bod yr holl arian a drosglwyddir i'r Gronfa Loteri Fawr yn cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr er mwyn cyfalafu Big Society Capital, cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol. Cyn sefydlu Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr, gwnaeth y Gronfa Loteri Fawr ddyfarniadau'n unol â chyfarwyddiadau.

Mewn perthynas â'r tair gwlad arall, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud dyfarniadau grant mewn modd tebyg i arian loteri, felly mae ymrwymiadau dros ben o ddyfarniadau grant a wnaed nad ydynt wedi cael eu tynnu i lawr gan dderbynyddion grantiau eto.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw arian heb ei dynnu i lawr eto fel adneuon mewn banciau masnachol.

| | Cyfanswm £'000 | Lloegr £'000 | Yr Alban £'000 | Cymru £'000 | G I £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 50,000 | | | | |
| Llog banc a llog arall a dderbyniwyd | 32 | | | | |
| **Cyfanswm incwm cyfrifon segur** | 50,032 | | | | |
| Costau gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr wrth ddosbarthu incwm cyfrifon segur | (501) | | | | |
| **Ar gael i'w ddyrannu i wledydd** | 49,531 | | | | |
| Cyfran pob gwlad | | 83.9% | 8.4% | 4.9% | 2.8% |
| Wedi'i ddyrannu i bob gwlad | 49,531 | 41,556 | 4,161 | 2,427 | 1,387 |
| Trosglwyddiadau i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr | (41,360) | (41,360) | - | - | - |
| Ymrwymiadau grant eraill a wnaed | (7,981) | - | (7,361) | (620) | - |
| **Balans yr arian sydd ar gael i'w ddosbarthu** | 190 | 196 | (3,200) | 1,807 | 1,387 |

## Memorandwm o gyfrifon - cyfrifon segur

## Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| Incwm | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 50,000 | 47,630 |
| Llog banc a dderbyniwyd | 32 | 251 |
| **Gwariant ar raglenni** | | |
| Trosglwyddiadau i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr | (41,360) | (37,990) |
| Ymrwymiadau grant eraill a wnaed | (7,981) | - |
| **Costau gweithredu** | | |
| Cost a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig | - | (1630) |
| Costau gweithredu eraill | (501) | (340) |
| **Cyfanswm gwariant** | (49,842) | (39,960) |
| Gwarged cyn treth | 190 | 7,921 |
| Treth | - | - |
| Gwarged ar ôl treth | 190 | 7,921 |
| Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr | 190 | 7,921 |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2012 | 7,921 | - |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 190 | 7,921 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2012 | 8,111 | 7,921 |

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2013

| | | |
|---|---|---|
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 13,310 | 8,018 |
| Cyfanswm asedau | 13,310 | 8,018 |
| **Ymrwymiadau cyfredol** | | |
| Masnachu ac arian arall sy'n daladwy ar gyfrifon segur | (169) | (97) |
| Ymrwymiadau grant | (5,030) | - |
| **Asedau llai ymrwymiadau** | 8,111 | 7,921 |
| Gwarged argadwedig mewn perthynas â chyfrifon segur | 8,111 | 7,921 |

# Adran saith
## Ein cefndir statudol

### Cyfarwyddiadau Polisi
Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau o ran materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau. Trosglwyddodd cyfrifoldeb dros y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys pennu cyfarwyddiadau polisi, o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011. Yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr mae gennym gyfarwyddiadau polisi newydd bellach ar gyfer ein hariannu yn Lloegr, Ynys Manaw a'r DU a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2012.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn ym mhob agwedd faterol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2012/13.

### Lloegr a'r DU
**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(1)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993 (fel y'i diwygir)**

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir).

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd dros Swyddfa'r Cabinet, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(1)(b) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

### Lloegr, Ynys Manaw a'r Deyrnas Unedig Cyfarwyddiadau Cyffredinol
**1.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant y Deyrnas Unedig, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu ei harian o dan adran 25(1).

**A.** Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir:

(i) Yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan ac yn ymwneud â defnyddio ariannu'r Gronfa i ddarparu atebion i'r materion sydd fwyaf pwysig iddynt yn eu cymunedau;

(ii) Yn helpu i adnabod a galluogi'r rhai sy'n barod i arwain y broses o ddarparu'r atebion hyn ac yn dileu rhwystrau ar gyfer y rhai y gallai fod angen cymorth arnynt i wneud hyn; ac

(iii) Yn cefnogi atebion newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, ac yn cynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i ariannu'r Gronfa.

**B.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni dosbarthiad yr ariannu i ledaeniad gweddol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y sector gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig y maent yn gweithio tramor.

**C.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**Ch.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud grantiau, a allai gynnwys partneriaethau â darlledwyr, cyfryngau electronig, print a digidol a chyfryngau eraill.

**D.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar sail angen, gan gyflwyno canlyniadau mesuradwy ac effaith ehangach ar gyfer cymunedau ac unigolion.

**Dd.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i dderbynyddion i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**E.** Bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

**1. YMGYSYLLTU** – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ar ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mewn mentrau cymdeithasol.

**2. CYNRYCHIOLAETH** – dylai datblygu rhaglenni gymryd y rhai mwyaf anghenus i ystyriaeth trwy dargedu anghydraddoldeb a gwella gallu pobl a chymunedau i gyfrannu at raglenni'r Gronfa, cymryd rhan ynddynt ac elwa o'r canlyniadau a ariannwyd.

**3. CYNALADWYEDD** – gallu'r rhaglen i wella'r amgylchedd heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

**4. BUDDION TYMOR HWY** – y gall prosiectau gyflawni dichonolrwydd a gwydnwch ariannol dros y tymor hwy.

**5. YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU** – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod ar wahân iddynt.

**6. GWEITHIO AR Y CYD** – pan fydd hyn yn cyflawni canlyniadau gwell, dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gefnogi gweithredu ar y cyd rhwng mudiadau a ariennir a phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil.

## Gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

**2.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun unigryw polisi a chamau gweithredu'r llywodraeth a chymdeithas sifil gan ychwanegu gwerth mewn ffyrdd priodol at yr amcan o greu cymdeithas fwy teg, rhydd a chyfrifol lle mae pawb yn chwarae rhan wrth wella'u cymuned a helpu ei gilydd.

**B.** Yr angen am sicrhau y caiff ariannu ei ddosbarthu i brosiectau sy'n creu buddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

**C.** Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir yn ymdrin ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn:

(i) Annog cyfranogiad cymdeithasol mewn cymunedau a dileu rhwystrau;

(ii) Cryfhau gallu mudiadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol; a

(iii) Chryfhau a chynyddu gallu'r farchnad buddsoddi cymdeithasol i gefnogi buddion cyhoeddus a gweithredu cymdeithasol.

**Ch.** Yr angen am ystyried:

(i) Buddion a chwmpas cymryd camau effeithiol ar gyfer Lloegr neu Ynys Manaw yn gyffredinol ac ar gyfer rhannau gwahanol o Loegr neu Ynys Manaw; a'r

(ii) Meintiau poblogaeth a lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol cymharol mewn rhannau gwahanol o Loegr ac Ynys Manaw.

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet
28 Mawrth 2012

## Yr Alban

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii). os ceisir arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Yr Alban

**3.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; cefnogi mwy o degwch yn Yr Alban wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian i fynd i'r afael â blaenoriaethau mynd i'r afael ag anfantais, datblygu lles ac ymdrin ag anghydraddoldeb; gan sicrhau ar yr un pryd lledaeniad helaeth o dderbynyddion, gan gynnwys sefydliadau bach, y rhai sy'n gweithio ar lefel leol, mentrau a sefydliadau cymdeithasol sydd â chanolfan yn Yr Alban ac sy'n gweithio tramor.

**C.** Yr angen am ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

**Ch.** Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol. Y flaenoriaeth o fynd i'r afael ag anfantais a'r angen am ymdrin ag anghydraddoldeb.

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

**A. MWY CALL:** Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd.

**B. MWY CRYF A MWY DIOGEL:** Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb.

**C. MWY GWYRDD:** Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

**Ch. MWY IACH:** Pobl a chymunedau mwy iach.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

**A. YMGYSYLLTU** – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

**B. UNDOD A CHYDLYNIANT** - sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

**C. CYNALADWYEDD** – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

**Ch. YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU** – dylai datblygu rhaglenni gydweddu â strategaethau a gweithgareddau partneriaid a budd-ddeiliaid ac ychwanegu gwerth atynt.

**D. CYDWEITHIO** - lle bo'n bosib dylai canlyniadau prosiectau a rhaglenni elwa o gydweithio effeithiol rhwng mudiadau a rhwng partneriaid cyhoeddus a phreifat a'r rhai yn y trydydd sector.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban gan John Swinney, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Thwf Cynaliadwy, aelod o Lywodraeth Yr Alban

Gorffennaf 2009.

## Cymru

### CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Trwy hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y gall y Gronfa wneud grantiau neu fenthyciadau, at ba ddiben y bydd y Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

Yr angen am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dylid cyflawni hyn trwy gynnwys amodau penodol mewn perthynas ag iaith mewn grantiau a monitro, a goruchwylio perfformiad derbynyddion grantiau mewn perthynas â'r amodau hynny.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii). os ceisir arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; ac

b) am sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Fasnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o'i strategaeth.

Yr angen am sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

**F.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**Ff.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**G.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**Ng.** Yr angen am sicrhau ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddiad gorau er budd cymunedau ledled Cymru. Pan fo'n briodol, dylid defnyddio profiadau mudiadau eraill i wella datblygiad a chyflwyniad mecanweithiau ariannu.

## Gwariant Datganoledig Cymru

**3.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y gall y Gronfa wneud grantiau neu fenthyciadau, at ba ddiben y bydd y Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau, y broses a ddefnyddir i benderfynu pa daliadau i'w gwneud ac o dan ba amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau neu fenthyciadau:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Nghymru.

Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C.** Yr angen am ystyried buddiannau Cymru'n gyffredinol, buddiannau rhannau gwahanol o Gymru a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru, a'r angen am annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus, yn gweithio ar y cyd, i gyflwyno gwell canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion.

**4.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r canlyniadau a ganlyn:

**A.** rhoi'r sgiliau a'r dysgu i bobl o bob oedran wynebu heriau cymdeithas fodern;

**B.** pobl sy'n cydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol; ac

**C.** pobl a chymunedau sy'n fwy iach ac yn fwy actif yn gorfforol.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu cymunedol a sgiliau bywyd effeithiol;

**B.** pobl sy'n cydweithio dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol; ac

**C.** grymuso cymunedau i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni adfywio lleol;

datblygu ymatebion cymunedol adeiladol i ddadrithio, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu;

**D.** galluogi pobl ifanc i fyw'n annibynnol a chyfrannu at eu cymunedau;

**Dd.** galluogi cymunedau i reoli a gwella'u hamgylchedd a'u hamwynderau lleol;

**E.** datblygu galluoedd pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain yn unol â'r egwyddorion sy'n sylfaen i Her Iechyd Cymru, gan annog unigolion a mudiadau i wella iechyd yng Nghymru;

**Ff.** hyrwyddo bwyta'n fwy iach a chynyddu gweithgarwch corfforol ar draws pob grŵp oedran, rhyw a chymdeithasol;

**G.** datblygu ymagweddau newydd at hyrwyddo adeiladu cymunedol a chefn gwlad

## Gogledd Iwerddon

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993**

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth ddefnyddio'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

**1.** Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

**2.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

**B.** Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

**C.** Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

**Ch.** Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

**D.** Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

**Dd.** Yr angen:

ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii). os ceisir arian cyfalaf:

a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

**E.** Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle fo hyn yn ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

**F.** Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

**Ff.** Yr angen am geisio am elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth.

**G.** Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

**Ng.** Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

## Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon

**4.** Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

**A.** Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Ngogledd Iwerddon.

**B.** Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

**C**. Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Ogledd Iwerddon.

**5.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

**A.** Pobl yn cael cyfle i gyflawni eu potensial llawn

**B.** Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel

**C.** Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

**6.** Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

**A.** Gwella sgiliau hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd

**B.** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol

**C.** Adeiladu gallu cymunedau

**Ch.** Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac ar gyfer ymgysylltu rhwng ac o fewn cymunedau

**D.** Adeiladu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol

**Dd.** Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol

**E.** Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth amddiffyn, adfer a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig

**F.** Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach

**Ff.** Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigolion a chymunedau.

Llofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ogledd Iwerddon

# Cyfarwyddiadau Ariannol

Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol a amlinellir isod yn berthnasol ar draws ein holl weithgareddau ym mhedair gwlad y DU. Rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn trwy weithredu gweithdrefnau ar draws y mudiad i sicrhau bod Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael eu dilyn.

Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol i wirio ar sail samplu bod yr holl swyddogion ac adrannau yn cadw at y gweithdrefnau cytûn, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dogfennu a'u lledaenu'n briodol. Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol llawn ar gael ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: http://www.culture.gov.uk/what_we_do/national_lottery/4202.aspx

**CYFARWYDDIADAU ARIANNOL A GYHOEDDWYD O DAN ADRANNAU 36E(3) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993 (FEL Y'U DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 2006).**

Sefydlwyd y Gronfa Loteri Fawr o dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ("y Ddeddf") a daeth i rym yn llawn ar 1 Rhagfyr 2006. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ofynion Ariannol ynghlwm, sydd â statws cyfarwyddiadau o dan adran 36E(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

Mae'r Datganiad o Ofynion Ariannol yn ychwanegol at, a dylid ei ddarllen ar y cyd â, Datganiad Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, sy'n ymdrin â materion llywodraethu a rheoli corfforaethol.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

135

**Argraffu:** Belmont Press
**Ffotograffiaeth:** Steve Brock, Kevin Clifford, Eyeimagery, Dominic Holden, Mandy Jones, CarolineMardon, Jon Hancock Photography, Ross Johnston/Newsline Scotland,Martin McKeown, BrianMorrison, David Parry/PAWire, Chandra Prasad/Sustrans, Syd Shelton, Paula Solloway, Nick Traherne, ChrisWatt
**Dylunwyr:** Graphicsi Ltd

**Copïau pellach ar gael gan:**

Ffôn: 0300 123 0735
Ffôn testun: 0845 6 02 16 59
E-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

**Hygyrchedd**

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

**Ein hegwyddorion cydraddoldeb**

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfle cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

**Rydym yn gofalu am yr amgylchedd**

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac yn defnyddio adnoddau cynaliadwy priodol yn unig.

**Ein cenhadaeth**

Rydym yn ymrwymedig i ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.

**Ein gwerthoedd**

Rydym wedi adnabod tri gwerth sy'n sail i'n holl waith: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu, gwneud y defnydd gorau o arian Loteri a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth. Gallwch gael gwybod mwy amdanom ni, ein gwerthoedd a'r rhaglenni ariannu rydym yn eu cynnig drwy fynd i'n , www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ceisio mabwysiadu ymagwedd gynhwysol at sicrhau bod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa ac ar gael:

Online
www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost
Y Llyfrfa
PO Box 29, Norwich NR3 1GN Archebu dros y ffôn/ymholiadau
cyffredinol: 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Gymorth Senedd y DU
Galwad Rad 0845 7 023474
Archebu trwy ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebu dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebu trwy ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Ar y we: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

ISBN 978-0-10-298573-3

9 780102 985733